# Cynllun Twf Gogledd Cymru: Achos Busnes y Portffolio









HATCH

# Tudalen Gynnwys


**Tudalen Gynnwys** 2

**Trosolwg Gweithredol** i

Yr Achos Strategol i
Yr Achos Economaidd iv
Yr Achos Masnachol vii
Yr Achos Ariannol vii
Yr Achos Rheoli x

**1. Cyflwyniad** 1

**2 Yr Achos Strategol** 2

Y Cyd-destun Strategol 2

Cynlluniau Dinasoedd a Thwf 2
Trosolwg Sefydliadol 2
Strategaeth ac Amcanion Busnes 4
Cyd-fynd â Mentrau Presennol 8

Yr Achos dros Newid 9

Amcanion Gwariant Portffolio Strategol 9
Trefniadau presennol 10
Anghenion Busnes 18

Sgôp Posib: Cynllun Twf Gogledd Cymru 20

Rhaglenni'r Cynllun Twf 20
Prif Fuddion 23
Y Prif Risgiau 25
Cyfyngiadau 25
Dibyniaethau 26

**3 Yr Achos Economaidd** 27

Ffactorau Llwyddiant Hanfodol 27

Asesiad o'r Opsiynau 27

Dewisiadau Strategol 28
Datblygu'r cynigion 29

Gwerthusiad Economaidd 35

Crynodeb o'r Gwerthusiad Economaidd 35
Paramedrau gwerthuso allweddol 37
Costau 37

| | | |
|---|---|---|
| | Buddion wedi'u mesur | 38 |
| | Buddion gros | 40 |
| | Buddion ychwanegol net | 41 |
| | Cymhareb budd-cost | 42 |
| | Dadansoddiad Risg a Sensitifrwydd | 43 |
| | Risg | 43 |
| | Asesiad Sensitifrwydd | 44 |
| | Buddiannau Ehangach | 45 |
| **4** | **Yr Achos Masnachol** | **46** |
| | Strategaeth Fasnachol | 46 |
| | Strategaeth Gaffael | 46 |
| | Egwyddorion Caffael | 48 |
| | Gwerth Cymdeithasol a Buddion Cymunedol | 50 |
| | Darparu Adnoddau Caffael | 51 |
| | Perthnasau Cytundebol | 51 |
| | Partneriaethau Allweddol | 51 |
| | Perthnasau Rhanddeiliaid | 51 |
| | Gofynion Gwasanaeth, Deilliannau a Dyraniad y Risg | 51 |
| | Mecanwaith Codi Ffi | 52 |
| | Perchnogaeth Asedau, Rheoli a'r Ymdriniaeth Gyfrifeg | 52 |
| | Perchnogaeth | 52 |
| | Rheoli | 52 |
| | Yr Ymdriniaeth Gyfrifeg | 52 |
| | Cymorth Gwladwriaethol | 52 |
| | Goblygiadau Personél | 53 |
| **5** | **Yr Achos Ariannol** | **54** |
| | Gofynion Cyfalaf a Refeniw | 54 |
| | Gofynion Cyfalaf | 54 |
| | Gofynion Refeniw | 56 |
| | Crynodeb Incwm a Gwariant | 56 |
| | Aeddfedrwydd y Prosiect | 57 |
| | Cyllid Sector Preifat | 59 |
| | Monitro a Gwerthuso | 60 |
| | Rheoli Risg Ariannol a Threfniadau Archwilio | 61 |
| **6** | **Yr Achos Rheoli** | **64** |
| | Rheoli, Llywodraethu a Chydlynu | 64 |

Strwythur Cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru 64
Achosion Busnes y Prosiectau 67
Profiad o Gyflawni 68
Rheoli Risg 69
Rheoli Newid 70
Gweithio mewn Partneriaeth ac Ymgysylltiad Rhanddeiliaid 71
Llinell Amser a Cherrig Milltir 71
Aeddfedrwydd y Prosiect 71
Marchnata 72
Monitro, Gwerthuso ac Adborth 73
Gwireddu Buddion 73
Sicrwydd 73

**Atodiad A - Asesiad Effaith Cenedlaethau'r Dyfodol 1**

**Atodiad B - Cyfarfodydd Allweddol wrth ddatblygu'r Cynllun Twf 1**

**Atodiad C - Prosiectau'r Cynllun Twf 1**

**Atodiad D - Amcanion gwario lefel rhaglen 1**

**Atodiad E - Gwerthusiad Economaidd: Prif Egwyddorion a Thybiaethau a Buddion fesul Prosiect 1**

**Atodiad F - Amserlen Cyflawni'r Cynllun Twf 1**

**Atodiad G - Dadansoddiad Sensitifrwydd Lefel Rhaglen Manwl 2**

# Trosolwg Gweithredol

i. Diben yr achos busnes portffolio strategol hwn yw arddangos y dewis optimaidd o raglenni a phrosiectau ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn ceisio cyflawni cyfanswm o hyd at £1.1bn o fuddsoddiad yn economi'r Gogledd (£240m o'r Cynllun Twf), i greu 3,400 - 4,200 o swyddi ychwanegol net a chynhyrchu £2.0 - £2.4 biliwn mewn GVA ychwanegol net.


ii. Nod y Cynllun Twf yw adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yn y Gogledd, gan adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd wrth fynd i'r afael â heriau a rhwystrau economaidd hir-dymor i gyflawni twf cynhwysol. Mae ein dulliau gweithredu i gyflawni twf mewn ffordd gynhwysol, gynaliadwy, y gellir ei ymestyn yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

iii. Bwriad yr achos busnes yw hysbysu Cytundeb Terfynol y Cynllun Twf, sy'n dilyn y cytundeb Penawdau'r Telerau gyda Llywodraethau Cymru a'r DU yn 2019.

## Yr Achos Strategol

Gweler isod grynodeb o'r model rhesymeg ar gyfer y Cynllun Twf.

Figure 1.1 Ffigwr 1.1 Model Rhesymeg y Portffolio




Ffynhonnell: Y Bwrdd Uchelgais. Nodyn ar Fethiant y Farchnad: **Allanoldebau cadarnhaol:** buddion economaidd/cymdeithasol/amgylcheddol trydydd parti i'r economi/cymdeithas ehangach. Ni all sefydliadau masnachol ddal y rhain i gyd felly mae angen buddsoddiad cyhoeddus. **Methiant gwybodaeth:** nid oes gan fusnesau'r wybodaeth gyflawn am dechnolegau/datblygiadau a allai sicrhau twf. Mae angen buddsoddiad cyhoeddus i bontio'r bylchau gwybodaeth hyn. **Methiant cydlynu:** mae'n bosib nad oes gan un sefydliad yn unig y cymhelliant i fuddsoddi mewn menter sy'n sicrhau buddion i bartneriaid ehangach. Mae angen buddsoddiad cyhoeddus i symbylu Buddsoddiad partneriaeth.

### Y Cyd-destun Strategol

iv. Sefydlwyd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn 2012 ac mae'n cynnwys chwe ardal weinyddol Awdurdodau Lleol rhanbarth y Gogledd a Phrifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai. Mae'r sector preifat wedi helpu i ffurfio'r cynllun hefyd, drwy Gyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy a'r Grŵp Cyflawni Busnes.

v. Mae'r Cynllun Twf yn adeiladu ar y Weledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru, a fabwysiadwyd yn 2016:

> *"rhanbarth hyderus, cydlynol sydd â thwf economaidd cynaliadwy, sy'n elwa i'r eithaf o lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a'n cysylltiad ag economïau Pwerdy'r Gogledd ac Iwerddon."*

vi. Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau Llywodraethau'r DU a Chymru yng nghyswllt datblygiad economaidd. Mae'n cyd-fynd yn arbennig o gryf gyda **Strategaeth Ddiwydiannol** Llywodraeth y DU, **ynghyd â Chynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ynghyd â'u themâu llorweddol.** Cynaliadwyedd sydd wrth wraidd y Cynllun Twf, a bydd y buddsoddiadau yn cyfrannu tuag at dargedau lleihau allyriadau carbon Cymru.

### Yr Achos dros Newid

vii. Mae amcanion gwario strategol y portffolio fel a ganlyn.

> - Creu rhwng 3,400 a 4,200 o swyddi newydd net yn y Gogledd drwy'r Cynllun Twf erbyn 2036.
> - Cefnogi cynnydd ychwanegol net o rhwng £2.0 biliwn a £2.4 biliwn mewn GVA i Economi'r Gogledd drwy'r Cynllun Twf erbyn 2036.
> - Cyflawni cyfanswm o hyd at £1.1 biliwn o fuddsoddiad yn Economi'r Gogledd drwy'r Cynllun Twf erbyn 2036.

viii. Mae'r Gogledd yn cyfrannu £14.2 biliwn at economi'r DU bob blwyddyn.[1] Mae'r perfformiad economaidd diweddar wedi bod yn wydn ond mae bwlch cynhyrchedd parhaus a chynyddol yn dal i fodoli, ynghyd ag amrywiadau mawr mewn cynhyrchedd o fewn y Gogledd. Mae economi'n amrywiol a'r sectorau allweddol yw gweithgynhyrchu, ynni a thwristiaeth yn ogystal â swyddi yn y sector cyhoeddus. Mae peth o'r bwlch cynhyrchedd yn cael ei briodweddu gan strwythur ein sectorau, ond mae ardaloedd o gryfder a chyfleoedd, yn benodol yn y sectorau gweithgynhyrchu uwch, ynni carbon isel, bwyd-amaeth, twristiaeth a digidol.

ix. Mae cefnogi sectorau gwerth uchel ac ymdrin â'r rhwystrau hir-dymor i dwf wrth galon Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae anghenion busnes allweddol wedi'u hadnabod ar draws y sectorau gwerth uchel hyn, fel a ganlyn:

- Gwella cynhyrchedd
- Cefnogi arloesedd ac ymchwil a datblygu
- Cefnogi'r agenda carbon isel a gyrru twf carbon isel
- Integreiddio'r gadwyn gyflenwi
- Cwrdd ag anghenion sgiliau

1 Mesurwyd gan Werth Ychwanegol Crynswth (GVA). Ffynhonnell: ONS, data 2018.

- Angen am ofod llawr cyflogaeth modern a thir preswyl wedi'i wasanaethu
- Ymdrin â'r rhaniad digidol
- Ymestyn y capasiti ymchwil digidol.

x. Mae'r Cynllun Twf wedi'i ddylunio i fynd i'r afael â heriau hir-dymor ond, mae pandemig COVID-19 wedi cael effaith ddofn ar economi'r Gogledd a bydd yn dylanwadu'r gefnlen ar gyfer y Cynllun Twf a'r cyd-destun ar gyfer cyflawni o'i fewn. Mae Partneriaid wedi comisiynu dadansoddiadau i ddarparu'r wybodaeth ddiweddaraf ar oblygiadau COVID a chynllunio'r gwaith adfer.

### Sgôp Posib: Cynllun Twf Gogledd Cymru

xi. Ffocws y Cynllun Twf ar hyn o bryd yw adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yn y Gogledd, gan adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd a mynd i'r afael â heriau a rhwystrau economaidd hir-dymor i gyflawni twf cynhwysol. Rydym wedi adnabod "sectorau hwyluso" i fynd i'r afael â rhwystrau economaidd allweddol a rhoi sylw i faterion strwythurol sydd wedi cael effaith ar gynhyrchedd a swyddi.[2] Mae'r rhain fel a ganlyn:

| Sectorau Twf Uchel | Sectorau hwyluso |
|---|---|
| - Ynni carbon isel<br>- Arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel<br>- Bwyd-amaeth a thwristiaeth | - Tir ac eiddo<br>- Digidol |

### Prif Fuddion

xii. Bydd y Cynllun Twf yn arwain at nifer o fuddion uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gyfer economi'r Gogledd. Mae'r amcanion strategol a fydd yn cael eu cyflawni yn cynnwys yr hyn a ganlyn:

- Twf mewn ffyniant rhanbarthol - drwy well cynhyrchedd, mewnfuddsoddiad a chreu swyddi newydd.
- Creu swyddi o ansawdd gwell ar gyfer y farchnad lafur lleol - drwy ymyraethau wedi'u targedu mewn sectorau gwerth uchel i greu swyddi newydd.
- Gweithlu mwy medrus o fewn y rhanbarth - drwy gefnogi sgiliau a mentrau hyfforddi ac ymyraethau wedi'u targedu mewn sectorau gwerth uchel i greu cyfleoedd.
- Gwelliannau mewn safonau byw ledled y rhanbarth - twf cynhwysol sy'n darparu cyfleoedd, lleihau tlodi, anghydraddoldeb ac amddifadedd.

### Y Prif Risgiau

xiii. Mae'r risgiau allweddol i gyflawni'r portffolio yn llwyddiannus yn cynnwys adnoddau; cyflawni; cost COVID-19; Brexit; Newid hinsawdd ac Bioamrywiaeth; Buddsoddiad sector cyhoeddus a phreifat; Cyfranogiad gan gwmnïau defnyddwyr terfynol a newid gwleidyddol. Ystyrir y dulliau o reoli'r risgiau hyn yn yr Achos Rheoli

i. 2 Mae'r ddau sector hwyluso arall (sgiliau a chyflogaeth a thrafnidiaeth strategol) yn eistedd y tu allan i'r Cynllun Twf.

### Cyfyngiadau a Dibyniaethau

xiv. Mae nifer o gyfyngiadau ar gyflawni'r Cynllun Twf yn cynnwys y pecyn ariannu o gyfanswm o £240m, tymor 15 mlynedd y Cynllun Twf, y gofyn am gyllid cyfalaf yn unig ac ystyriaethau Cymorth Gwladwriaethol. Mae'r Cynllun Twf yn dibynnu ar sicrhau'r cynllun terfynol, ac ar yr ymgysylltu a'r cydweithio gyda'r sectorau preifat a chyhoeddus.

## Yr Achos Economaidd

### Ffactorau Llwyddiant Hanfodol ac Asesiad o'r Opsiynau

xv. Mae rhaglenni a phrosiectau'r Cynllun Twf wedi'u ffurfio drwy ystyried rhestr hir o opsiynau ar gyfer cyflawni'r amcanion gwario, ynghyd â chyfres o Ffactorau Llwyddiant Hanfodol (CSFs) yn cynnwys cydraddoldeb, gwerth ychwanegol, gwedd strategol a buddsoddiad y sector preifat. Daeth gwerthusiad o'r opsiynau strategol i'r casgliad mai'r opsiwn a ffafrir oedd:

*"Canolbwyntio ar gyfleoedd twf y gellir eu hymestyn a'u gwasgaru ledled y rhanbarth i gyflawni twf economaidd cynaliadwy, cytbwys a chynhwysol".*

Datblygwyd rhestr hir o 24 o brosiectau ar draws naw rhaglen gan y Bwrdd, gan weithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a chynrychiolwyr o'r sector preifat. Gostyngwyd hyn i restr fer o 14 o brosiectau ar draws chwe rhaglen ar y cam Penawdau'r Telerau, ac wedi hynny fe'u cyfunwyd i bum rhaglen, fel y crynhoir isod.

Tabl 1 Rhestr Derfynol o Brosiectau'r Cynllun Twf

| Rhaglen | Amcan allweddol | Prosiectau |
|---|---|---|
| Ynni carbon isel | Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu Gogledd Cymru fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi.[ | • Gorsaf Bŵer Trawsfynydd<br>• Prosiect Morlais<br>• Ynni Lleol Blaengar<br>• Canolfan Ragoriaeth Carbon Isel<br>• Datgarboneiddio Trafnidiaeth Rhanbarthol |
| Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Manteisio ar y rhwydwaith cryf o gwmnïau angori sydd â phroffil rhyngwladol, ynghyd ag arbenigedd byd-eang, i roi hwb i arloesedd a thechnoleg newydd er mwyn datblygu clwstwr gweithgynhyrchu uwch pwerus. Bydd yn cyflawni adnoddau o safon fyd-eang mewn cyfleusterau sy'n arwain y sector, gan adeiladu ar arbenigedd yn y rhanbarth i wneud y gorau o effaith economaidd leol o ymchwil a thechnoleg. | • Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter<br>• Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol<br>• |
| Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth | Adeiladu ar y sector amaeth, bwyd a diod sydd wedi'i hen sefydlu yn y Gogledd, ynghyd â chefnogi buddsoddiad pellach mewn twristiaeth o safon uchel er mwyn ymestyn y tymor ymwelwyr. | • Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon<br>• Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi<br>• Rhwydwaith TALENT Twristiaeth<br>• |
| Rhaglen tir ac eiddo | Pecyn o Brosiectau i ddatgloi cyfleoedd twf ledled y rhanbarth a fydd yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r prinder tir ac eiddo addas i fusnesau a thwf. Yn ogystal, bydd yn cyflwyno safleoedd ar gyfer datblygiadau tai. | • Prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol<br>• Porth Caergybi<br>• |
| Rhaglen Ddigidol | Bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar wella isadeiledd digidol ac arloesedd yn y rhanbarth. Bydd yn darparu mynediad safonol i gysylltedd digidol effeithiol a | • Cysylltedd Digidol Gogledd Cymru<br>• Canolfan Prosesu Signal Digidol |

| | | |
|---|---|---|
| | fforddiadwy i fusnesau ac aelwydydd a bydd yn gwella arloesedd mewn signalu digidol. | • |

xvi. Mae pob un o'r achosion busnes lefel Rhaglen yn cynnwys ei asesiad opsiynau ei hun. Yn ogystal, bydd angen i brosiectau unigol gynhyrchu eu hachosion busnes eu hunain ar gyfer buddsoddiad yn y man, gyda disgwyliad cysylltiedig i gyflwyno asesiad opsiynau fel rhan o'u hachos gwerth am arian.

xvii. Disgrifir y gyfres lawn o brosiectau yn Atodiad C.

### Gwerthusiad Economaidd

xviii. Mae'r prosiectau a'r rhaglenni wedi'u gwerthuso ar gyfer yr achos portffolio strategol hwn ond dylid nodi y disgwylir i'r prosiectau eu hunain gynnal eu gwerthusiadau economaidd eu hunain wrth iddynt ddatblygu eu hachosion busnes eu hunain. Yn hytrach na rhagfynegi'r rhain, rydym yn hytrach yn sefydlu trefn resymol o feintiau ar gyfer buddion a gwerth am arian, wedi'u mynegi fel amrediadau.

xix. Disgwylir i'r Cynllun Twf gyflawni rhwng **3,400 a 4,200 o swyddi FTE ychwanegol net** ar gyfer y Gogledd, gyda NPSV o £930m-£1.1 biliwn. Yn seiliedig ar yr holl arian sector cyhoeddus ar gyfer y Cynllun Twf, bydd yn cyflawni **cymhareb budd-cost (BCR) o 2.8-3.5 (neu 5.0-6.1 yn seiliedig ar fuddsoddiad y Cynllun Twf yn unig)**.[3]

xx. Wrth ddehongli'r ffigyrau hyn, mae'n bwysig nodi bod amrediad o fuddion na ellir eu meintioli na rhoi gwerth ariannol iddynt mewn dull cadarn, ond erys ystyriaeth arwyddocaol o ran yr achos gwerth am arian ar gyfer y rhaglenni hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Denu mewnfuddsoddiad i sectorau gwerth uchel
- Datblygiad sectorau allweddol a chystadleuaeth
- Cynyddu capasiti ymchwil a datblygiad
- Cadw pobl ifanc
- Cynaladwyedd gwledig.

xxi. Mae nifer o risgiau i gynhyrchu graddfa'r buddion economaidd a ragwelir, ac mae'r asesiad gwerth am arian wedi bod yn destun profi sensitifrwydd ar y lefel rhaglen. Mae'r cymarebau Budd-Cost yn parhau'n gadarn yn wyneb y profion hyn.

xxii. Gweler isod grynodeb o'r canfyddiadau allweddol o werthusiad economaidd y Cynllun Twf.

3 Noder bod hyn yn cynnwys asesiad o duedd optimistiaeth mewn costau cyfalaf.

Tabl 2 Tabl Gwerthuso Cryno

| | | Cynllun Twf Gogledd Cymru | Ynni carbon isel | Arloesedd mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Tir ac eiddo | Digidol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | Gwerth Cymdeithasol Presennol Net (£m) (yn cynnwys Tueddiad Optimistiaeth) | **£930 – £1,140 (£1,122 – £1,371 yn seiliedig ar gostau'r Cynllun Twf)** | £59 – £72 (£206 – £252) | £16 – £19 (£40 – £49) | £127 – £155 (£140 – £171) | £641 – £783 (£643 – £786) | £90 – £110 (£93 – £114) |
| B | Cost y sector cyhoeddus (£m, heb ddisgownt, heb gynnwys tueddiad optimistiaeth) | **£424 (£240 o'r Cynllun Twf)** | £227 (£86) | £39 (£13) | £37 (£25) | £81 (£79) | £40 (£37) |
| C | Cymhareb Cost Budd Priodol | **2.8 – 3.5 (5.0 - 6.1 Cynllun Twf yn unig)** | 1.1 – 1.4 (3.0 – 3.6) | 1.3 – 1.6 (4.0 – 4.8) | 3.8 – 4.7 (5.7 – 7.0) | 7.8 – 9.6 (8.0 – 9.8) | 2.9 – 3.6 (3.2 – 3.9) |
| D ac E | Costau/buddion arwyddocaol nad oes modd rhoi gwerth ariannol arnynt a ffactorau anfesuradwy | • Llai o $CO_2$<br>• Mewnfuddsoddi<br>• Clystyru ac Allgynyrchiadau<br>• Buddion cymdeithasol/llesiant | • Llai o $CO_2$<br>• Mewnfuddsoddi<br>• Allgynyrchiadau<br>• Buddion cymdeithasol /llesiant | • Allgynyrchiadau<br>• Trosglwyddo Gwybodaeth<br>• IP/Trwyddedu<br>• Clystyru<br>• Cadw pobl ifanc | • Trosglwyddo Gwybodaeth<br>• Arallgyfeirio amaeth/twristiaeth<br>• Datblygiad clwstwr carbon isel mewn amaeth/twristiaeth/bwyd<br>• Cadw pobl ifanc | • Codi gwerth y tir<br>• Llai o $CO_2$<br>• Buddion trafnidiaeth<br>• Buddion cymdeithasol/llesiant | • Dewis/fforddiadwyedd<br>• Buddsoddiad Preifat / Mewnol<br>• Masnacheiddio technoleg<br>• Buddion cymdeithasol/llesiant<br>• Cynaladwyedd gwledig |
| F | Costau risg yn ôl math a thueddiad optimistiaeth gweddilliol | Drwy eu hachosion busnes eu hunain, bydd disgwyl i bob prosiect ystyried ac arddangos sut maent wedi lliniaru tuedd optimistiaeth posib yn eu costiadau a'u hamserlenni arfaethedig. Yn y cam hwn, er mwyn bod yn geidwadol, rydym wedi cymhwyso'r ffactor tuedd optimistiaeth terfyn uchaf ar gyfer adeiladau safonol o ganllawiau Trysorlys EM i gostau cyfalaf ar gyfer yr holl raglenni ar **24%**. | | | | | |
| G | Newid gwerthoedd (ar gyfer yr opsiwn a ffafrir yn unig) | 70% - 89% o ddirywiad yn y rhagdybiaethau a'r buddion craidd | 70% o ddirywiad yn ein tybiaethau modelu effaith craidd | 77% o ostyngiad mewn creu swyddi | 84% o ostyngiad mewn creu swyddi a'r gwerth economaidd sy'n gysylltiedig â sgiliau twristiaeth | 89% o ostyngiad mewn creu swyddi | 75% o ostyngiad mewn defnydd o fand eang sefydlog/symudol, buddion busnesau newydd a'r buddion a gynhyrchir drwy'r DSP. |
| H | Hicyn amser a rheswm | Cyfnod gwerthuso 15 mlynedd wedi'i ddefnyddio<br>Bydd gan yr holl asedau isadeiledd werth gweddilliol ar y pwynt hwn | | | | | |

## Yr Achos Masnachol

### Strategaeth Fasnachol

xxiii. Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi ymrwymo i wneud y mwyaf o effaith economaidd a gwerth am arian Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae'r Bwrdd hefyd yn cydnabod bod potensial i greu enillion masnachol ar fuddsoddiad a allai gael ei ailfuddsoddi yn y rhanbarth. Bydd disgwyl i bob achos busnes ystyried cyfleoedd am fuddsoddiadau masnachol.

### Strategaeth Gaffael

xxiv. Mae ein strategaeth gaffael yn ymateb i bolisi a gweithdrefnau Cymru. Bydd holl weithgarwch caffael y Cynllun Twf yn cael ei danategu gan gyfres o egwyddorion arweiniol, sy'n cael eu crynhoi isod.

xxv. Ariannwr y Prosiect fydd yn gyfrifol am y gweithgarwch caffael ar gyfer pob prosiect. O ran prosiectau rhanbarthol, y Swyddfa Rheoli Portffolio fydd yn gyfrifol amdanynt.

Tabl 3 Polisi ac egwyddorion caffael

| | |
|---|---|
| Gyrwyr polisi | • Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru<br>• Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015<br>• Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015<br>• Datganiad Polisi Caffael Cyhoeddus Cymru<br>• Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi<br>• Safonau Gweithredu Masnachol y Llywodraeth |
| Egwyddorion Caffael | • Arweinyddiaeth Rhanbarthol<br>• Sgiliau, swyddi a thwf<br>• Cyfraniad i addysg a chefnogi pobl ifanc<br>• Gwytnwch a llesiant cymunedol<br>• Cynaliadwyedd amgylcheddol ac adfer gwyrdd<br>• Arloesedd ac arferion newydd |

## Yr Achos Ariannol

### Gofynion Cyfalaf a Refeniw

xxvi. Rhagwelir y bydd gan y Cynllun Twf gyfanswm gwariant cyfalaf o hyd at £1.1 biliwn, gyda £240 miliwn yn dod o'r Cynllun Twf a'r gweddill yn cael ei ddarparu gan bartneriaid sector cyhoeddus a phreifat. Mae'r gofynion gwariant cyfalaf yn cael eu darparu yn yr achos ariannol, yn seiliedig ar yr achosion busnes prosiect diweddaraf sydd ar gael ac sy'n cael eu hagregu i ddarparu rhagolygon y rhaglen.

xxvii. Nid oes unrhyw gyllid refeniw yn cael ei ddarparu drwy'r Cynllun Twf ar gyfer cyflawni'r prosiectau neu gostau rhedeg gweithredol y prosiectau unwaith y byddant wedi'u cwblhau. Mae'r cyllid refeniw i gefnogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn cael ei ddarparu drwy gyfraniadau partner y Bwrdd Uchelgais a (yn cynnwys cyfraniadau atodol Awdurdodau Lleol) ac mae cyllid ESF ychwanegol hefyd wedi'i sicrhau ar gyfer y tair blynedd weithredol gyntaf (o fis Mai 2020). Hefyd gellir defnyddio swm sydd gyfwerth â 'haenen uchaf' y grantiau llywodraeth blynyddol ar 1.5% i ariannu hyn, yn amodol ar hyblygrwydd Llywodraeth Cymru i reoli cyllid. Ariannwr y Prosiect sy'n gyfrifol am ofynion refeniw gweithredol y prosiectau unwaith y bydd y gwariant cyfalaf wedi'i

gwblhau, ar gyfer Ariannwr pob prosiect. Am ragor o fanylion ynghylch costau gweithredol, gweler Achosion Busnes y Rhaglenni.

Tabl 4 Dadansoddiad Cyllid Lefel Prosiect

| Prosiect | | Yn Arwain y Prosiect | Cynllun Twf (£m) | Arall Cyhoeddus (£m) | Preifat (£m) | Cyfanswm (£m) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhaglen Ddigidol** | | | | | | |
| Prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol | | Prifysgol Bangor | 3.0 | 3.1 | 1.1 | **7.3** |
| Prosiect Cysylltedd Digidol | Ffibr llawn mewn safleoedd allweddol | Y BWRDD UCHELGAIS | 6.8 | - | 0.411 | **7.2** |
| | Coridor Cysylltiedig | Y BWRDD UCHELGAIS | 2.2 | - | - | **2.2** |
| | Cysylltedd Uwch ('Campws Cysylltiedig') | Y BWRDD UCHELGAIS | 21.0 | - | - | **21.0** |
| | Yr ychydig % olaf | Y BWRDD UCHELGAIS | 4.0 | - | - | **4.0** |
| **Rhaglen Ynni Carbon Isel** | | | | | | |
| Morlais | | Menter Môn | 9.0 | 27.0 | - | **36.0** |
| Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | | Prifysgol Bangor | 21.0 | 75.7 | 1.0 | **97.7** |
| Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | | Cwmni Egino | 20.0 | 20.0 | 360.0 | **400.0** |
| Datgarboneiddio Trafnidiaeth | | Y BWRDD UCHELGAIS | 11.4 | 11.5 | 5.7 | **28.6** |
| Ynni Lleol Blaengar | | Y BWRDD UCHELGAIS | 25.0 | 6.2 | 75.0 | **106.2** |
| **Rhaglen Tir ac Eiddo** | | | | | | |
| Porth Caergybi | | Stena Line | 35.0 | - | £45.0 | **80.0** |
| Prosiect Tir ac Eiddo | Warren Hall | BWRDD UCHELGAIS/LlC | 15.0 | - | £55.0 | **70.0** |
| | Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych | Bwrdd Uchelgais/Jones Bros Ltd/Cyngor Sir Ddinbych | 4.0 | - | £70.0 | **74.0** |
| | KSS, Bodelwyddan | Y BWRDD UCHELGAIS | 10.0 | - | £72.0 | **82.0** |
| | Parc Bryn Cegin | BWRDD UCHELGAIS/LlC | 6.0 | - | - | **6.0** |
| | Porth y Gorllewin, Wrecsam | Bwrdd Uchelgais/Cyngor Wrecsam | 9.1 | £1.9 | £32.4 | **43.4** |
| **Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel** | | | | | | |
| Canolfan BIOTECHnoleg Amgylcheddol | | Prifysgol Bangor | 3.0 | 6.6 | - | **9.6** |
| Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | | Prifysgol Glyndŵr | 10.0 | 19.9 | - | **29.8** |

| Prosiect | Yn Arwain y Prosiect | Cynllun Twf (£m) | Arall Cyhoeddus (£m) | Preifat (£m) | Cyfanswm (£m) |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth** | | | | | |
| Prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | 10.0 | 3.0 | - | **13.0** |
| Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi | Coleg Cambria | 10.0 | 2.7 | 2.7 | **15.4** |
| Rhwydwaith TALENT Twristiaeth | Grŵp Llandrillo Menai | 4.5 | 6.7 | 1.7 | **13.0** |
| | | | | | |
| **CYFANSWM Y CYNLLUN TWF** | | **240.0** | **184.3** | **722.1** | **1,146.4** |

xxviii. Ar hyn o bryd, mae'r prosiectau o fewn y Cynllun Twf ar wahanol lefelau o aeddfedrwydd, fel y dangosir yn y tabl isod.

Tabl 5 Aeddfedrwydd y Prosiect

| Prosiect | Cam Achos Busnes | Crynodeb |
|---|---|---|
| Prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol | **Achos Busnes Amlinellol** | Mae'r prosiect yn datblygu Achos Busnes Amlinellol ar hyn o bryd i'w gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais am gymeradwyaeth. |
| Prosiect Cysylltedd Digidol | **Achos Busnes Strategol** | Mae'r pedwar prosiect yn barod i fwrw ymlaen i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol. |
| Morlais | **Achos Busnes Amlinellol** | Mae'r prosiect yn bwrw ymlaen i'r cam Achos Busnes Amlinellol ar hyn o bryd. |
| Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | **Achos Busnes Amlinellol** | Mae'r prosiect yn bwrw ymlaen i'r cam Achos Busnes Amlinellol. |
| Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | **Achos Busnes Strategol** | Mae'r prosiect yng nghamau cynnar ei ddatblygu. |
| Datgarboneiddio Trafnidiaeth | **Achos Busnes Strategol** | Mae'r prosiect yn y cam cysyniadol ar hyn o bryd. |
| Ynni Lleol Blaengar | **Achos Busnes Strategol** | Mae'r prosiect yn y cam cysyniadol ar hyn o bryd. |
| Porth Caergybi | **Adolygu'r Prosiect** | Bydd sgôp y prosiect yn cael ei adolygu i asesu effaith economaidd a chymdeithasol Porthladd Caergybi ar y rhanbarth yng Nghymru, y DU a Gweriniaeth Iwerddon yng ngoleuni'r buddsoddiad arfaethedig i'r porthladd yn sgil y cynnydd mynegol mewn costau. |
| Prosiect Tir ac Eiddo | **Achos Busnes Strategol** | Mae'r pedwar safle yn y wedd gyntaf mewn camau gwahanol o gael eu datblygu gyda'r un mwyaf aeddfed yn barod i fwrw ymlaen i'r cam Achos Busnes Amlinellol. |
| Canolfan BIOTECHnoleg Amgylcheddol | **Achos Busnes Strategol** | Mae'r prosiect yn barod i fwrw ymlaen i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol. |

| | | |
|---|---|---|
| Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | **Achos Busnes Strategol** | Mae angen gwaith pellach i ddangos sut mae mentrau presennol yn y Gogledd yn cyd-fynd cyn bwrw ymlaen i'r Achos Busnes Amlinellol. |
| Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | **Achos Busnes Amlinellol** | Mae gan y prosiect Achos Busnes Amlinellol sydd wedi'i ddatblygu'n dda yn ei le, gyda'r angen am fân ddiwygiadau cyn cyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais am gymeradwyaeth. |
| Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi | **Achos Busnes Strategol** | Mae'r prosiect yn barod i fwrw ymlaen i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol. |
| Rhwydwaith Talent Twristiaeth | **Adolygu'r Prosiect** | Roedd Achos Busnes Amlinellol yn ei le ar gyfer y prosiect cyn Covid; fodd bynnag, bydd sgôp y prosiect yn cael ei adolygu i asesu effaith Covid-19. |


Ffynhonnell: Y BWRDD UCHELGAIS

## Yr Achos Rheoli

### Strwythur Cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru

xxix. Mae'r diagram isod yn amlinellu strwythur cyflawni ar gyfer y Cynllun Twf gan adeiladu ar y strwythurau presennol sydd wedi'u rhoi yn eu lle gan Gytundeb Llywodraethu'r Bwrdd Uchelgais. Gweler manylion y rolau hyn yn yr achos rheoli.

Ffigwr 1.2 Strwythur Cyflawni'r Cynllun Twf




Ffynhonnell: Y BWRDD UCHELGAIS

### Achosion Busnes Prosiectau

xxx. Bydd Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cael ei lofnodi yn seiliedig ar achos busnes y portffolio a phum achos busnes rhaglen. Unwaith y bydd y cynllun terfynol wedi'i gytuno, gellir dod ag achos busnes prosiect Model 5 Achos llawn gerbron y Bwrdd Uchelgais er ystyriaeth.

### Rheoli Risg

xxxi. Mae gan y Bwrdd Uchelgais Fframwaith Risg wedi'i fabwysiadu ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae'r ymagwedd at reoli risg wedi'i amlinellu yn Strategaeth Rheoli Risgiau a Materion y Cynllun Twf a'r Canllaw i Ddefnyddwyr. Mae'r egwyddorion allweddol a'r cysyniadau a amlinellir yn y strategaeth hon wedi'u tynnu o ddeunydd Rheoli Risg yr Achos Busnes Amlinellol.

### Llinell Amser a Cherrig Milltir

xxxii. Mae'r Bwrdd Uchelgais yn ceisio cymeradwyaeth i Gynllun Twf Gogledd Cymru ym mis Rhagfyr 2020 gyda llofnodi'r Cynllun Terfynol. Yn dilyn y Cynllun Terfynol, bydd achosion busnes y prosiectau'n cael eu dwyn ymlaen er ystyriaeth y Bwrdd Uchelgais o fis Ionawr 2021 ymlaen.

### Monitro, Gwerthuso ac Adborth

xxxiii. Bydd perfformiad y rhaglen a'r prosiect yn cael ei fonitro'n fisol drwy'r byrddau rhaglen a phrosiect perthnasol, gydag adroddiadau ffurfiol yn cael eu cyflwyno bob chwarter i'r Bwrdd Portffolio a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Mae Cynllun Monitro a Gwerthuso wedi'i ddatblygu ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru a chaiff ei gytuno gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fel rhan o'r Cynllun Terfynol.

### Sicrwydd

xxxiv. Gweithiodd y Swyddfa Rheoli Portffolio â Chanolfan Sicrwydd Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig sy'n nodi'r gweithgareddau sicrwydd a gynhelir ar lefel portffolio, rhaglen a phrosiect ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

xxxv. Fel rhan o'r Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig, bydd gweithgareddau sicrwydd yn digwydd ar draws pob lefel o'r Cynllun Twf - portffolio, rhaglen a phrosiect. Bydd Cynllun Twf Gogledd Cymru'n defnyddio'r Porth 0-5 sydd wedi'i ddiffinio'n barod a'r Adolygiadau Asesu Prosiect, fel sy'n briodol ac yn gymesur. Caiff y Cynllun Monitro a Gwerthuso ei gytuno gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru fel rhan o'r Cynllun Terfynol.

# 1. Cyflwyniad

1.1 Diben yr achos busnes portffolio strategol hwn yw arddangos y dewis optimaidd o raglenni a phrosiectau ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn ceisio cyflawni cyfanswm o hyd at £1.1bn o fuddsoddiad yn economi'r Gogledd (£240m o'r Cynllun Twf), i greu 3,400 - 4,200 o swyddi ychwanegol net a chynhyrchu £2.0 - £2.4 biliwn mewn GVA ychwanegol net.

1.2 Yn 2016, bu i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel y Bwrdd Uchelgais neu'r Bwrdd) fabwysiadu Weledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru. Yn seiliedig ar Strategaeth y Weledigaeth Twf, paratowyd Cynllun Twf a derbyniodd gytundeb holl bartneriaid y Bwrdd Uchelgais gan weithio gyda Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru a'r sector preifat ym mis Hydref 2018. Dilynwyd hyn yn 2019 gan gytundeb rhwng y Bwrdd a Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU i Benawdau'r Telerau ar gyfer Cytundeb Cynllun Terfynol i'w gwblhau yn 2020.

1.3 Mae'r achos busnes portffolio strategol hwn yn darparu trosolwg o Gynllun Twf Gogledd Cymru a'i raglenni cyfansoddol, er mwyn hysbysu cytundeb Cynllun Terfynol â Llywodraethau Cymru a'r DU. Fe'i hategir gan gyfres o achosion busnes lefel rhaglen, sy'n darparu manylion ar bum rhaglen unigol.

1.4 Bydd y portffolio ac achosion busnes y rhaglenni, unwaith y'u cymeradwyir fel rhan o'r Cynllun Terfynol, yn ddogfennau byw a ddefnyddir i reoli cyflawniad y Cynllun Twf ar sail barhaus ac fe'u diweddarir yn rheolaidd wrth i'r rhaglenni a'r prosiectau ddatblygu.

1.5 Mae'r ddogfen yn dilyn strwythur y Model Pum Achos ac egwyddorion Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM. Mae'r achos busnes wedi ei ddatblygu gan Swyddfa Rheoli y Portffolio gyda cefnogaeth gan Hatch Regeneris, ymgynghorwyr arweiniol annibynnol mewn economeg. Drwy gydol datblygiad yr achos busnes, rydym wedi ymgynghori â swyddogion Llywodraeth y DU a Chymru.

1.6 Mae gweddill y ddogfen wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- Yr Achos Strategol: y rhesymeg dros fuddsoddiadau'r Cynllun Twf, eu hamcanion a'u gwedd â pholisi ehangach
- Yr Achos Economaidd: y gwerth am arian a ddarperir gan y Cynllun Twf
- Yr Achos Masnachol: y dull cytundebol a chaffael i'w gymryd
- Yr Achos Ariannol: costau a phroffil cyllido ar gyfer y Cynllun Twf
- Yr Achos Rheoli: y dull o reoli'r Cynllun Twf.

# 2 Yr Achos Strategol

2.1. Diben y Cynllun Strategol yw arddangos aliniad â strategaethau a pholisïau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol, rhaglenni eraill cyfredol neu sydd wedi'u cynllunio, a llunio achos grymus dros newid ar gyfer y rhaglenni a'r prosiectau o fewn y portffolio.

2.2. Mae dwy ran iddo, fel a ganlyn:

- **Y Cyd-destun Strategol.** Mae'n egluro ac yn rhoi'r cefndir i'r Cynlluniau Twf, gan egluro Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a'i aelodau, ac adolygiad o'r strategaethau a'r polisïau perthnasol i arddangos y cydweddiad strategol.
- **Yr achos dros newid.** Mae'n arddangos y rhesymeg dros Gynllun Twf Gogledd Cymru a'i raglenni cyfansoddol. Mae hyn yn cynnwys manylion ynghylch materion cymdeithasol-economaidd perthnasol a methiannau'r farchnad, yr amcanion gwario dilynol ar gyfer y Cynllun Twf a'r prif fuddion, risgiau, cyfyngiadau a dibyniaethau.

## Y Cyd-destun Strategol

### Cynlluniau Dinasoedd a Thwf

2.3. Diben y Cynlluniau Dinasoedd a Thwf yw cefnogi dinasoedd a rhanbarthau i gyflawni strategaethau lleol ymatebol a hyblyg. Maent bellach yn gyffredin yn llywodraethau'r DU a'r rhai datganoledig, gyda dros 36 o gynlluniau yn eu lle i hyrwyddo datganoliad ledled y wlad. Mae'r cynlluniau hyn yn rhoi mwy o bŵer a hyblygrwydd i ranbarthau a dinasoedd o ran cyflogaeth a sgiliau, seilwaith, ymgysylltu busnes a chefnogaeth busnes, tai, trafnidiaeth a buddsoddiadau. Mae'r rhanbarthau a'r dinasoedd wedi defnyddio'r pwerau hyn i gyflawni nifer o amcanion buddsoddi, megis darparu cefnogaeth i'r di-waith, gan ddarparu hyfforddiant sy'n berthnasol i anghenion lleol a chefnogi economi carbon isel.

### Trosolwg Sefydliadol


#### Partneriaid Sector Cyhoeddus

2.4. Sefydlwyd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn 2012 ac mae'n cynnwys chwe ardal weinyddol Awdurdodau Lleol rhanbarth Gogledd Cymru, sef Cynghorau Gwynedd, Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint. Mae'r Bwrdd hefyd yn cynnwys Prifysgol Bangor, Prifysgol Glyndŵr, Coleg Cambria a Grŵp Llandrillo Menai.

- **Sefydliadau Partner y Bwrdd Uchelgais**
- **Chwe awdurdod lleol:** Chwe ardal weinyddol Awdurdodau Lleol rhanbarth Gogledd Cymru, sef Cynghorau Gwynedd, Môn, Conwy, Sir Ddinbych, Wrecsam a Sir y Fflint.
- **Prifysgol Bangor**: Prifysgol Addysg Uwch wedi'i lleoli yng ngogledd-orllewin Cymru.
- **Prifysgol Glyndŵr:** Prifysgol Addysg Uwch gyda champysau yn Wrecsam, Llaneurgain a Llanelwy yng ngogledd-ddwyrain Cymru.
- **Coleg Cambria:** Coleg addysg bellach gyda chwe safle yng ngogledd-ddwyrain Cymru.
- **Grŵp Llandrillo Menai**: Coleg addysg bellach a sefydlwyd yn 2012 o ganlyniad i uno Coleg Llandrillo, Coleg Menai a Choleg Meirion-Dwyfor.

2.5. Mae lleoliadau'r partneriaid wedi'u dangos yn Nhabl 0.0 isod.

Ffigwr 2.1 Map o Ogledd Cymru a Phartneriaid y Bwrdd Uchelgais




### Partneriaid Sector Preifat

2.6. Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru'n bartneriaeth rhwng y sectorau cyhoeddus a phreifat. Mae Cyngor Busnes Gogledd Cymru a Merswy Dyfrdwy wedi bod yn cynrychioli'r sector preifat yn gryf iawn ac, fel un o sylfaenwyr y Bwrdd Uchelgais, maen nhw wedi gweithio'n agos iawn gyda phartneriaid a rhanddeiliaid rhanbarthol i ffurfio a dylanwadu ar gynnig y Cynllun Twf.

2.7. Fel cynrychiolydd sefydliadau eraill gan gynnwys y CBI a'r FSB, mae eu hymrwymiad gweithredol wrth ffurfio'r cynllun twf wedi bod yn amhrisiadwy. Ers 3 Awst 2020, yn sgil heriau a achoswyd gan Covid-19, mae'r Cyngor Busnes wedi tynnu eu haelodaeth yn ôl. Mae'r Cyngor Busnes yn parhau'n rhanddeiliad allweddol a byddant yn bartner hanfodol, er yn fwy o bell, wrth symud ymlaen.

2.8. Mae cynrychiolaeth gref i'r sector preifat o hyd yn Nghynllun Twf Gogledd Cymru drwy'r Grŵp Cyflawni Busnes sy'n gweithredu fel corff ymgynghorol annibynnol i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. **Grŵp Cyflawni Busnes** sy'n gweithredu fel corff ymgynghorol annibynnol i Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

2.9. Bydd y prosiectau sydd wedi'u cynnwys yng Nghynllun Twf Gogledd Cymru'n cael eu cyflawni gan Bartner Arweiniol. Darperir manylion yn ddiweddarach yn yr Achos Strategol dan yr adran Prosiectau.

## Strategaeth ac Amcanion Busnes

### Cefndir i Gynllun Twf Gogledd Cymru

2.10. Sefydlwyd y Bwrdd gan y partneriaid yn 2012 er mwyn datblygu ymagwedd ranbarthol i dwf economaidd ac er mwyn rhoi sylw i'r heriau a'r rhwystrau sy'n wynebu economi'r Gogledd. Yn 2016, fe wnaeth y Bwrdd fabwysiadu *Gweledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru* (y Weledigaeth Twf).

2.11. Y weledigaeth sydd wedi'i mabwysiadu yw datblygu "*rhanbarth hyderus, cydlynol sydd â thwf economaidd cynaliadwy, sy'n elwa i'r eithaf o lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a'n cysylltiad ag economïau Pwerdy'r Gogledd ac Iwerddon..*"

2.12. Seiliwyd y Weledigaeth Twf ar dair egwyddor allweddol:

- **Gogledd Cymru Blaengar** - gan ganolbwyntio ar arloesedd mewn sectorau economaidd gwerth uchel i symud perfformiad economaidd ymlaen.
- **Gogledd Cymru Gwydn** - gan ganolbwyntio ar gadw pobl ifanc, codi lefelau cyflogaeth a gwella sgiliau er mwyn cyflawni twf cynhwysol.
- **Gogledd Cymru Cysylltiedig** - gan ganolbwyntio ar wella isadeiledd trafnidiaeth a digidol er mwyn gwella cysylltedd strategol i'r rhanbarth ac o'i fewn.

2.13. Yn ystod 2017-2019, fe wnaeth y Bwrdd, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a chynrychiolwyr y sector preifat, ddatblygu Cynllun Twf Gogledd Cymru yn seiliedig ar gyfres o brosiectau trawsffurfiol, gan sicrhau Penawdau'r Telerau gyda'r ddwy lywodraeth ym mis Tachwedd 2019.

2.14. Roedd y Penawdau'r Telerau yn ymrwymo'r holl bartïon i gwblhau Cytundeb Terfynol o fewn 12-15 mis. Mae'r achos busnes portffolio hwn yn rhan o'r broses y cytunwyd arni i gyflawni'r Cytundeb Terfynol.

### Cyd-fynd â Strategaethau Cenedlaethol

2.15. Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cyd-fynd yn agos â blaenoriaethau Llywodraethau'r DU a Chymru yng nghyswllt datblygiad economaidd, ac mae wedi'i ddylunio i uno ag agendau cyfagos eraill, megis Pwerdy'r Gogledd. Yn benodol, rhoddwyd ystyriaeth allweddol i Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU a Chynllun Gweithredu Economaidd Llywodraeth Cymru wrth ddatblygu ein hymagwedd yn y rhanbarth a'r cynigion ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae'r Cynllun Gweithredu Economaidd yn tynnu sylw at rôl allweddol y bartneriaeth ranbarthol wrth gyflawni nodau a rennir. Mae ymrwymiad clir gan Lywodraeth Cymru i fodel â ffocws rhanbarthol iddo o ddatblygu'r economi, gyda'r nod o ddatblygu cryfderau nodedig pob rhanbarth "er mwyn tyfu".

2.16. Mae'n bwysig nodi na all y Cynllun Twf fynd i'r afael â holl faterion economi'r Gogledd, ond bydd yn chwarae rhan allweddol yng nghyflawniad y weledigaeth ehangach. Mae'r Cynllun Twf yn cynrychioli un llinyn o weledigaeth y Bwrdd Uchelgais ar gyfer y Gogledd a bydd y Bwrdd yn parhau i weithio â Llywodraethau'r DU a Chymru i ystyried cyfleoedd cyllido eraill ar gyfer y rhanbarth.

2.17. Wrth ddatblygu'r Cynllun Twf, mae sylw manwl wedi'i roi i'n hymrwymiadau dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae egwyddorion y Ddeddf wedi'u gwreiddio yn ein dulliau a'n ffordd o feddwl yn strategol, ac maent wedi cynorthwyo i greu'r Weledigaeth, y Nodau a'r Rhaglenni Strategol, ac wedi dylanwadu arnynt. Bydd y nodau llesiant, yr amcanion a'r ffyrdd o weithio yn

llinyn allweddol drwy gydol ein gwaith. Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi ymrwymo i ddilyn y pum ffordd o weithio a'r egwyddorion cynaladwyedd sydd wedi'u hamlinellu yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2.18. Mae dyheadau Cynllun Twf Gogledd Cymru a'r Cynllun Twf yn cyd-fynd â'r ddeddf, gyda ffocws clir ar gynllunio hirdymor i wella llesiant economaidd, amgylcheddol a diwylliannol y Gogledd ac yn cefnogi cyfrifoldebau byd-eang Cymru.

2.19. Bydd y Cynllun Twf yn cyflawni:

- Twf mewn ffyniant rhanbarthol.
- Creu swyddi o ansawdd gwell ar gyfer y farchnad lafur leol.
- Gweithlu mwy medrus o fewn y rhanbarth.
- Gwelliannau mewn safonau byw ledled y rhanbarth.

2.20. Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi ymrwymo i gynnal asesiad effaith Cenedlaethau'r Dyfodol ar gyfer achos busnes pob prosiect, cyn i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud. Mae Atodiad A yn rhoi trosolwg o'r Cynllun Twf yn erbyn y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a themâu llorweddol Llywodraeth Cymru.

2.21. Yn ogystal, mae'r Cynllun Twf yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Cymru ar ddiwygio a moderneiddio llywodraeth leol drwy gydweithio rhanbarthol strategol a modelau gwasanaeth integredig. Bydd gan y Gogledd "gynnig rhanbarthol" cryf sy'n adeiladu ar ein cryfderau a'n hasedau unigryw, a bydd ein hymagwedd yn cyfrannu'n sylweddol i gyflawni polisïau cenedlaethol ar lefel ranbarthol.

2.22. Mae'r prif feysydd lle ceir cydweddiad â pholisi wedi'u nodi yn Nhabl 2.1 isod. Nodir hyn mewn mwy o fanylder ar lefel y rhaglen, o fewn pob un o achosion busnes y rhaglen.

Tabl 2.1 Crynodeb o Gynllun Twf Gogledd Cymru yn Cyd-fynd â Pholisi Cenedlaethol

| Strategaeth | • Egwyddorion Craidd | • Sut mae'r Cynllun Twf yn cyd-fynd |
|---|---|---|
| • **Polisïau'r DU** | | |
| Strategaeth Ddiwydiannol Llywodraeth y DU | • Syniadau: Economi mwyaf arloesol y byd<br>• Pobl: swyddi da a mwy o rym gwneud enillion i bawb<br>• Seilwaith: uwchraddiad mawr i seilwaith y DU<br>• Amgylchedd busnes: y lle gorau i ddechrau busnes<br>• Llefydd: cymunedau ffyniannus ledled y DU | • Syniadau: cyflawni seilwaith a thechnoleg digidol sy'n gadarn at y dyfodol, technoleg ac ynni carbon isel, arloesedd mewn bwyd-amaeth, twristiaeth, peirianneg a bio-beirianneg a gofod i fusnesau newydd a rhai sy'n ail-leoli i arloesi a thyfu<br>• Pobl: seilwaith digidol y ganrif nesaf sydd wedi'i dargedu yn cyflawni cydbwysedd twf a chyfle i bawb<br>• Seilwaith: cyflawni uwchraddiad mawr i seilwaith digidol, busnes ac ymchwil a datblygu'r Gogledd<br>• Amgylchedd Busnes: darparu cefnogaeth i fusnesau arloesi mewn sectorau â blaenoriaeth, cysylltedd digidol a gofod i dyfu<br>• Llefydd: hybu'r sector twristiaeth hanfodol drwy gynyddu sgiliau ac arloesedd, cyflawni twf ac aer glanach drwy fuddsoddi mewn ynni glân a thechnoleg carbon isel. |
| Strategaeth Twf Glân | • Gwella effeithiolrwydd busnes a'r diwydiant: cefnogi | • Cefnogi effeithiolrwydd ynni busnesau drwy fand llydan sefydlog a symudol ar gyfer y |

| Strategaeth | • Egwyddorion Craidd | • Sut mae'r Cynllun Twf yn cyd-fynd |
|---|---|---|
| (Clean Growth Strategy) Llywodraeth y DU | busnesau i wella'u cynhyrchedd ynni 20% erbyn 2030<br>• Cyflymu'r symudiad i drafnidiaeth carbon isel<br>• Cyflawni pŵer glân, clyfar a hyblyg<br>• Gwneud y mwyaf o fuddion a gwerth ein hadnoddau naturiol | ganrif nesaf, arloesedd mewn peirianneg a bio-beirianneg<br>• Cyflawni ffyrdd clyfar/cysylltiedig i leihau allyriadau cerbydau a datblygu tanwydd hydrogen ar gyfer rhwydweithiau trafnidiaeth lleol<br>• Cyflawni ynni clyfar, glân a hyblyg drwy fuddsoddi mewn cynhyrchu pŵer trydan dŵr a gridiau clyfar lleol<br>• Gwneud y mwyaf o fuddion adnoddau naturiol, drwy gefnogi arloesedd ac effeithiolrwydd a chynaladwyedd mewn amaeth a chynhyrchu bwyd |
| Pwerdy'r Gogledd | • Cysylltedd: gwella cysylltiadau o fewn trefi a dinasoedd a rhyngddynt<br>• Sgiliau: Gweithlu hynod fedrus ac addysgedig<br>• Menter ac arloesedd: sicrhau bod y Gogledd yn lleoliad gwych i gwblhau ymchwil arloesol, datblygu syniadau a dechrau a thyfu busnes | • Gweledigaeth y Bwrdd Uchelgais: datblygu "[...]ein cysylltiad ag economïau Pwerdy'r Gogledd."<br>• Cyflawni sgiliau ac arloesedd newydd mewn twristiaeth a thrwy gefnogi cydweithio diwydiannau-HEI ar garbon isel, digidol, bwyd-amaeth, peirianneg a gweithgynhyrchu<br>• Cyflawni seilwaith a gofod digidol ar gyfer y genhedlaeth nesaf er mwyn i fusnesau arloesi a thyfu |
| • **Polisïau Llywodraeth Cymru** | | |
| Ffyniant i Bawb: Cynllun Gweithredu Economaidd | • Datgarboneiddio: galluogi i fwy o fusnesau fod yn garbon ysgafn neu'n ddi-garbon.<br>• Arloesedd: cefnogi busnesau i arloesi<br>• Cyflogaeth a sgiliau ansawdd uchel: gwella ein sylfaen sgiliau<br>• Ymchwil a datblygu, awtomeiddio a digideiddio: helpu ein busnesau i ddatblygu cynnyrch newydd, awtomeiddio a digideiddio | • Cyflawni:<br>• Ynni Carbon Isel Newydd<br>• Seilwaith digidol sy'n cynyddu cynhyrchedd<br>• Cefnogi ymchwil a datblygu: datblygu a mabwysiadu technoleg a phrosesau arloesol ar gyfer bwyd-amaeth, peirianneg a gweithgynhyrchu<br>• Cefnogi sgiliau'r sector twristiaeth a datblygiad sgiliau busnes ehangach mewn bwyd-amaeth, peirianneg a gweithgynhyrchu |
| Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 | • Themâu o'r Nodau Llesiant:<br>• Ffyniant: arloesedd, cynhyrchedd, carbon isel, sgiliau a chyfleoedd economaidd<br>• Gwytnwch: gwytnwch cymdeithasol, economaidd ac ecolegol<br>• Iechyd: llesiant corfforol a meddyliol<br>• Cydraddoldeb: galluogi i bobl gyflawni eu potensial, waeth beth fo'u cefndir / amgylchiadau | • Ffyniant: cyflawni ar draws pob un o'r ardaloedd hyn drwy fuddsoddi mewn digidol, carbon isel a datblygu technolegau / dulliau sy'n cynyddu cynhyrchedd<br>• Gwytnwch: cyflawni twf economaidd cytbwys a glân drwy wella cysylltedd, ynni carbon isel ac effeithiolrwydd busnes<br>• Iechyd: cefnogi twf yr economi carbon isel yn y Gogledd a mynediad at rwydweithiau carbon isel / trafnidiaeth effeithlon<br>• Cydraddoldeb: cyflawni cyfleoedd swyddi eang ar gyfer trigolion y Gogledd<br>• Cymunedau cydlynus: sicrhau datblygiad economaidd cynaliadwy a gwell cysylltedd |

| Strategaeth | • Egwyddorion Craidd | • Sut mae'r Cynllun Twf yn cyd-fynd |
|---|---|---|
| | • Cymunedau cydlynus: cymunedau deniadol, hyfyw, diogel gyda chysylltiadau da.<br>• Diwylliant bywiog: diwylliant, treftadaeth, y celfyddydau, chwaraeon, hamdden<br>• Cyfrifol ar lefel fyd-eang: llesiant economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol | • Diwylliant bywiog: hyrwyddo drwy ddiwylliant a thwristiaeth drwy fuddsoddiad clir mewn talent twristiaeth<br>• Cyfrifol ar lefel fyd-eang: cyflawni twf cytbwys a glân, gwella ffyniant a llesiant ar gyfer trigolion y Gogledd |
| Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 | • Lleihau allyriadau 95% erbyn 2050<br>• Rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy | • Bydd cyflawni gwaith cynhyrchu ynni carbon isel a phrosiectau datgarboneiddio yn gwneud cyfraniad uniongyrchol at dargedau lleihau allyriadau at ddyfodol gydag ynni carbon isel cynaliadwy yn y Gogledd ac ymhellach i ffwrdd. |

Ffynhonnell: Hatch

### Cyd-fynd â Strategaethau Rhanbarthol

2.23. Datblygwyd Cynllun Twf Gogledd Cymru i adeiladu ar strategaethau lleol a rhanbarthol, yn enwedig y Weledigaeth Twf y cytunwyd arni ar gyfer y Gogledd. Mae'r prif feysydd lle ceir cydweddiad wedi'u nodi yn Nhabl 2.2 isod.

Tabl 2.2 Crynodeb o Gynllun Twf Gogledd Cymru yn Cyd-fynd â Pholisi Rhanbarthol

| Strategaeth | • Egwyddorion Craidd | • Sut mae'r Cynllun Twf yn cyd-fynd |
|---|---|---|
| • **Polisïau Rhanbarthol** | | |
| Y BWRDD UCHELGAIS: Gweledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru | • Gogledd Cymru Blaengar<br>• Gogledd Cymru Gwydn<br>• Gogledd Cymru Cysylltiedig | • Datblygwyd y Cynllun Twf i gyflawni yn erbyn y Weledigaeth Twf gyda'r pum rhaglen i gyd yn cyflawni yn erbyn y weledigaeth.<br>• |
| Y BWRDD UCHELGAIS: Strategaeth Cysylltedd Digidol | • Mae'r Bwrdd wedi datblygu strategaeth i'r Gogledd, sy'n ystyried y diwydiannau a'r lleoliadau sydd o'r pwys mwyaf i economi'r rhanbarth. | • Dyluniwyd y Rhaglen Ddigidol i gyflawni yn erbyn y strategaeth.<br>• |
| Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru: Cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Gogledd Cymru 2019-22 | • Adeiladu gweithlu'r dyfodol a denu doniau<br>• Datblygu Sgiliau er mwyn creu Gogledd Cymru cynhwysol<br>• Hyrwyddo canfyddiad o yrfaoedd, llwybrau gyrfaoedd a chyfleoedd prentisiaethau. | • Er bod y rhaglen sgiliau yn eistedd y tu allan i'r Cynllun Twf, mae sgiliau a chyflogaeth yn thema allweddol ar draws holl raglenni'r Cynllun Twf.<br>• |
| • **Polisïau lleol** | | |
| Cynlluniau datblygu economaidd a fframweithiau cynllunio amrywiol Awdurdodau Lleol | • Y cynlluniau datblygu economaidd sydd yn eu lle ymhob Awdurdod Lleol.<br>• Y Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl) sydd yn eu lle ymhob Awdurdod Lleol. | • Mae'r Cynllun Twf yn cyflawni prosiectau trawsnewid allweddol ledled y rhanbarth i hybu twf, gan ategu cynlluniau datblygu economaidd presennol awdurdodau lleol.<br>• Bydd prosiectau'r Cynllun Twf yn cydymffurfio â'r CDLl perthnasol ymhob awdurdod lleol. |

Ffynhonnell: Hatch

## Cyd-fynd â Mentrau Presennol

2.24. Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod y Cynllun Twf yn adeiladu ar dirwedd gyfredol o fentrau sector cyhoeddus yn y Gogledd a gerllaw, a bydd angen i raglenni'r Cynllun Twf ategu'r rhain, ac mewn rhai achosion, cydweithio â hwy i sicrhau yr ychwanegir gwerth ac elfen ychwanegol. Dyma enghreifftiau o'r mentrau hyn:

- Y Sefydliad Dyfodol Niwclear a sefydlwyd yn ddiweddar ym Mhrifysgol Bangor drwy ERDF Sêr Cymru, ynghyd â'r Cyfleuster Hydrolig Thermal (THF) yn M-SParc, sy'n darparu capasiti academaidd o ansawdd uchel mewn peirianneg niwclear.
- Rhaglen Ynys Ynni Ynys Môn - a sefydlwyd i sicrhau swyddi sgiliau uchel o fuddsoddiadau ynni mawr a sefydlu Ynys Môn fel canolfan ragoriaeth wrth gynhyrchu ynni carbon isel.
- **AMRC Cymru** - Mae Canolfan Ymchwil a Gweithgynhyrchu Uwch (AMRC) Cymru, Prifysgol Sheffield, yn gyfleuster ymchwil a datblygu £20 miliwn gyda'r offer diweddaraf yn y Gogledd. Mae AMRC Cymru wedi'i leoli ger ffatri gweithgynhyrchu adenydd Airbus

ym Mrychdyn. Mae AMRC Cymru yn darparu cyfleoedd ymchwil a datblygu newydd ac yn caniatáu i'r diwydiant gael mynediad at dechnoleg uwch sy'n cynorthwyo i yrru datblygiadau mewn cynhyrchedd, perfformiad ac ansawdd.

- **Cyswllt Ffermio** - rhaglen cefnogi busnes Llywodraeth Cymru sy'n canolbwyntio ar gefnogi busnesau yn y sectorau amaeth a choedwigaeth gyda chyngor, cynllunio busnes, arloesedd ac arallgyfeirio, sgiliau a hyfforddiant, mentora a ffurfiau eraill o gefnogi busnes.
- **Trawsnewid Trefi** - rhaglen £90 miliwn a lansiwyd yn 2020 gan Lywodraeth Cymru, sy'n canolbwyntio ar fesurau i gynyddu nifer yr ymwelwyr drwy sicrhau bod y sector cyhoeddus yn lleoli gwasanaethau mewn lleoliadau canol tref, taclo adeiladau a thir gwag a helpu i ddod â hwy yn ôl i ddefnydd, a chanolfannau tref gwyrdd.
- **Prosiect Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol Gogledd Cymru** - drwy fid DCMS llwyddiannus a chan dybio y bydd yr ymarferiad caffael yn llwyddiannus, bydd hyn yn buddsoddi hyd at £7m o Don 3 o raglen Rhwydwaith Ffibr Llawn Lleol (LFFN) Llywodraeth y DU, fydd yn gweld gwasanaethau ffibr addas ar gyfer Gigabit a "band eang hynod gyflym" yn cael eu defnyddio i gysylltu hyd at 400 o safleoedd sector cyhoeddus pellach ledled y Gogledd.
- **Superfast Cymru** - prosiect band eang cenedlaethol, sydd wedi bod yn ymestyn cysylltedd cyflym iawn ledled Cymru am nifer o flynyddoedd, gyda BT. Mae hyn wedi cael ei ategu â chyllid ychwanegol drwy reoli newid ac mae yn y broses o gyrraedd eiddo pellach, sydd bellach yn canolbwyntio ar ei allu gigabit.
- **Rhaglen F20 y DU** - rhaglen flaengar sydd wedi'i chyhoeddi gan San Steffan, sy'n glynu ag ymrwymiad £5bn i gyflawni cysylltedd gigabit ledled y DU. Bwriedir i hyn fod yn ymarferiad caffael dan arweiniad cenedlaethol (yn hytrach nag un lleol), gydag elfen cyllid llenwi bwlch sydd wedi'i ategu gan gynllun talebau sy'n cael ei arwain gan y galw.

# Yr Achos dros Newid

## Amcanion Gwariant Portffolio Strategol

2.25. Mae'r amcanion gwariant portffolio strategol yn disgrifio'r amcan sydd wedi'i dargedu ar gyfer y portffolio dros y 15 mlynedd nesaf.

2.26. Mae'r cytundeb Penawdau'r Telerau yn nodi y byddai buddsoddiad y Llywodraeth yn cael ei ddefnyddio i greu hyd at 4,000 o swyddi newydd, cefnogi cynnydd o 5% mewn GVA a sicrhau £500 miliwn mewn buddsoddiad gan y sector preifat dros y cyfnod o 15 mlynedd.

2.27. Wrth ddatblygu portffolio a phum rhaglen achos busnes i sicrhau cytundeb y Cynllun Terfynol gyda Llywodraethau Cymru a'r DU, mae'r rhain wedi cael eu mireinio i'r amcanion gwario a ganlyn ar gyfer Portffolio Cynllun Twf Gogledd Cymru: Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi cytuno ar yr amcanion gwariant portffolio strategol a ganlyn, mae'r rhai ar gyfer y rhaglenni wedi'u nodi yn achosion busnes y rhaglenni. Mae'r holl raglenni a phrosiectau o fewn y Cynllun Twf yn cyfrannu at yr amcanion cyffredinol hyn. Mae'r amcanion ar gyfer y rhaglenni cyfansoddol wedi'u crynhoi yn Atodiad D.

Tabl 2.3 Amcanion Gwariant Portffolio Strategol

| | |
|---|---|
| Amcan Gwariant Portffolio Strategol 1 Swyddi | Creu rhwng 3,400 a 4,200 o swyddi newydd net yn y Gogledd drwy'r Cynllun Twf erbyn 2036. |

| | |
|---|---|
| Amcan Gwariant Portffolio Strategol 2 GVA | Cefnogi cynnydd ychwanegol net o rhwng £2.0 biliwn a £2.4 biliwn mewn GVA i Economi'r Gogledd drwy'r Cynllun Twf erbyn 2036. |
| Amcan Gwariant Portffolio Strategol 3 Buddsoddiad | Cyflawni cyfanswm o hyd at £1.1 biliwn o fuddsoddiad yn Economi'r Gogledd drwy'r Cynllun Twf erbyn 2036. |

## Trefniadau presennol

2.28. Mae'r trefniadau presennol yn disgrifio'r hyn sydd yn ei le ar hyn o bryd o fewn economi a chymdeithas y Gogledd.

2.29. Wrth lunio cynnig y Cynllun Twf, bu i bartneriaid ymgymryd â dadansoddiad cynhwysfawr o economi'r Gogledd, gan adnabod ei yrwyr allweddol hirdymor, ei heriau a'i gyfleoedd.[4] Mae'r sail dystiolaeth hon wedi'i golygu wrth gynhyrchu achosion busnes y rhaglenni ac wedi'u diweddaru i ystyried yr heriau sy'n cael eu cyflwyno gan bandemig COVID-19.

### Cymdeithas Gogledd Cymru[5]

2.30. Yn 2018, amcangyfrifwyd bod cyfanswm poblogaeth o 698,400 o bobl yng Ngogledd Cymru. Mae'r boblogaeth wedi'i dosbarthu'n bur deg ledled y rhanbarth, gyda thros 100,000 o drigolion mewn pedwar o'r chwe awdurdod lleol. Sir y Fflint oedd y sir fwyaf poblog, gydag oddeutu 155,000 o drigolion, ac Ynys Môn, gyda 70,000 o drigolion, oedd y sir leiaf poblog.

2.31. Mae poblogaeth sy'n heneiddio yng Ngogledd Cymru. Rhwng 1998 a 2018, mae cyfran y boblogaeth sy'n 65 mlwydd oed a throsodd wedi cynyddu o 18.5 y cant i 23 y cant, ac mae cyfran y boblogaeth sy'n 15 mlwydd oed ac iau wedi cwympo o 19.8 y cant i 17.8 y cant.

2.32. Yn y Gogledd, rhagamcanir y bydd y boblogaeth yn cynyddu 2.1 y cant yn y cyfnod o 2018-2028, a 3.1 y cant yn y cyfnod o 2018-2038. Rhagamcanir mai poblogaeth Wrecsam fydd wedi tyfu fwyaf erbyn 2028. Yn y cyfamser, rhagamcanir y bydd poblogaeth Môn yn gostwng 0.5% erbyn 2028 a 2.4% erbyn 2038 o gymharu â rhagamcaniad poblogaeth 2018.[6].

2.33. Mae data o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn dangos mai, yn y flwyddyn yn diweddu Medi 2019, Gwynedd oedd yr awdurdod â'r nifer uchaf o siaradwyr Cymraeg yn y Gogledd ac yng Nghymru gyfan, gyda 75.6% o drigolion tair oed a hŷn yn dweud eu bod yn medru siarad Cymraeg. Sir y Fflint oedd â'r gyfradd isaf o siaradwyr Cymraeg yn y Gogledd, ar tua 22.5%. Ar lefel ranbarthol, y Gogledd oedd â'r gyfran uchaf o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru, ar tua 41.9% yn y flwyddyn oedd yn diweddu ym mis Mehefin 2018.

4 Gweler Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (2016) *Gweledigaeth ar gyfer Twf yr Economi yng Ngogledd Cymru*


5 Welsh Government – Summary Statistics for Welsh economic regions: North Wales, May2020

6 Welsh Government – Summary Statistics for Welsh economic regions: North Wales, Mai 2019

## Economi Gogledd Cymru

2.34. Mae'r Gogledd yn cyfrannu £14.2 biliwn at economi'r DU bob blwyddyn,[7] gan gynrychioli 22% o economi Cymru.[8] Mae'r perfformiad economaidd wedi bod yn wydn yn dilyn yr argyfwng ariannol ac yn ystod y cyfnod o lymder, gyda gwir[9] GVA yn cynyddu 20% ers 2009 o gymharu â 14.9% yn Rhanbarth Dinas Bae Abertawe a 12.6% yn ardal Cynllun Twf Canolbarth Cymru.

Ffigwr 2.2 Gwir Dwf GVA ers 2009 mewn detholiad o leoliadau yn y DU




Ffynhonnell: GVA rhanbarthol, ONS, 2018


2.35. Er hynny, mae **bwlch cyson a chynyddol mewn cynhyrchedd** yn y DU. Mae GVA y pen oddeutu 28% yn is na chyfartaledd y DU, yn £20,400 y flwyddyn (unwaith y diystyrir Llundain a'r De Ddwyrain, mae'r bwlch hwn yn gostwng, ond erys yn 16%).

7 Mesurwyd gan Werth Ychwanegol Crynswth (GVA). Ffynhonnell: ONS, data 2018.

8 https://statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Regional-Accounts/Gross-Value-Added-GDP/gva-by-measure-welsheconomicregion-year

9 h.y. wedi'i addasu o ran chwyddiant.


Ffigwr 2.3 GVA y pen (£) 1998-2018




Ffynhonnell: GVA rhanbarthol, ONS, 2018

2.36. Yn y Gogledd, mae **amrywiaethau eang mewn GVA y pen**, gyda chynhyrchedd penodol wan yn Ynys Môn (53% o gyfartaledd y DU), ond gyda pherfformiad cryfach yn Sir y Fflint a Wrecsam (y ddau yn 81% o gyfartaledd y DU). Mae hyn hefyd yn cael ei adlewyrchu mewn enillion cyfartalog, sydd ymhell o gyfartaledd y DU. Yn wir, mae enillion cyfartalog rhai awdurdodau lleol yn y Gorllewin ymhlith yr isaf yng Nghymru a'r DU.

Ffigwr 2.4 GVA y Pen (£), 2018





Ffynhonnell: GVA rhanbarthol, ONS, 2017

2.37. O ganlyniad i'r cynhyrchedd isel ym mhedair sir y gogledd-orllewin, mae'r ardaloedd hyn wedi bod yn gymwys yn y gorffennol ar gyfer y lefel uchaf o ymyrraeth arian strwythurol yr Undeb Ewropeaidd.

### Sectorau allweddol yn y Gogledd

2.38. Mae 317,000 o bobl yn gyflogedig ledled y Gogledd. Mae economi'r rhanbarth yn amrywiol a'r sectorau allweddol yw gweithgynhyrchu, ynni a thwristiaeth yn ogystal â swyddi yn y sector cyhoeddus. Mae'r sector cyhoeddus yn cyfrif am bron i chwarter y GVA. Mae gweithgynhyrchu yn cyfrif am 1/5 o'r economi, sy'n llawer pwysicach yn y Gogledd nag yng Nghymru'n gyffredinol (lle mae'n cyfrif am 17% o GVA). Mae cyfanwerthu a manwerthu, trafnidiaeth, gwestai a'r sector bwyd yn cyfrif am 17% o economi'r Gogledd. Mae'r siart isod yn dangos trawstoriad o gyfraniad y diwydiant at GVA 2018 yn y Gogledd.

Ffigwr 2.5 Cyfraniad GVA Sectorau'r Gogledd




Ffynhonnell: statswales.gov.wales/Catalogue/Business-Economy-and-Labour-Market/Regional-Accounts/Gross-Value-Added-GDP/gvaperhead-by-area-year

2.39. Mae cyfran o'r bwlch cynhyrchedd yn cael ei briodweddu gan strwythur ein sectorau, gyda rhai ardaloedd yn benodol ddibynnol ar sectorau sydd â chyflogau cymharol isel, gan gynnwys twristiaeth a manwerthu. Ar yr un pryd, mae rhai cryfderau, gyda 64,000 o bobl yn gyflogedig mewn *sectorau gwerth uchel*, a ddiffinnir fel gweithgynhyrchu, gwybodaeth a chyfathrebu; a gweithgareddau proffesiynol, gwyddonol a thechnegol.

2.40. Yn benodol, mae partneriaid yn cydnabod y potensial arwyddocaol a gynigir gan:

- **Gweithgynhyrchu gwerth uchel**: Mae 36,000 o bobl yn gweithio mewn gweithgynhyrchu uwch yn y Gogledd, gyda chryfderau penodol mewn awyrofod, cerbydau modur, cemegolion a fferyllol, peirianneg, opro-electronig, bwyd a diod a metel a dur.[10] Mae hyn yn cynnwys prif gyflogwyr megis Airbus a Toyota, a meysydd o ragoriaeth ymchwil ac arloesedd o fewn prifysgolion y rhanbarth. Mae AMRC Cymru, cyfleuster ymchwil a datblygu gwerth £20 miliwn gyda'r offer diweddaraf a agorwyd yn ddiweddar ym Mrychdyn, wedi'i ddisgrifio gan weinidogion Llywodraeth Cymru fel "*game changer*" ar gyfer y rhanbarth.

10Ffynhonnell: Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru

- **Ynni carbon isel:** Roedd amcangyfrif o 16,750 o bobl yn gweithio mewn cwmnïau amgylcheddol ac ynni arbenigol yn y Gogledd yn 2016. Mae Cymru wedi ymrwymo i ostyngiad o 95% mewn allyriadau carbon erbyn 2050. Mae'r Gogledd eisoes yn hwb ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, gyda chyfwerth â 82% o'i ddefnydd o drydan eisoes yn dod o ffynonellau adnewyddadwy lleol. Mae'r rhanbarth yn gartref i dros draean o gapasiti ynni adnewyddadwy Cymru ac mae yma hefyd ddau safle trwyddedig niwclear, Wylfa a Thrawsfynydd. Mae daearyddiaeth, adnoddau naturiol a threftadaeth cynhyrchu ynni'r rhanbarth yn golygu bod yma gyfleoedd unigryw i ddefnyddio amrediad eang o dechnolegau carbon isel, gydag adnoddau i gynyddu'r cynhyrchu ynni gwynt ar y môr ac ar y tir, ynni ffrwd llanw, ynni amrediad llanw, ynni dŵr, ynni solar a chynhyrchu niwclear y genhedlaeth newydd. Mae hyn yn cael ei ategu gan alluedd ymchwil ac arloesedd arwyddocaol, yn cynnwys y Sefydliad Dyfodol Niwclear ym Mhrifysgol Bangor. **Bwyd-Amaeth**: Mae bwyd-amaeth yn gonglfaen ar gyfer economi'r Gogledd, ac yn cyflogi oddeutu 20,900 o bobl ac yn cyfrannu £370m mewn GVA.[11] Mae 1/5 o holl fusnesau Gwynedd a Môn yn rhai amaethyddol. Roedd Llywodraeth Cymru'n bwriadu cynyddu gwerthiant yn y diwydiant Bwyd a Diod 30% i £7 biliwn erbyn 2020[12]. Mae'r Cynllun Gweithredu diwygiedig wrthi'n mynd drwy broses ymgynghori, fodd bynnag, mae'r Cynllun Gweithredu newydd yn gosod targedau uchelgeisiol ar gyfer y sector Bwyd a Diod, gan gynnwys sicrhau y bydd trosiant y Sector Bwyd a Diod yn tyfu'n flynyddol i gyd-fynd â'r newid y Fynegai Pris Defnyddwyr (CPI), yn ogystal â 2% ychwanegol.
- **Twristiaeth**: Mae twristiaeth yn sector arall hir-sefydlog a hanfodol ar gyfer economi'r Gogledd, gydag oddeutu 37,200 o bobl yn gweithio mewn twristiaeth a lletygarwch yn y rhanbarth, gan gynrychioli 12% o'r gweithlu. Mae'r sector wedi gweld cynnydd mewn ymweliadau a gwariant yn y blynyddoedd diweddar, gyda chynnydd o 4% mewn tripiau a chynnydd o 10% mewn gwariant rhwng 2013-2015 a 2014-2016.[13] Gwelwyd twf i'w groesawu mewn twristiaeth antur, gan fanteisio ar y dirwedd ôl-ddiwydiannol ac asedau naturiol yr ardal. Yn ôl y data crynodol STEAM[14] diweddaraf sydd ar gael ar gyfer y Gogledd, mae cyfanswm effaith economaidd twristiaeth ar economi'r Gogledd bellach yn £3.69 biliwn.
-
- **Digidol**: mae effaith ddyfnach digideiddio yn golygu bod technoleg yn tarfu'n gynyddol ac yn werthfawr i economi'r Gogledd, gan fod yn yrrwr cynhyrchedd a'r elfen gystadleuol. Er bod y sector digidol wedi sefydlu ei hun fel cynhyrchydd pwysig o allbwn cyflogaeth ac economaidd, mewn realiti, mae sylfaen llawer ehangach o sectorau wedi cael ei siapio gan dechnolegau a phrosesau digidol. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu mewn polisi - mae llywodraethau'r DU a Chymru yn cefnogi'r sector, o fewn Strategaethau Digidol perthnasol, gan gyd-fynd â'r cyfle i fanteisio ar dwf digidol fel y nodir yn y Strategaeth Ddiwydiannol. Ystyrir bod sicrhau bod gan fusnesau a chymunedau fynediad at gysylltedd digidol o'r radd flaenaf, yn sefydlog a symudol, yn allweddol i ddatgloi'r Gogledd a'i botensial am dwf.

2.41. Mae cefnogi'r sectorau gwerth uchel hyn ac ymdrin â'r rhwystrau hir-dymor i dwf wrth galon Cynllun Twf Gogledd Cymru. Fel y nodwn isod, rydym yn gweithio â phartneriaid i sicrhau bod

11 Ffynhonnell: Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru; Labour Market Insights, Mehefin 2020

12 Ffynhonnell: Cynllun Gweithredu ar gyfer Bwyd a Diod Llywodraeth Cymru

13 Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru Awst 2018 'Tourism Profile - North Wales (2014-2016)'

14 Ffynhonnell: Data Crynodol STEAM ar gyfer y Gogledd 2019

gwybodaeth gyfredol ac wedi'i thargedu ar effeithiau economaidd COVID-19 ar gyfer y rhanbarth, a bod prosiectau'r Cynllun Twf yn mynd i'r afael â materion allweddol lle bo hynny'n briodol.

2.42. Er nad yw'r Cynllun Twf yn canolbwyntio'n benodol ar y sector cyhoeddus, mae'r Bwrdd Uchelgais yn cydnabod y rôl sylweddol y mae'r sector hwn yn ei chwarae o fewn economi sylfaen y Gogledd a'r sector cyhoeddus drwy'r awdurdod lleol, AB ac AU. Bydd gan bartneriaid ar y Bwrdd Uchelgais rôl allweddol i'w chwarae wrth gyflawni'r Cynllun Twf yn llwyddiannus.

### Y boblogaeth a'r farchnad lafur

2.43. Mae poblogaeth sy'n heneiddio ledled y rhanbarth a thraddodiad o ddoniau yn symud allan o'r rhanbarth. Er y disgwylir i boblogaeth y Gogledd gynyddu i 7,22,317 erbyn 2039, mae disgwyl i gyfran y boblogaeth sy'n 65 oed neu hŷn gynyddu o 23.6% o 29.8%. Mae hyn yn golygu cyfran lai o bobl oedran gweithio, a allai roi pwysau ar y cyflenwad sgiliau.

2.44. Roedd y gyfradd cyflogaeth ymysg trigolion oedran gweithio yn y Gogledd yn 75.9% ym mis Mawrth 2020, oedd yr un fath â'r DU. Dros 5 mlynedd, rhwng mis Mawrth 2015 a mis Mawrth 2020, ychwanegwyd 18,300 o swyddi i'r economi, twf o 6.2 y cant ar gyfer y rhanbarth. Byddwn yn ystyried effeithiau penodol COVID-19 ar gyflogaeth yn y Gogledd yn ddiweddarach, gan ddefnyddio tystiolaeth arolwg.

### Safleoedd ac eiddo

2.45. Mae ymchwil diweddar wedi tynnu sylw at ddiffyg gofod diwydiannol a chyflogaeth gyfoes ledled y rhanbarth. Er bod parciau busnes wedi'u lleoli ar hyd yr A55 (Llanelwy, Parc Menai, Cyffordd Llandudno), a thir ar gael i'w ddatblygu, mae cyfyngiadau dosbarth defnydd cynllunio a maint y lleiniau, ynghyd â diffyg cyllid datblygu a gwerth eiddo sy'n is na'r costau adeiladu, wedi golygu nad oes llawer o ddatblygiad wedi digwydd ynddynt ers 2008. Bu i adolygiad diweddar a gynhaliwyd gan JLL ganfod mai rhwydwaith cymharol wan a darniog o safleoedd strategol oedd modd eu datblygu ar unwaith, fyddai'n gallu cefnogi twf busnes cynhenid a mewnfuddsoddiad, sydd ar gael.[15]

2.46. Mae'r diffyg safleoedd sydd ar gael i ymateb i'r galw yn waddol o'r penderfyniadau a wnaed yng nghanol y 2000au pan fu i'r sector cyhoeddus ymbellhau oddi wrth fuddsoddi mewn eiddo ac annog y sector preifat i ddod ymlaen a chyflwyno datblygiadau newydd.[16] Nid yw hyn wedi digwydd gydag unrhyw gysondeb ers Cwymp 2008 a phan mae'n digwydd, mae'n digwydd yn gyffredinol gyda pheth cefnogaeth gan y sector cyhoeddus.

### Porthladd Caergybi

2.47. Mae Porthladd Caergybi yn cynnig arwyddocâd strategol ac economaidd i'r Gogledd ac mae'n borth rhyngwladol i Gymru. Y Porthladd yw'r ail borthladd llongau Ro-Ro prysuraf yn y DU: yn 2018 bu i'r Porthladd ymdrin â 75% o deithwyr, 71% o gerbydau teithwyr ac 81% o gerbydau llwyth oedd yn pasio drwy borthladdoedd Cymru i Iwerddon16[17]. Yn 2018, Porthladd Caergybi welodd yr ail nifer uchaf o groesiadau fferi byr yn ôl cyfanswm teithwyr yn y DU, ar ôl Dover[18].

2.48. Stena Line Ports Limited, sydd hefyd yn gweithredu fel yr Awdurdod Porthladd statudol, yw Perchnogion a Gweithredwyr y Porthladd. Caergybi-Dulyn yw'r prif gyswllt fferi i Weriniaeth

15 Ffynhonnell : JLL (2017) Priority Property Interventions for Economic Development Report.

16 Ffynhonnell : JLL (2017)

17 DfT Port Freight Stats 2019

18 DfT Port Freight Stats 2019

Iwerddon o'r DU ac mae'n gwasanaethu marchnadoedd Gogledd Cymru a Chanolbarth a Gogledd Lloegr. Mae dau gwmni fferi'n gweithredu'r gwasanaeth, sef Stena Line ac Irish Ferries.

2.49. Mae'r defnydd a wneir o Borthladd Caergybi wedi bod yn cynyddu dros y degawd diwethaf, yn enwedig yn sgil nifer y llongau mordaith sy'n ymweld â'r porthladd. Bu i hyn gynyddu o 18 yn 2013 i 51 yn 201818[19]. Yn yr un cyfnod, bu i ymweliadau gan deithwyr gynyddu o 15,000 i 50,000 19[20].

2.50. Mae Porth Caergybi yn gofyn am gyfres o fuddsoddiadau wedi'u targedu i roi sylw i asedau sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes ond sy'n hanfodol i weithrediad y porthladd.

### Cysylltedd Digidol

2.51. Mae'r galw am fand eang cyflym iawn a chysylltedd symudol yn y Gogledd wedi dal i fyny â'r cyflenwad. Fodd bynnag, yn hanesyddol, mae isadeiledd y rhanbarth wedi bod ar ôl gweddill y DU yn nhermau darpariaeth signal a chapasiti.

2.52. Gyda dyfodiad technoleg ffibr-optig a oedd ar gael yn fasnachol tuag at ddiwedd yr 20fed ganrif, mae potensial i ehangu'r 'bwlch digidol' gynyddu'n gyflym lle gall y gwahaniaeth mewn lled band fforddiadwy bellach fod yn gannoedd o Megabits yr eiliad o'i gymharu â rhanbarthau eraill (e.e. 4.9% o eiddo yn Sir Ddinbych sydd ag argaeledd cyflym iawn ar >100Mbps o gymharu â 49% yng Ngogledd Orllewin Lloegr). Mae pob un o'r pedair sir yn y Gorllewin yn dod yn 25% isaf ardaloedd y DU ar gyfer darpariaeth band eang Cyflym Iawn (>30Mbps).

### Heriau a Chyfleoedd yn sgil Newid yn yr Hinsawdd

2.53. Bu i Lywodraeth Cymru ddatgan argyfwng hinsawdd yn 2019 ac fe osododd darged i weld gostyngiad o 95% o allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050 o gymharu â 1990. Mae'r targed hwn, sy'n is na tharged datgarboneiddio net sero 2050 cyfwerth y DU, yn cydnabod bod Cymru'n wynebu sawl her ychwanegol, gan gynnwys allyriadau nwyon tŷ gwydr uwch o amaethyddiaeth a rhannau o'i ddiwydiant trwm.

2.54. Mae'r *UK Committee on Climate Change* (UKCCC) wedi cyhoeddi asesiad cenedlaethol o 56 o risgiau a chyfleoedd sy'n effeithio ar Gymru rhwng nawr a diwedd y ganrif hon, gyda risg i isadeiledd, cyflenwad dŵr cyhoeddus, rheoli tir, ecosystemau ac amaethyddiaeth wedi'u cofnodi fel y materion â'r blaenoriaeth uchaf.

2.55. Mae'r Cynllun Twf, gyda phortffolio o brosiectau i'w cyflawni dros y 15 mlynedd nesaf yn codi cyfle i'r Bwrdd Uchelgais leoli'r Gogledd ar gyfer ffyniant tymor hwyr drwy ystyried effaith newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth ar yr amgylchedd naturiol ac adeiledig.

### Effaith Economaidd COVID-19

2.56. Yn amlwg, mae COVID-19 wedi cael effaith economaidd syfrdanol ar y Gogledd, yn yr un modd â rhannau eraill o'r DU ac yn fyd-eang. Mae Partneriaid yn y Gogledd wedi sefydlu arolwg o gwmnïau rhanbarthol20[21] i fonitro'r effaith economaidd ar eu gweithrediad. Bu i'r arolwg cyflawn diweddaraf dderbyn ymatebion gan 1,771 busnes ar draws nifer o sectorau a chyda chynrychiolaeth dda ar draws ardaloedd awdurdod lleol y Gogledd. Yn ogystal, mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi darparu adroddiad cipolwg ar y farchnad lafur.[22] Wrth

19Stena Lina Ports, 2018

20 Stena Line Ports, 2018

21Diweddariad Arolwg Rhanbarthol COVID-19 Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 16/07/2020

22 Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Gogledd Cymru COVID-19 *Labour Market Insights North Wales*, 4 Medi 2020

gwrs, mae'r darlun yn newid yn gyflym, ond ar adeg ysgrifennu'r adroddiad, mae'n hymchwil wedi canfod yr hyn a ganlyn:

- **Effaith Argyfwng COVID-19 hyd yma (fel ym mis Hydref 2020)**

- Er bod pob sector wedi cael ei gyffwrdd gan y pandemig, nid yw'r effaith wedi bod yr un fath i bawb. Mae rhai sectorau wedi cael eu taro'n galetach nag eraill ac mae'r sefyllfa'n parhau i fod yn hylifol wrth i'r cyfyngiadau clo gael eu llacio. Mae busnesau yn y rhanbarth yn parhau i fod yn ceisio goroesi mewn nifer o sectorau. Fodd bynnag, mae busnesau yn y sectorau **Adeiladu, Ynni a'r Amgylchedd, Ariannol a Phroffesiynol ac Iechyd a Gofal Cymdeithasol** yn dangos arwyddion o sefydlogi / adferiad araf, wrth iddynt symud tuag at y 'normal newydd'. **Twristiaeth a Lletygarwch, Creadigol ac Awyrofod** (fel is-sector o Weithgynhyrchu) sydd wedi gweld yr effaith fwyaf - gyda'r darlun ar ôl i ffyrlo ddod i ben yn edrych yn fwy llwm, gyda sefydlogrwydd / adferiad arafach yn cael ei ragweld.
- Dengys yr arolwg rhanbarthol mwyaf diweddar o fusnesau yn y Gogledd mai **colledion incwm, problemau llif arian a lles staff a phersonol** oedd y tri phrif bryder ar gyfer busnesau dros y misoedd i ddod. Mae sgiliau a hyfforddiant yn parhau i fod yn is ar y rhestr o flaenoriaethau, gyda'r mwyafrif o fusnesau'n gofyn am gefnogaeth ariannol, canllawiau pellach ac offer newydd - gyda dim ond **7% yn gofyn am help gyda hyfforddiant**.
- Mae **effaith lefelau staffio a recriwtio wedi amrywio rhwng sectorau**: Nid oes manylion ar rolau galwedigaethol sydd wedi'u heffeithio gan ddiswyddiadau gorfodol ar gael ar hyn o bryd. Mae'r Grŵp Ymateb Cyflogwyr Rhanbarthol yn gweithio gydag Airbus yn benodol i ddeall y gweithlu / rolau galwedigaethol yr effeithir arnynt gan ddiswyddiadau gorfodol yn y sector Awyrofod. Dengys data gan yr Adran Gwaith a Phensiynau ddiswyddiadau yn y sectorau Awyrofod, Llety a Gwasanaethau Bwyd a'r Celfyddydau, Adloniant a Hamdden yn y rhanbarth.
- Mae cyfanswm o **98,400** o bobl ar ffyrlo yn y Gogledd (ffigyrau fel ar 31 Gorffennaf, 2020). Mae hwn y gynnydd o **28.9%** ers y ffigwr ar gyfer Mehefin 2020. Mae'r % uchaf o'r gweithlu cymwys ar ffyrlo yng Ngwynedd a Chonwy, dwy o'n hardaloedd mwyaf gwledig yn y rhanbarth, a Gwynedd sydd â'r cyfraddau uchaf yng Nghymru . Bydd hyn yn arwain at oblygiadau i'n rhanbarth wrth i ffyrlo ddirwyn i ben. Fodd bynnag, mae data postiadau swyddi Esmi yn dangos i ni bod nifer y swyddi gwag ar daflwybr mwy cadarnhaol o gymharu â data mis Mehefin. Er bod nifer y swyddi mewn rolau iechyd, gofal a domestig yn parhau i ddominyddu nifer y postiadau swyddi, mae hefyd ail-ddyfodiad mewn gwahanol swyddi, yn unol â llacio'r cyfnod clo ac ail-agor rhagor o sectorau a busnesau.
- Gwelwyd cynnydd mewn diweithdra a chynnydd mewn hawliadau Hawlwyr Credyd Cynhwysol a Nifer yr Hawlwyr, gyda phobl ifanc dan 24 oed yn cael eu heffeithio fwyaf. Gwynedd ac Ynys Môn sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf mewn hawlwyr, gyda chynnydd o +113% (Gwynedd) a +98.6% (Ynys Môn). Eto, bydd gan hyn oblygiadau ar gyfer y rhanbarth yn y dyfodol, ac mae'n debygol y bydd ffigyrau yn codi erbyn diwedd mis Hydref.
- Mae cyflogwyr yn tynnu sylw at Ddatblygu Sgiliau Digidol fel eu prif angen am sgiliau ar draws sectorau. Mae marchnata digidol, defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, diogelwch seibr, datblygu Apiau a gwefannau i werthu cynnyrch oll wedi'u hadnabod gan gyflogwyr fel anghenion sgiliau allweddol i'r dyfodol ar gyfer y gweithlu. **Mae Sgiliau Rheoli ac Arwain**, ar draws **sgiliau trosglwyddadwy (creadigol, meddwl yn feirniadol, sgiliau cyfathrebu rhyngbersonol)** yn parhau i fod yn ffocws allweddol ar gyfer y dyfodol i fusnesau ledled y

rhanbarth. Mae angen am **ail-sgilio ac uwch-sgilio** a mynd ati'n weithredol i gynorthwyo unigolion sydd mewn perygl o gael eu diswyddo.

2.57. Mae'r Cynllun Twf wedi'i ddylunio i fynd i'r afael â rhwystrau strwythurol, hir-dymor sy'n atal twf economaidd. Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn gwbl ymwybodol yn y byr-dymor y bydd angen amrediad o gamau gweithredu er mwyn hwyluso adferiad ac mae sicrhau bod y mesurau byr-dymor hynny'n cyd-fynd â'r Cynllun Twf yn allweddol.

2.58. Ni all y Cynllun Twf ar ei ben ei hun fynd i'r afael â'r holl heriau sy'n wynebu economi'r Gogledd, yn enwedig yng ngoleuni COVID-19. Fodd bynnag, bydd y chwistrelliad sylweddol o fuddsoddiad cyfalaf i economi Cymru o du'r Cynllun Twf yn hwb arwyddocaol i'r sectorau adeiladu a chysylltiedig a hynny ar adeg pan mae'n debygol y bydd capasiti dros ben yn yr economi.

## Anghenion Busnes

2.59. Mae'r adran hon yn nodi'r heriau a'r cyfleoedd ar draws y sectorau allweddol yn economi'r Gogledd fel sydd wedi'u nodi uchod.

2.60. Drwy ddadansoddi ac ymgynghori â rhanddeiliaid ar lefel rhaglen, mae'r Bwrdd Uchelgais wedi adnabod cyfres o anghenion economaidd penodol y bydd angen i'r Cynllun Twf fynd i'r afael â nhw. Cafodd y rhain eu datblygu ymhellach drwy gyfres o weithdai â rhanddeiliaid allweddol yn y sectorau preifat a chyhoeddus - gweler Atodiad B. Yn ogystal, mae'r achosion strategol ar gyfer pob un o'r rhaglenni wedi'u datblygu yn iteraidd: mae'r Bwrdd wedi derbyn adborth ar yr achosion strategol gan swyddogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, ac mae hyn wedi cael ei ymgorffori yn y dogfennau terfynol.

2.61. Mae'r rhain wedi cael eu trefnu yn gyfres o themâu isod.

### Gweithgynhyrchu gwerth uchel

- **Cefnogi arloesedd ac ymchwil a datblygu**: mae angen am gyfleusterau a chefnogaeth dechnegol â busnesau unigol yn methu â chael mynediad at y sgiliau a'r arbenigedd i arloesi a gwella cynhyrchedd drwy arbedion effeithlonrwydd.
- **Cefnogi'r rhaglen carbon isel**: mae angen cryf i ddatgarboneiddio'r diwydiant er mwyn bodloni targedau cenedlaethol ar gyfer twf glân, ynghyd â gwneud y mwyaf o gyfleoedd yn y farchnad, gyda disgwyliad y bydd nifer y swyddi coler werdd yn tyfu i 2 filiwn a gwerth allforion y DU o'r economi carbon isel dyfu £170 biliwn bob blwyddyn erbyn 2030.
- **Integreiddio'r gadwyn gyflenwi**: Mae disbyddiad cynyddol neu 'gafnu' yn y gadwyn gyflenwi sydd wedi'i lleoli yng Nghymru ac yn y DU dros ddegawdau diweddar yn cyflwyno bygythiad hirdymor i'r galluedd cynhyrchu a gweithgynhyrchu a'i ffyniant yn y dyfodol. Mae angen ail-adeiladu a chynnal busnesau bach a chanolig eu maint o fewn cadwyni cyflenwi i yrru'r elfen gystadleuol.
- **Gwella cynhyrchedd**: Mae sectorau gweithgynhyrchu uwch y Gogledd yn sectorau cynhyrchedd uchel cymharo yn yr economi, ond mae potensial mawr i gynyddu cynhyrchedd drwy dargedu buddsoddiadau mewn ymchwil a datblygu a sgiliau.

### Bwyd-amaeth a thwristiaeth

- **Tan-fuddsoddiad mewn Ymchwil a Datblygu ac Arloesedd**: Mae data'r Cyngor Ymchwil Peirianneg a Gwyddorau Ffisegol (EPSRC) yn awgrymu mai dim ond 2% (c. £95 miliwn) o'r holl grantiau sy'n cael eu cynnig sydd wedi'u cyfeirio at y sector Bwyd a Diod. Roedd y gwariant ar ymchwil a datblygu ar draws y sectorau hyn gyfwerth â 1.3% o'r holl wariant ar

ymchwil a datblygu ar draws yr holl sectorau yn y DU yn 2018, er bod y sectorau hyn yn cyfrif am 10% o gyfanswm cyflogaeth.

- **Cefnogi'r rhaglen carbon isel ar draws Cymru a'r DU**: O safbwynt amgylcheddol, mae lleihau allyriadau carbon yn hanfodol i gynaladwyedd Cymru yn y dyfodol a chafodd hyn ei gydnabod yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sy'n gosod targed i leihau allyriadau o leiaf 80% yn erbyn gwaelodlin 1990. Gallai cyflwyno ymarferion rheoli tir carbon isel cynaliadwy, ynghyd â gyrru arloesedd a thechnolegau carbon isel newydd yn y sector amaethyddiaeth gyfrannu at y rhaglen gostwng carbon hir-dymor.
- **Gwella cynhyrchedd**: Yn 2017, roedd yr allbwn gros fesul hectar o dir amaethyddol yn £858 yng Nghymru, sy'n sylweddol is na rhanbarth mwyaf cynhyrchiol y DU, sef De Ddwyrain Lloegr (£3,190 fesul hectar). Mae'r sector twristiaeth hefyd yn dioddef o lefelau cynhyrchedd is na'r rhai a welir yn Lloegr, gyda GVA fesul gweithiwr yn y sector twristiaeth gyfystyr â £19,600, 14% yn is na'r metrig cyfatebol yn Lloegr.
- **Cwrdd ag anghenion sgiliau**: Awgrymodd yr Arolwg Sgiliau Cyflogwr diweddaraf bod 25% o fwytai a gwestai yng Nghymru wedi adrodd am ddiffyg sgiliau a 45% o fusnesau mewn prif ddiwydiannau (sy'n cynnwys amaethyddiaeth). Bu i'r ddau sector hefyd adrodd am gynnydd mewn bwlch sgiliau o'r arolwg blaenorol, gyda gwestai a bwytai yn adrodd am +3% o gynnydd, a phrif ddiwydiannau'n adrodd am +28% o gynnydd.
- **Arallgyfeirio a gwytnwch**: y sectorau amaeth, bwyd a thwristiaeth yw asgwrn cefn nifer o economïau lleol yn y Gogledd. Gyda'r ymadawiad o'r Undeb Ewropeaidd ar y gorwel, a cholled y cyllid cysylltiedig, mae'n bwysig bod gan fusnesau gwledig gefnogaeth a gwybodaeth i'w helpu i arallgyfeirio.
- **Diffyg eiddo priodol**: Mae ymchwil a gynhaliwyd gan Arad ar gyfer Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon yn nodi bod y diffyg eiddo graddfa bwyd, cyfleusterau datblygu cynnyrch lleol a chefnogaeth dechnegol yn llesteirio potensial y sector, gyda busnesau unigol yn methu â chael mynediad at y sgiliau a'r arbenigedd i arloesi a gwella cynhyrchedd drwy arbedion effeithlonrwydd.

### Ynni carbon isel

- **Mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd**: Ymateb i'r argyfwng hinsawdd a ddatganwyd gan Lywodraeth Cymru a'r nod o gyflawni Sero Net erbyn 2050. Mae angen ddatgarboneiddio system ynni'r Gogledd, gan gynnwys pŵer (e.e. cynhyrchu ynni carbon isel cynyddol), tai (gan gynnwys heriau cysylltiedig â nifer uchel o gartrefi heb fod ar y grid nwy) a thrafnidiaeth.
- **Cefnogi twf economaidd yn y sectorau ynni carbon isel**: ecsbloetio cryfderau lleol a manteision cystadleuol (e.e. seilwaith ynni presennol, cryfderau ymchwil a gweithlu medrus) i yrru twf yn y sector ynni carbon isel lle mae cyfleoedd twf sylweddol yn genedlaethol (rhagolygon y bydd y sector yn tyfu 11% y flwyddyn hyd 2030). Mae angen oddeutu £10.9bn o fuddsoddiad ychwanegol erbyn 2035 er mwyn rhoi'r rhanbarth ar y trywydd iawn i gyflawni Sero Net. Mae gan y lefel hon o fuddsoddiad y potensial i greu hyd at 24,400 o swyddi newydd.

### Tir ac eiddo

- **Angen am ofod llawr cyflogaeth modern**. Mae'r rhwydwaith o safleoedd strategol parod, sydd â'r gallu i gefnogi twf busnesau cynhenid a mewnfuddsoddiad yn gymharol wan a darniog

- **Mae gwerth tir isel a chyfyngiadau seilwaith** wedi arwain at ddiddordeb annigonol gan ddatblygwyr, gan arwain at ddiffyg cyflenwad o dai ac eiddo masnachol. Hyd yma, mae'r farchnad wedi methu â mynd i'r afael â'r heriau hyn ac felly mae angen penodol am gyllid y Cynllun Twf fel bod modd cyflawni gofod cyflogaeth, tir preswyl wedi'i wasanaethu a gwelliannau i Borth Caergybi.

### Cysylltedd digidol

- **Ymdrin â'r rhaniad digidol:** er mwyn i economi'r Gogledd ffynnu ac er mwyn i sectorau allweddol dyfu i'w llawn botensial; rhaid mynd i'r afael â bylchau arwyddocaol mewn cysylltedd. Mae angen cynyddu cysylltedd gigabit mewn safleoedd twf allweddol yn gyflym, sicrhau bod ardaloedd gwledig lle nad oes unrhyw gysylltedd yn cael eu taclo'n llawn, cyflawni cysylltedd symudol ar draws coridorau ac asedau economaidd a darparu'r sylfeini ar gyfer mwy o ecwiti a chynhwysiad cymdeithasol.
- **Ymateb i alw clir am well cysylltedd:** mae corff eang o dystiolaeth yn dangos yr angen rhagweledol am fand llydan sefydlog a symudol ar gyfer y ganrif nesaf a chost darpariaeth wael, perthnasol i rannau eraill o'r DU. Mae dyhead eithriadol i ddefnyddio technolegau mwy soffistigedig a defnydd arloesol, a fydd yn sicrhau cynhyrchedd, effeithiolrwydd a chystadleuaeth ledled y rhanbarth.
- **Creu amodau cystadleuol yn y farchnad**: Mae cysylltedd digidol y Gogledd wedi cael ei gyfyngu gan ddiffyg cystadleuaeth yn y farchnad ar lefel cyfanwerthu, ac o fewn graddfa'r newid a gynigir gan ddarparwyr band eang ar lefel manwerthu. Mae cyfle i ymateb i hyn drwy greu amodau sy'n gwella pa mor ddeniadol yw'r farchnad, lleihau costau defnyddwyr, cynyddu nifer y defnyddwyr terfynol a darparu'r sail ar gyfer buddsoddiad masnachol tymor hwy.
- **Sefydlu coridor digidol gyda'r gorau yn y byd:** yr A55 yw'r prif echel economaidd ar gyfer y Gogledd, yn cysylltu safleoedd allweddol, hybiau ar gyfer twf ac asedau mwyaf amlwg y rhanbarth. Mae cyfle yma i sicrhau bod 5G a band eang ffibr llawn yn creu coridor cyflymder uchel di-dor, fel sail ar gyfer defnyddio technoleg clyfar ar raddfa fawr, cynlluniau peilot a phrawf ac fel lifer i fewnfuddsoddiad.
- **Ymestyn y capasiti ymchwil digidol:** Mae gan y Gogledd broffil sy'n dod i'r amlwg fel sylfaen ar gyfer ymchwil arloesol ac sy'n cael ei arwain gan dechnoleg, dan arweiniad sefydliadau addysg uwch a'r sector preifat. Mae yma gyfle i fynd â hyn ymhellach, gan dynnu ar ffynonellau eraill o gyllid a bwriad busnes, gan greu màs critigol o dechnoleg, arbenigedd ac uchelgais i sicrhau bod y Gogledd ar flaen y gad o ran darganfod a defnyddio'r technolegau diweddaraf.

# Sgôp Posib: Cynllun Twf Gogledd Cymru

## Rhaglenni'r Cynllun Twf

2.62. Mae'r adran hon yn amlinellu'r sgôp posib ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru dros y 15 mlynedd nesaf.

2.63. Mae'r holl sectorau sydd wedi'u cynnwys yn adran anghenion busnes yr achos busnes hwn yn ffurfio rhan o sgôp posib Cynllun Twf Gogledd Cymru a byddant yn cael sylw dros amser ac eithrio'r gwasanaethau gofal ac iechyd sydd y tu allan i sgôp y Cynllun Twf.

2.64. Nod y Cynllun Twf yw adeiladu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn yn y Gogledd, gan adeiladu ar ein cryfderau i roi hwb i gynhyrchedd wrth fynd i'r afael â heriau a rhwystrau

economaidd hir-dymor i gyflawni twf cynhwysol. Mae ein dulliau gweithredu i gyflawni twf mewn ffordd gynhwysol, gynaliadwy, y gellir ei ymestyn yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Yn seiliedig ar hynny, cytunwyd i ystyried y sectorau a ganlyn:

### Sectorau Twf Uchel i yrru cynhyrchedd yn y rhanbarth

2.65. Bydd y prosiectau sydd wedi'u hanelu at werth ac effaith y sectorau twf uchel yn canolbwyntio ar dri phrif sector:

- Ynni carbon isel
- Arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel
- Bwyd-amaeth a thwristiaeth

### Mynd i'r afael â'r rhwystrau allweddol i hwyluso a chyflawni twf economaidd


2.66. Rydym wedi adnabod sectorau hwyluso drwy'r Cynllun Twf i fynd i'r afael â rhwystrau economaidd allweddol a rhoi sylw i faterion strwythurol sydd wedi cael effaith ar gynhyrchedd a swyddi. Bydd cyflawni yn y sectorau hyn yn creu'r amodau priodol i fusnesau fuddsoddi yn y rhanbarth ac i'r farchnad lafur gymryd mantais ar gyfleoedd cyflogaeth newydd. Byddwn yn defnyddio dulliau mwy strategol i'n buddsoddiadau, gan sicrhau eu bod wedi'u targedu'n dda er mwyn hwyluso twf economaidd a thwf mewn cyflogaeth ledled y rhanbarth. Gwneir hyn mewn partneriaeth â phartneriaid allweddol, yn enwedig Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

2.67. Mae'r prosiectau i fynd i'r afael â rhwystrau allweddol i dwf yn canolbwyntio ar ddau sector allweddol wedi'u cyflwyno mewn dwy Raglen Cynllun Twf allweddol, gyda'r ddau sector hwyluso arall yn eistedd y tu allan i'r Cynllun Twf.

- Tir ac eiddo
- Digidol

2.68. Drwy ganolbwyntio ar gyflawni gyda'r sectorau hyn ar y cyd, byddwn yn cyflawni mwy o effaith o ran ein uchelgais a defnyddio adnoddau yn hytrach na'u cyflwyno yn ynysig. Bydd pump o'r sectorau hyn yn cael eu targedau drwy'r Cynllun Twf, tra bydd dau sector - Sgiliau a Chyflogaeth a Thrafnidiaeth Strategol bellach yn eistedd y tu allan i'r Cynllun Twf a byddant yn bwrw ymlaen drwy ffynonellau ariannu eraill.

Ffigwr 2.6 Sectorau'r Cynllun Twf




Ffynhonnell: Y BWRDD UCHELGAIS

2.69. Bydd pob un o'r rhaglenni a'r prosiectau o fewn y Cynllun Twf yn cyfrannu at gyflawni'r Weledigaeth Twf a chyflawni buddion i'r Gogledd. Bydd y buddion o'r Cynllun Twf yn cefnogi twf cynaliadwy a chynhwysol ledled y rhanbarth - yn unol â'r Weledigaeth Twf ynghyd â blaenoriaethau Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

### Crynodeb o'r sectorau

2.70. Gweler isod grynodeb o'r amcanion strategol i roi sylw iddynt ymhob sector, a'r mathau o ymyraethau y maent yn bwriadu eu hwyluso.

| |
|---|
| **Ynni carbon isel**<br>**Amcanion strategol**: Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu'r Gogledd fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi<br>**Mathau o ymyrraeth**: Hwyluso gwaith ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel newydd, gan wella cyfleusterau ymchwil ac arloesedd ar gyfer y sectorau ynni carbon isel, datgarboneiddio trafnidiaeth a chefnogaeth ar gyfer y prosiectau ynni lleol. |
| |
| **Arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel**<br>**Amcanion strategol**: Sicrhau bod y Gogledd yn parhau i fod yn gystadleuol ac yn cael cydnabyddiaeth yn ardaloedd ymchwil ac arloesedd hir-sefydlog y rhanbarth, gan gynorthwyo i yrru arloesedd, cystadleuaeth a chynhyrchedd ar draws sectorau gweithgynhyrchu'r Gogledd.<br>**Mathau o ymyrraeth**: Cydweithrediadau diwydiant ac ymchwil, ynghyd â sefydlu canolfannau rhagoriaeth er mwyn helpu i oresgyn rhwystrau a methiannau yn y farchnad yn y broses masnacheiddio ymchwil. |
| |

| |
|---|
| **Bwyd-amaeth a thwristiaeth**<br>**Amcanion strategol**: Arallgyfeirio a gwella cynaladwyedd hir-dymor amaethyddiaeth a thwristiaeth, gan sicrhau eu bod yn fwy cynhyrchiol a pharhaus yn yr hirdymor, gan gefnogi'r agenda carbon isel ar yr un pryd.<br>**Mathau o ymyrraeth**: Cyflwyno technolegau newydd ac arloesedd, sgiliau ac ymarferion yn y sectorau hyn, drwy gefnogaeth busnes ac uwchsgilio. |
| |
| **Tir ac eiddo**<br>**Amcanion strategol**: Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. Cyflawni gwelliannau sy'n symbylu buddsoddiad mewn safleoedd ac eiddo ym Mhorthladd Caergybi a'r ardal ehangach. Chwarae rhan hwyluso ar gyfer rhaglenni eraill drwy sicrhau bod y seilwaith tir ac eiddo cywir ar gael.<br>**Mathau o ymyrraeth**: Adfer a hwyluso seilwaith i ddod â safleoedd cyflogaeth a thai ymlaen, cyflawni gofod llawr diwydiannol, gwarantu dyfodol porthladd Caergybi drwy ddarparu llwytho trwm dŵr dwfn a chyfleusterau mordeithiau a gwell mynediad cerbydol. |
| |
| **Digidol**<br>**Amcanion strategol**: Cyflawni newid amlwg yn y cysylltedd digidol sydd ei angen i sicrhau y gall y Gogledd gyflawni galw'r defnyddwyr, cynnal cyflymdra â gweddill y DU, datgloi potensial sectorau a safleoedd â blaenoriaeth am dwf a thanategu ecosystem arloesi ffyniannus. Chwarae rôl hwyluso ar gyfer rhaglenni eraill i gyflawni'r budd mwyaf bosib.<br>**Mathau o ymyrraeth**: Mae'r rhaglen wedi adnabod angen i gydbwyso buddsoddiad mewn seilwaith a thechnoleg, drwy ôl-troed band eang sefydlog estynedig mewn safleoedd allweddol mewn ardaloedd gwledig, yn datgloi ceisiadau drwy fynediad 5G a bwrw ymlaen ymhellach ag arloesedd digidol. |

## Prif Fuddion

2.71. Mae'r buddion allweddol a fydd yn cael eu cyflawni o ganlyniad i gyfraniad Cynllun Twf Gogledd Cymru i'r Gogledd wedi'u nodi yn yr adran hon.

2.72. Bydd y Cynllun Twf yn arwain at nifer o fuddion uniongyrchol ac anuniongyrchol ar gyfer economi'r Gogledd. Mae'r amcanion strategol a fydd yn cael eu cyflawni yn cynnwys yr hyn a ganlyn:

- Twf mewn ffyniant rhanbarthol - drwy well cynhyrchedd, mewnfuddsoddiad a chreu swyddi newydd: yn gysylltiedig â'r holl Amcanion Gwariant h.y. Amcan Gwariant 1 (creu rhwng 3,400 a 4,200 o swyddi newydd net); Amcan Gwariant 2 (£2.0 i £2.4 biliwn mewn GVA ychwanegol net); ac Amcan Gwariant 3 (£1.1 biliwn o gyfanswm buddsoddiad)
- Creu swyddi o ansawdd gwell ar gyfer y farchnad lafur leol - drwy ymyraethau wedi'u targedu mewn sectorau gwerth uchel i greu swyddi newydd: *Cysylltiedig ag Amcanion Gwariant 1 a 2 yn arbennig.*
- Gweithlu mwy medrus o fewn y rhanbarth - drwy gefnogi sgiliau a mentrau hyfforddi ac ymyraethau wedi'u targedu mewn sectorau gwerth uchel i greu cyfleoedd: *Cysylltiedig ag Amcanion Gwariant 1 a 2 yn arbennig.*
- Gwelliannau mewn safonau byw ledled y rhanbarth - twf cynhwysol sy'n darparu cyfleoedd, lleihau tlodi, anghydraddoldeb ac amddifadedd: *Cysylltiedig ag Amcanion Gwariant 1 a 2 yn arbennig.*

2.73. Mae'r tabl isod yn gosod gwaelodlin o ddangosyddion dan y penawdau hyn, gan ddarlunio'r tueddiad presennol a'r cyfeiriad a ragwelir yn y dyfodol dan y Cynllun Twf.

Tabl 2.4 Deilliannau a Dangosyddion Strategol

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 | 2017 | 2018 | Cyfeiriad y Dyfodol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Twf mewn Ffyniant Rhanbarthol** | | | | | | | |
| Twf GVA (GVA £m) | 12,344 | 12,519 | 13,033 | 13,439 | 13,673 | 14,239 | ↑ |
| GVA y pen yn y Gogledd fel % o'r DU (- Llundain a de-ddwyrain Lloegr) | 86% | 83% | 85% | 85% | 83% | 84% | ↑ |
| Twf GVA wedi'i ledaenu ledled chwe Sir y Gogledd | 8.5% | 5.9% | 8.5% | 11.1% | 10.1% | 5.0% | ↓ |
| Twf GVA yn y sector economaidd gwerth uchel (gweithgynhyrchu, gwybodaeth a chyfathrebu a gweithgareddau technegol) | -0.4% | 0.0% | 5.4% | 6.3% | -7.7% | 6.5% | ↑ |
| **Creu Swyddi o Ansawdd Gwell** | | | | | | | |
| Twf Cyflogaeth | 0.4% | 1.9% | 2.3% | -2.1% | 1.2% | 3.0% | ↑ |
| Lledaenu Twf Cyflogaeth ledled chwe Sir y Gogledd | 14.1% | 10.0% | 17.6% | 13.8% | 14.4% | 9.8% | ↓ |
| Twf Economaidd mewn sectorau economaidd gwerth uchel | 7.1% | 7.0% | 0.0% | -8.8% | 14.4% | -0.2% | ↑ |
| **Gweithlu Mwy Medrus o fewn y Rhanbarth** | | | | | | | |
| Cynnydd yn y cyfran o'r boblogaeth sydd â chymwysterau (NQF 4) | 33.5% | 35.2% | 36.2% | 34.9% | 36.3% | 36.3% | ↑ |
| Cynnydd yn y prentisiaethau lefel uwch fel cyfran o gyfanswm cyflogaeth | 610 | 735 | 1,045 | 710 | 800 | 610 | ↑ |
| Cynnydd yn y prentisiaethau 16-24 fel cyfran o gyfanswm cyflogaeth | 6,225 | 4,255 | 5,075 | 5,050 | 6,250 | 5,150 | ↑ |
| **Gwelliannau mewn Safonau Byw ledled y Rhanbarth** | | | | | | | |
| Gostwng cyfran yr aelwydydd heb waith | 17.8% | 19.2% | 17.3% | 16.6% | 15.1% | 16.0% | ↓ |
| Gwella fforddiadwyedd (canolrif prisiau tai / canolrif incwm) | 6.7 | 6.8 | 6.7 | 6.8 | 7.4 | 7.4 | ↓ |
| **Cynnydd mewn canolrif incwm aelwydydd (£)** | 1.8% | 1.3% | 5.1% | 0.5% | -3.2% | 1.0% | ↑ |

## Y Prif Risgiau

2.74. Mae'r risgiau allweddol i gyflawni'r portffolio yn llwyddiannus wedi'u nodi yn Nhabl 2.2.

Tabl 2.5 Risgiau Portffolio'r Cynllun Twf

| | |
|---|---|
| **Adnoddau** | Mae angen adnoddau ar lefel portffolio, rhaglen a phrosiect i sicrhau y cyflawnir portffolio'r Cynllun Twf yn llwyddiannus. Gallai diffyg adnoddau gael effaith arwyddocaol ar gyflawni'r cynllun twf yn llwyddiannus. |
| **Cyflawni** | Gallai unrhyw oedi â chyflawni unrhyw rai o'r prosiectau effeithio ar bortffolio cyffredinol y Cynllun Twf. |
| **Cost** | Mae risg y bydd cost y prosiectau sydd wedi'u cynnwys yng nghynnig Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cynyddu cyn y cwblheir y cynllun. Gan bod cyllid Llywodraeth Cymru / y DU wedi'i osod ar £240 miliwn, byddai angen i unrhyw gynnydd mewn costau gael ei dalu gan y sector cyhoeddus/preifat. |
| **COVID-19** | Mae'r pandemig COVID-19 yn parhau i fod yn risg i gyflawni'r rhaglen. Nid yw effaith economaidd y cyfyngiadau clo wedi cael eu gweld yn llawn hyd yma ac fe allai hyn effeithio ar fusnesau lleol, awdurdodau lleol a darparwyr addysg yn yr un modd. Yn ogystal, gallai cyfyngiadau clo yn y dyfodol oedi'r Cynllun Twf. |
| **Brexit** | Ar hyn o bryd, erys ansicrwydd ynghylch deilliant gwaith negodi Brexit. Gallai economi Cymru gael ei daro yn y tymor byr os bydd Brexit heb fargen yn digwydd, a fyddai'n effeithio ar rai o'n sectorau drwy dariffau a tharfu ar y gadwyn gyflenwi. |
| **Newid hinsawdd ac Bioamrywiaeth** | Mae risg bydd y prosiectau o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cael ei effeithio gan ffactorau sy'n gysylltiedig a newid hinsawdd ac colli bioamrywiaeth, gyda isadeiledd, cyflenwad dwr cyhoeddus, rheolaeth tir, ecosystemau ac amaeth fel y prif risgiau. |
| **Buddsoddiad Sector Preifat** | Mae angen buddsoddiad sector preifat arwyddocaol i gyflawni'r rhaglen. Mae risg, yn enwedig yn dilyn effaith Covid-19 ar yr economi rhanbarthol, na fydd lefel y buddsoddiad sector preifat yn cael ei gynnal. |
| **Buddsoddiad Sector Cyhoeddus** | Mae risg, yn enwedig yn dilyn effaith Covid-19 a'r blaenoriaethau sy'n newid yn yr economi rhanbarthol fel na fyddai lefel y buddsoddiad gofynnol yn cael ei gynnal. |
| **Cyfranogiad cyfyngedig gan gwmnïau defnyddwyr terfynol** | Byddai diffyg galw gan ddefnyddwyr terfynol yn llesteirio'r rhaglen ac un o'i brif amcanion yw gyrru arallgyfeirio ac arloesedd drwy gydweithio rhwng y diwydiant a darparwyr addysg. |
| **Newid Gwleidyddol** | Bydd newidiadau ym mholisi'r Llywodraeth yn digwydd dros gyfnod 15 mlynedd y Cynllun Twf. Gallai'r newidiadau hyn effeithio'n arwyddocaol ar sgôp y Cynllun Twf, y rhaglenni a'r prosiectau. |
| **Caniatâd Statudol a Chynllunio** | Fel rhaglen buddsoddiad cyfalaf, mae risg na fydd prosiectau'r Cynllun Twf yn cael eu cyflawni ac na fydd y buddion yn cael eu gwireddu, oni bai bod y prosiectau'n derbyn y caniatâd statudol a'r gymeradwyaeth cynllunio angenrheidiol. |

2.75. Datblygir Cofrestrau Risg ar lefel portffolio, rhaglen a phrosiect. Bydd y risgiau sy'n gysylltiedig â chyflawni'r rhaglenni a'r prosiectau yn cael eu cynnwys ar y gofrestr risg berthnasol. Mae manylion pellach ar y dull o reoli risg ar draws y portffolio wedi'u nodi yn yr Achos Rheoli.

## Cyfyngiadau

2.76. Mae'r adran a ganlyn yn nodi'r paramedrau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflawni'r portffolio strategol dros y 15 mlynedd nesaf.

2.77. Mae nifer o gyfyngiadau wedi'u rhoi ar gyflawni'r Cynllun Twf; yn fwyaf amlwg:

- **Cyfanswm y Pecyn Cyllid -** Mae cyfanswm y cyllid wedi'i osod ar £120 miliwn gan Lywodraeth Cymru a £120 miliwn gan Lywodraeth y DU. Rhaid i'r cyfanswm o £240 miliwn gael ei ategu gan gyllid sector preifat a chyhoeddus i sicrhau y cyflawnir y Cynllun Twf a'r rhaglen.
- **Cyfnod y Cynllun Twf -** Ni all y rhaglen ymestyn y tu hwnt i gyfnod y Cynllun Twf, sydd wedi'i nodi fel 15 mlynedd.
- **Cyllid Cyfalaf -** Bydd pecyn cyllid y Cynllun Twf yn darparu cyllid cyfalaf heb unrhyw gyllid refeniw yn cael ei ddarparu ar gyfer prosiectau. Rhaid i'r partneriaid ddarparu cyllid refeniw.
- **Cymorth Gwladwriaethol -** Rhaid i brosiectau'r Cynllun Twf gyd-fynd â rheolau Cymorth Gwladwriaethol.

## Dibyniaethau

2.78. Mae'r adran hon yn tynnu sylw at y dibyniaethau ar gyfer cyflawni'r Cynllun Twf yn llwyddiannus.

2.79. Mae angen i'r dibyniaethau a ganlyn fod yn eu lle ar gyfer cyflawni'r Cynllun Twf:

- **Sicrhau'r Cynllun Terfynol** - Dibyniaeth gyfredol yw llofnodi'r Cynllun Terfynol sy'n sicrhau £240 miliwn o gyllid gan y llywodraeth ar gyfer y Cynllun Twf a chytuno ar Gytundeb Llywodraethu 2 o fewn y bartneriaeth.
- **Ymgysylltu â'r Sector Preifat** - Ni ellir cyflawni'r Cynllun Twf yn llwyddiannus heb ymgysylltu â'r sector preifat a chydweithio â hwy.
- **Ymgysylltu â'r Sector Cyhoeddus** - Roedd y Cynllun Twf angen i'r Bwrdd Uchelgais barhau er mwyn cyflawni'r cynllun.
- **Caniatâd Statudol a Chymeradwyaeth Cynllunio** - Bydd angen caniatâd statudol a chymeradwyaeth cynllunio ar nifer o brosiectau'r Cynllun Twf.

2.80. Gellir ystyried prosiectau unigol o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru yn annibynnol ar y naill a'r llall gyda dibyniaethau rhyng-brosiect cyfyngedig (h.y. nid yw un prosiect yn ddibynnol yn uniongyrchol ar gwblhau un arall). Fodd bynnag, gyda'i gilydd, mae Rhaglenni a Phrosiectau'r Cynllun Twf yn drawsnewidiol, yn rhyng-gysylltiedig ac yn gyd-ddibynnol ar nifer o synergeddau ar draws y Portffolio. Bydd y dibyniaethau ar gyfer rhaglenni a phrosiectau yn cael eu nodi o fewn yr achos busnes perthnasol.

# 3 Yr Achos Economaidd

3.1. Mae'r Achos Economaidd yn disgrifio sut y bu i ni werthuso'r opsiynau ar gyfer sgôp posib Cynllun Twf Gogledd Cymru fel y nodir yn yr achos strategol.

## Ffactorau Llwyddiant Hanfodol

3.2. Mae'r adran hon yn disgrifio'r Ffactorau Llwyddiant Hanfodol (CSF) a'r meini prawf gwerthuso y cytunwyd arnynt ar gyfer gwerthuso'r rhaglenni posib a'r prosiectau yng Nghynllun Twf Gogledd Cymru. Cytunodd y Partneriaid y byddai'r Ffactorau Llwyddiant Hanfodol o ganlyn yn cael eu defnyddio:


- **Ecwiti** – bod yr ymagwedd yn sicrhau bod y manteision yn cael effaith gadarnhaol ar gynifer o gymunedau â phosib yn y rhanbarth.
- **Ychwanegu gwerth** – bod yr ymagwedd yn canolbwyntio ar ddychweliadau gwerth uchel.
- **Yn addas yn strategol** – bod yr ymagwedd yn cyd-fynd â strategaethau diwydiannol ac economaidd Cymru a'r DU sy'n berthnasol.
- **Buddsoddiad Sector Preifat** - y byddai angen i'r ymagwedd apelio'n eang i'r sector preifat – yn nhermau cefnogaeth a buddsoddiad anuniongyrchol posib hefyd.

## Asesiad o'r Opsiynau

3.3. Er mwyn deall siâp y Cynllun Twf a'i gyfansoddiad o ran ei raglenni a'i brosiectau, mae'n ddefnyddiol adolygu'r broses y mae partneriaid wedi bod drwyddi ers i'r Bwrdd gael ei ffurfio ac wrth i bartneriaid fwrw ymlaen drwy gamau yn natblygiad y Cynllun Twf. Mae'r partneriaid wedi dilyn proses iteraidd, gadarn i drosi'r Weledigaeth Twf gyffredinol yn gyfres o ymyraethau a fydd yn mynd i'r afael â'r amcanion gwario sydd wedi'u hadnabod yn y dull mwyaf effeithiol ac effeithlon. I grynhoi, mae pedwar cam wedi bod:

- **2016: Ystyried opsiynau strategol.** Gosod y paramedrau cyffredinol ar lefel strategol ar gyfer buddsoddiadau'r Cynllun Twf gan ddefnyddio cyfres o Ffactorau Llwyddiant Hanfodol.
- **2018: Datblygu'r cynigion**. Datblygu hyn yn rhestr hir o ymyraethau prosiect a ddyluniwyd i fynd i'r afael â'r amcanion gwario a'r Ffactorau Llwyddiant Hanfodol
- **2019: Cynllun Gweithredu Drafft**. Cafodd y rhestr hir ei fireinio mewn ymateb i adborth Llywodraeth y DU ar yr angen am gyfres lai o brosiectau mwy.
- **2019: Adolygu'r Cynllun Terfynol**. Mae'r gyfres olaf o ymyraethau'r Cynllun Twf wedi'i chyflawni drwy adolygiad pellach gan y Bwrdd Uchelgais a'i bartneriaid, gan ystyried amodau'r farchnad a chydweddiad y polisi.

Ffigwr 3.1 Proses Ddatblygu Opsiynau'r Prosiect




## Dewisiadau Strategol

3.4. Gan dynnu ar ddadansoddiad o'r angen a methiant y farchnad, bu i'r Bwrdd adnabod Rhaglenni Strategol o fewn Gweledigaeth Gogledd Cymru i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r economi rhanbarthol, ynghyd ag ecsbloetio'r cyfleoedd. Mae'r rhaglenni hyn yn grŵp o brosiectau rhyng-gysylltiedig a rhyng-ddibynnol i'w rheoli mewn ffordd gydlynol, ac maent wedi'u diffinio yng nghyd-destun y Weledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru.

3.5. Ystyriwyd a gwerthuswyd nifer o opsiynau strategol realistig a chyraeddadwy er mwyn hysbysu sut allai'r Cynllun Twf fynd i'r afael â heriau economaidd y rhanbarth yn y ffordd orau. Roedd hyn yn ystyried pethau o ran targedu sector a gofodol buddsoddiadau'r Cynllun Twf. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod:

- **Opsiwn 1: Y Newid Lleiaf.** Byddai hyn yn cynnwys parhad o ymdriniaethau datganoledig cyfredol yn y Gogledd, gyda pharhad o flaenoriaethau ac agendau gwahanol a diffyg nodau trosfwaol a rennir ar draws sefydliadau. Teimlwyd y byddai hyn yn llesteirio cyfleoedd ac mai arloesedd ac uchelgais cyfyngedig fyddai'n dod yn ei sgil, ac y byddai lefelau cynhyrchedd yn parhau i fod ar ôl gweddill y DU.
- **Opsiwn 2: Canolbwyntio'n llwyr ar sectorau economaidd allweddol.** Mae'r achos strategol wedi adnabod cyfres benodol o anghenion a chyfleoedd ar gyfer ein sectorau allweddol, ac rydym yn hyderus y gallwn wella cynhyrchedd drwy roi sylw i'r rhain yn unig. Fodd bynnag, byddai hyn yn peri risg o eithrio mwyafrif o'r farchnad lafur. Mae datblygiadau gyda datgarboneiddio ac awtomeiddio yn trawsffurfio diwydiannau ac yn gyrru trefnau cydweithio newydd ar draws sectorau yn gynyddol.
- **Opsiwn 3: Canolbwyntio ar yr economi sylfaen, yn benodol y sectorau gofal, twristiaeth a manwerthu.** Byddai canolbwyntio fel arall ar y sector, megis hyn, yn cefnogi asgwrn cefn yr economi leol yn y rhanbarth, a byddai'n helpu mentrau bychan ac, yn aml, bregus sydd wedi'u hymgorffori mewn cymunedau lleol i gynyddu eu cynhyrchedd. Fodd bynnag, mae peryg na fyddai ymagwedd o'r fath yn cynhyrchu'r lefelau twf y byddai eu hangen yn yr economi – ac, yn ogystal, byddai pryderon ynghylch ansawdd y cyfleoedd cyflogaeth ledled y rhanbarth.
- **Opsiwn 4: Canolbwyntio ar ardaloedd sy'n cynnig cyfleoedd lle mae'r sector preifat eisoes yn gryf** – megis yr ardaloedd Trawsffiniol. Yn sicr, byddai'r opsiwn hwn yn cyflawni twf economaidd ac yn gwella cynhyrchedd – ond mae peryg i or-grynhoi mewn un ardal benodol ar draul ardaloedd eraill yn y rhanbarth.

- **Opsiwn 5: Canolbwyntio ar dwf y gellir ei ymestyn a'i wasgaru ledled y rhanbarth i gyflawni twf economaidd cynaliadwy, cytbwys a chynhwysol**. Byddai hyn hefyd yn canolbwyntio ar fanteisio i'r eithaf ar lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel, megis gweithgynhyrchu uwch ac ynni, a'n cyswllt ag economïau Pwerdy'r Gogledd ac Iwerddon. Byddai'r ymagwedd hon yn datblygu economi mwy cytbwys ac yn cyflawni twf cynhwysol fel y gellir mynd i'r afael ag unrhyw anghysonderau. Byddai'n arwain at ddosbarthiad tecach o fuddion twf economaidd - ar lefel unigol a rhwng gwahanol rannau o'r rhanbarth. Hefyd, bydd yn creu'r hinsawdd i roi hwb i gynhyrchedd ledled y rhanbarth a gwneud y gorau o gyfleoedd i'r farchnad lafur.

3.6. Mae asesiad o'r opsiynau strategol hyn yn erbyn y Ffactorau Llwyddiant Hanfodol wedi'i nodi isod.

Tabl 3.1 Crynodeb o Asesiad o'r Opsiynau Strategol

| Gweithrediad | Ecwiti | Ychwanegu gwerth | Addasrwydd Strategol | Diddordeb y sector preifat |
|---|---|---|---|---|
| Gwneud dim / Isafswm | ✗ | ✗ | ✗ | ✗ |
| Canolbwyntio'n llwyr ar sectorau economaidd allweddol | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Canolbwyntio'n fwy ar yr economi sylfaen, yn benodol y sectorau gofal, twristiaeth a manwerthu | ✓ | ✗ | ✓ | ✗ |
| Canolbwyntio'n fwy ar ardaloedd sy'n cynnig cyfleoedd lle mae'r sector preifat eisoes yn gryf – megis yr ardaloedd Trawsffiniol | ✗ | ✓ | ✓ | ✓ |
| Canolbwyntio ar dwf y gellir ei ymestyn a'i wasgaru ledled y rhanbarth i gyflawni twf economaidd cynaliadwy, cytbwys a chynhwysol | ✓ | ✓ | ✓ | ✓ |

3.7. Roedd y gwerthusiad opsiynau strategol yn bendant yn nhermau sefydlu mai'r ymagwedd a ffafrir oedd:

*"Canolbwyntio ar dwf y gellir ei ymestyn a'i wasgaru ledled y rhanbarth i gyflawni twf economaidd cynaliadwy, cytbwys a chynhwysol".*

## Datblygu'r cynigion

### Cam 1 - Dogfen Gynnig 2018 (y rhestr hir)

3.8. Mae'r rhestr hir yn disgrifio sut y bu i'r ystod eang o raglenni a phrosiectau gael eu hadnabod gan y Bwrdd Uchelgais ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru.

3.9. Yn ystod 2017 a 2018, bu i'r Bwrdd - gan weithio ar y cyd â Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a chynrychiolwyr y sector preifat - ddatblygu *Y Ddogfen Gynnig* ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

3.10. Yn seiliedig ar Strategaeth y Weledigaeth Twf, cytunwyd ar *Y Ddogfen Gynnig* gan bartneriaid o fewn y Bwrdd ym mis Hydref 2018. Bu i hyn nodi pecyn arfaethedig o **24 prosiect trawsffurfiol ar draws 9 Rhaglen Strategol**, gan geisio £334.5m o arian cyfalaf a £8m o arian refeniw gan y Cynllun Twf. Cafodd y Rhaglenni eu diffinio fel grŵp o brosiectau cysylltiedig sydd wedi'u rheoli mewn ffordd gydlynol i sicrhau buddion a chyflawni'r Weledigaeth a'r Nodau cyffredinol.

3.11. Roedd ein hymagwedd yn seiliedig ar greu'r amodau priodol er mwyn i glystyrau economaidd gwerth uchel megis ynni, gweithgynhyrchu uwch a'r sector digidol ffynnu ac er mwyn rhoi hwb i'w cyfraniad i berfformiad yr economi yng Nghymru a'r DU. Roedd y 24 prosiect ar y cam hwn yn cael eu hystyried fel rhestr hir ac fe ystyriwyd y rhestr fel dogfen fyw a fyddai'n esblygu wrth i gyfleoedd newydd godi. Cafodd y prosiectau:

- eu hadnabod drwy weithio mewn partneriaeth a chyd-gynhyrchu ymhlith partneriaid o'r sectorau cyhoeddus, addysg uwch, addysg bellach ac yn benodol y sector preifat yn y rhanbarth.
- eu dylunio i fod yn strategol a thrawsffurfiol
- eu profi gan ddefnyddio'r Ffactorau Llwyddiant Hanfodol o ran cydweddiad strategol, sut maent yn ategu mentrau presennol, gwerth am arian, cynaladwyedd masnachol, cyflawnadwyedd a chefnogaeth ac ymrwymiad y bartneriaeth.

3.12. Hefyd, ystyriwyd cyfres ychwanegol o Ffactorau Llwyddiant Hanfodol wrth lunio'r rhestr, gan gynnwys bod y prosiectau:

- wedi'u targedu'n ofodol
- yn berthnasol i'r rhanbarth cyfan
- yr hwyluswyr
- yn cefnogi twf ac yn denu buddsoddiad o'r sector preifat
- yn hyrwyddo arloesedd

3.13. Mae’r rhestr hir o raglenni a phrosiectau wedi'i rhestru isod:

Tabl 3.2 Dogfen Gynnig y Cynllun Twf (rhestr hir)

| Gweithrediad | Amcan allweddol | Prosiectau |
|---|---|---|
| Tir ac eiddo | Mynd i'r afael â'r diffyg tir ac eiddo addas ar gyfer twf busnes a dod â safleoedd ymlaen ar gyfer datblygiadau tai. | • Prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol |
| Mynediad blaengar i ynni | Cyflawni'r gwelliannau isadeiledd y mae eu hangen fel bod y Gogledd yn un o leoliadau arweiniol yn y DU ar gyfer cynhyrchu ynni, gan adeiladu'n benodol ar Brosiect Pŵer Niwclear Wylfa Newydd. | • Prosiect Porth Caergybi<br>• Prosiect Gorsaf Bŵer Trawsfynydd<br>• Prosiect Morlais<br>• Prosiect Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar |
| Twristiaeth Antur | Hwyluso buddsoddiad pellach mewn atyniadau twristiaeth antur yn y rhanbarth, gan gynyddu eu gwerth i'r economi rhanbarthol. | • Buddsoddiad Cyfalaf Twristiaeth Antur Gogledd Cymru |
| Rhaglen Canolbwynt Technoleg ac Arloesedd Blaengar | Cyflawni adnoddau o safon fyd-eang mewn cyfleusterau sy'n arwain y sector, megis ynni carbon isel a gweithgynhyrchu uwch, gan adeiladu ar arbenigedd yn y rhanbarth a sbarduno effaith economaidd o ymchwil a thechnoleg. | • Prosiect Canolfan Ragoriaeth Ynni Niwclear;<br>• Prosiect Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter<br>• Prosiect Ffatri 3D y DU;<br>• Prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon;<br>• Prosiect CanolfanCarbon Niwtral Llysfasi;<br>• Prosiect Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol ac Achredu |
| Rhaglen Cronfa a Chanolbwynt Twf Busnes Rhanbarthol | Darparu cyngor a chefnogaeth ariannol a thechnegol a chydlynol i fusnesau ledled y rhanbarth. | • Prosiect Cronfa Twf Busnes Rhanbarthol Gogledd Cymru |
| Rhaglen llwybrau i sgiliau a chyflogaeth | Mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd a chyflawni gwasanaeth cyngor a chefnogaeth sgiliau a chyflogaeth cydlynol, yn benodol i uwch-sgilio pobl ar gyfer gwaith yn y dyfodol. | • Prosiect Porth Gwybodaeth a Chyngor<br>• Llwybr Cyflogadwyedd |
| Canolfannau rhagoriaeth sgiliau | Creu'r amgylchiadau i gynyddu cyflenwad sgiliau mewn sectorau twf allweddol, gan ganolbwyntio ar wella'r isadeiledd sgiliau yn y rhanbarth. | • Prosiect Canolfan Ragoriaeth Twristiaeth a Lletygarwch Gogledd Cymru<br>• Prosiect Canolfan Ragoriaeth Peirianneg Rheilffyrdd Gogledd Cymru<br>• STEM Rhanbarthol - Prosiect Cyflawni Rhagoriaeth mewn Datblygu Sgiliau<br>• Iechyd a Gofal Cymdeithasol gydag Addysg Uwch Gogledd Cymru - Prosiect Cyflawni Rhagoriaeth;<br>• Awtomatiaeth Ddigidol Gogledd Cymru - Prosiect Cyflawni Rhagoriaeth. |
| Cysylltedd digidol | Cyflawni mynediad safonol i gysylltedd digidol effeithiol a fforddiadwy i fusnesau ac aelwydydd ledled y rhanbarth, gwella arloesedd mewn signalu digidol a gwella sgiliau digidol. | • Prosiect Cysylltedd Digidol Gogledd Cymru<br>• Prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol<br>• Prosiect Sgiliau Digidol i Ogledd Cymru |
| Trafnidiaeth strategol | Gwella'r seilwaith trafnidiaeth lleol i gefnogi hygyrchedd a chysylltedd. | • Prosiect Trafnidiaeth Strategol. |

### Cam 2 - Cynllun Gweithredu Drafft a Phenawdau'r Telerau (y rhestr fer)

3.14. Mae'r rhestr fer yn disgrifio sut y mireiniwyd y rhestr hir gychwynnol o 24 prosiect posib i gynhyrchu rhestr fer o 14 prosiect sy'n cynnwys chwe rhaglen.

3.15. Yng Nghyllideb yr Hydref 2018, bu i Ganghellor y Trysorlys, y Gwir Anrhydeddus Phillip Hammond AS, gyhoeddi £120 miliwn o gyllid ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Bu i Lywodraeth Cymru gadarnhau y byddai'n cynnig arian cyfatebol i gyfraniad ariannol Llywodraeth y DU at Gynllun Twf Gogledd Cymru.

3.16. Bu i Lywodraeth y DU gyflwyno adborth eu bod yn dymuno cefnogi nifer lai o brosiectau mwy fyddai'n cael effaith drawsnewidiol. O ganlyniad, datblygwyd *Cynllun Gweithredu Drafft* , oedd y nodi pecyn wedi'i liflinio o **14 prosiect trawsffurfiol ar draws chwe rhaglen.** Mae'r rhain wedi'u nodi isod. Cafodd prosiectau eu dethol allan o'r rhestr hir yn seiliedig ar eu sgôr yn erbyn y Ffactorau Llwyddiant Hanfodol a chafodd unrhyw brosiectau refeniw (e.e. Porth Gwybodaeth a Chyngor) eu gwaredu hefyd.

Tabl 3.3 Rhestr wedi'i mireinio o Brosiectau yn y Cynllun Gweithredu Drafft, 2019

| Gweithrediad | Amcan allweddol | Prosiectau |
|---|---|---|
| Ynni carbon isel | Bydd y Rhaglen yn gosod y Gogledd yn un o'r lleoliadau arweiniol yn y DU ar gyfer cynhyrchu ynni a buddsoddiadau yn y gadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig ag ynni, gydag arbenigedd mewn technolegau carbon isel, ynni adnewyddadwy a storio ynni. | • Prosiect Gorsaf Bŵer Trawsfynydd<br>• Prosiect Morlais<br>• Prosiect Ynni Lleol Blaengar<br>• Prosiect Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel<br>• |
| Rhaglen Gweithgynhyrchu Uwch | Bydd y Rhaglen hon yn manteisio ar y rhwydwaith cryf o gwmnïau angori sydd â phroffil rhyngwladol, ynghyd ag arbenigedd byd-eang, i roi hwb i arloesedd a thechnoleg newydd er mwyn datblygu clwstwr gweithgynhyrchu uwch pwerus - un a fydd yn hynod gystadleuol ar lwyfan rhyngwladol. Bydd y Cynllun Twf yn cyflawni adnoddau o safon fyd-eang mewn cyfleusterau sy'n arwain y sector, gan adeiladu ar arbenigedd yn y rhanbarth i wneud y gorau o effaith economaidd leol o ymchwil a thechnoleg. | • Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter;<br>• Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol<br>• |
| Rhaglen Diwydiannau'r Tir a Thwristiaeth | Bydd y rhaglen hon yn adeiladu ar y sector amaeth, bwyd a diod sydd wedi'i hen sefydlu yn y Gogledd, ynghyd â chefnogi buddsoddiad pellach mewn twristiaeth o safon uchel er mwyn ymestyn y tymor ymwelwyr. | • Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon<br>• Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi<br>• Canolfan Ragoriaeth Twristiaeth a Lletygarwch Gogledd Cymru<br>• |
| Rhaglen tir ac eiddo | Mae'r rhaglen hon yn cynnwys pecyn o Brosiectau i ddatgloi cyfleoedd twf ledled y rhanbarth a bydd yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r prinder tir ac eiddo addas er mwyn tyfu busnesau. Yn ogystal, bydd y Rhaglen yn cyflwyno safleoedd ar gyfer datblygiadau tai. | • Prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol<br>• Prosiect Porth Caergybi<br>• |
| Rhaglen Ddigidol | Bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar wella isadeiledd digidol ac arloesedd yn y rhanbarth. Bydd yn darparu mynediad safonol i gysylltedd digidol effeithiol a | • Prosiect Cysylltedd Digidol Gogledd Cymru<br>• Canolfan Prosesu Signal Digidol<br>• |

| | | |
|---|---|---|
| | fforddiadwy i fusnesau ac aelwydydd a bydd yn gwella arloesedd mewn signalu digidol | |
| Trafnidiaeth strategol | Bydd y rhaglen yn gwella hygyrchedd a chysylltedd, i'r rhanbarth a'r tu mewn iddo. | • Prosiect Datgarboneiddio Trafnidiaeth Strategol. |

3.17. Er ei bod yn parhau i fod yn allweddol i gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru, nid yw'r Rhaglen Sgiliau a Chyflogaeth yn cael ei chynnwys mwyach yng nghynnig y Cynllun Twf ar y pwynt hwn. Daeth yn amlwg yn ystod y cam negodi mai arian cyfalaf fyddai arian y Cynllun Twf, ac na fyddai unrhyw ddarpariaeth refeniw ar gael. Gan fod mwyafrif y gweithgareddau sy'n seiliedig ar sgiliau angen cyllid refeniw, penderfynodd y Bwrdd ddileu'r rhaglen o'r Cynllun Twf a chwilio am ffrydiau arian ar wahân drwy gynlluniau ategol â Llywodraeth Cymru fel bod modd cyflawni'r rhaglen.

### Cam 3 - Adolygu'r Cynllun Terfynol (y rhestr fer ddiwygiedig)

3.18. Fel rhan o'r siwrne tuag at y cynllun terfynol a datblygu Achosion Busnes Rhaglenni, cafodd Portffolio'r Cynllun Twf ei adolygu unwaith yn rhagor drwy adolygiad a gynhaliwyd gan y Swyddfa Rheoli Portffolio. Cyflwynir y portffolio terfynol o raglenni a phrosiectau isod a'r newid amlycaf sydd wedi bod yw symud y prosiect Datgarboneiddio Trafnidiaeth Rhanbarthol i'r Rhaglen Ynni Carbon Isel yn dilyn adolygiad gan y Swyddfa Rheoli Portffolio ym mis Chwefror 2020 a chymeradwyaeth ffurfiol gan y Bwrdd Uchelgais ym mis Mehefin 2020. Y rhesymeg y tu ôl i hyn yw bod y prosiect yn canolbwyntio ar ffynonellau ynni adnewyddadwy (e.e. hydrogen) fel bod modd datgarboneiddio trafnidiaeth ynghyd â'i defnyddio. Mae'r newid hwn yn symleiddio strwythur llywodraethu'r Cynllun Twf ac yn galluogi i'r Rhaglen Trafnidiaeth Strategol ail-ffocysu ar ddylanwadu ar flaenoriaethau a phrosiectau trafnidiaeth â blaenoriaeth sy'n eistedd y tu allan i'r Cynllun Twf, a'u siapio.

Tabl 3.4 Rhestr Derfynol o Brosiectau'r Cynllun Twf

| Gweithrediad | Amcan allweddol | Prosiectau |
|---|---|---|
| Ynni carbon isel | Datgloi buddion economaidd prosiectau ynni carbon isel trawsffurfiol a sefydlu'r Gogledd fel un o leoliadau arweiniol y DU ar gyfer cynhyrchu ynni carbon isel, arloesedd a buddsoddi yn y gadwyn gyflenwi | • Prosiect Gorsaf Bŵer Trawsfynydd<br>• Prosiect Morlais<br>• Prosiect Ynni Lleol Blaengar<br>• Prosiect Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel<br>• Prosiect Datgarboneiddio Trafnidiaeth Rhanbarthol |
| Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Bydd y Rhaglen hon yn manteisio ar y rhwydwaith cryf o gwmnïau angori sydd â phroffil rhyngwladol, ynghyd ag arbenigedd byd-eang, i roi hwb i arloesedd a thechnoleg newydd er mwyn datblygu clwstwr gweithgynhyrchu uwch pwerus - un a fydd yn hynod gystadleuol ar lwyfan rhyngwladol. Bydd y Cynllun Twf yn cyflawni adnoddau o safon fyd-eang mewn cyfleusterau sy'n arwain y sector, gan adeiladu ar arbenigedd yn y rhanbarth i wneud y gorau o effaith economaidd leol o ymchwil a thechnoleg | • Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter<br>• Canolfan Biotechnoleg Amgylcheddol<br>• |

| | | |
|---|---|---|
| Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth | Bydd y rhaglen hon yn adeiladu ar y sector amaeth, bwyd a diod sydd wedi'i hen sefydlu yn y Gogledd, ynghyd â chefnogi buddsoddiad pellach mewn twristiaeth o safon uchel er mwyn ymestyn y tymor ymwelwyr. | • Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon<br>• Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi<br>• Rhwydwaith talent twristiaeth |
| Rhaglen tir ac eiddo | Mae'r rhaglen hon yn cynnwys pecyn o Brosiectau i ddatgloi cyfleoedd twf ledled y rhanbarth a bydd yn mynd i'r afael yn uniongyrchol â'r prinder tir ac eiddo addas er mwyn tyfu busnesau. Yn ogystal, bydd y Rhaglen yn cyflwyno safleoedd ar gyfer datblygiadau tai. | • Prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol<br>• Prosiect Porth Caergybi<br>• |
| Rhaglen Ddigidol | Bydd y rhaglen yn canolbwyntio ar wella isadeiledd digidol ac arloesedd yn y rhanbarth. Bydd yn darparu mynediad safonol i gysylltedd digidol effeithiol a fforddiadwy i fusnesau ac aelwydydd a bydd yn gwella arloesedd mewn signalu digidol. | • Prosiect Cysylltedd Digidol Gogledd Cymru<br>• Canolfan Prosesu Signal Digidol<br>• |

3.19. Mae dwy raglen bellach sy'n allweddol i gyflawni'r Weledigaeth Twf ar gyfer Gogledd Cymru yn eistedd y tu allan i'r Cynllun Twf - Sgiliau a Chyflogaeth a Trafnidiaeth Strategol:

- **Rhaglen sgiliau a chyflogaeth**: Bydd y Rhaglen hon yn mynd i'r afael ag anweithgarwch economaidd ac yn cyflawni gwasanaeth cyngor a chefnogaeth gydlynol ar sgiliau a chyflogaeth yn y rhanbarth. Bydd yn galluogi i bobl gael mynediad i gefnogaeth yn haws ac yn fwy effeithiol er mwyn eu helpu nhw i wella eu sgiliau a chael swyddi, gan sicrhau bod gweithlu cadarn a gwydn ar gael i fodloni anghenion cyflogaeth yn y dyfodol. Yn ogystal, bydd yn cynyddu'r cyflenwad o sgiliau yn y sectorau twf allweddol, a bydd yn arfogi pobl ar gyfer y swyddi sydd wedi'u siapio gan dechnoleg y genhedlaeth nesaf, gan gynyddu sgiliau digidol yn y Gogledd.
- **Rhaglen Trafnidiaeth Strategol**: Pwrpas y Rhaglen hon yw hwyluso gwell hygyrchedd a chysylltedd i'r rhanbarth ac o'i fewn. Cyflawnir portffolio o gynlluniau i wella'r isadeiledd trafnidiaeth lleol, gan roi hwb i fynediad i gyflogaeth yn benodol. Bydd pwyntiau tagfeydd yn cael eu taclo, bydd trafnidiaeth wedi'i hintegreiddio'n well a bydd dewisiadau amgen i fynediad ar ffyrdd yn cael eu datblygu drwy'r Rhaglen hon. Un ffocws allweddol fydd datblygu canolbwyntiau trafnidiaeth integredig a chyflawni datrysiadau trafnidiaeth carbon isel mewn ardaloedd gwledig a threfol. Bydd y Rhaglen yn galluogi i fusnesau yn y rhanbarth gael mynediad gwell at farchnadoedd, nwyddau, gwasanaethau a llafur.

3.20. Yn ogystal â'r asesiad opsiynau strategol a gyflwynwyd uchod, mae pob un o'r achosion busnes lefel Rhaglen yn cynnwys ei asesiad opsiynau ei hun. Yn ogystal, bydd angen i brosiectau unigol gynhyrchu eu hachosion busnes eu hunain ar gyfer buddsoddiad yn y man, gyda disgwyliad cysylltiedig i gyflwyno asesiad opsiynau fel rhan o'u hachos gwerth am arian.

3.21. Disgrifir y gyfres lawn o brosiectau yn Atodiad C.

# Gwerthusiad Economaidd

3.22. Mae'r adran hon yn crynhoi'r gwerthusiadau economaidd ar gyfer y rhaglenni cyfansoddol. Gweler crynodeb o wybodaeth y prosiectau yn atodiadau C ac E.

## Crynodeb o'r Gwerthusiad Economaidd

3.23. Gweler isod grynodeb o'r canfyddiadau allweddol o werthusiad economaidd y Cynllun Twf.

Tabl 3.5 Tabl Gwerthuso Cryno

| | | Cynllun Twf Gogledd Cymru | Ynni carbon isel | Arloesedd mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel | Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Tir ac eiddo | Digidol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | Gwerth Cymdeithasol Presennol Net (£m) (yn cynnwys Tueddiad Optimistiaeth) | **£930 – £1,140 (£1,122 – £1,371 yn seiliedig ar gostau'r Cynllun Twf)** | £59 – £72 (£206 – £252) | £16 – £19 (£40 – £49) | £127 – £155 (£140 – £171) | £641 – £783 (£643 – £786) | £90 – £110 (£93 – £114) |
| B | Cost y sector cyhoeddus (£m, heb ddisgownt, heb gynnwys tueddiad optimistiaeth) | **£424 (£240 o'r Cynllun Twf)** | £227 (£86) | £39 (£13) | £37 (£25) | £81 (£79) | £40 (£37) |
| C | Cymhareb Cost Budd Priodol | **2.8 – 3.5 (5.0 - 6.1 Cynllun Twf yn unig)** | 1.1 – 1.4 (3.0 – 3.6) | 1.3 – 1.6 (4.0 – 4.8) | 3.8 – 4.7 (5.7 – 7.0) | 7.8 – 9.6 (8.0 – 9.8) | 2.9 – 3.6 (3.2 – 3.9) |
| D a c E | Costau/buddion arwyddocaol nad oes modd rhoi gwerth ariannol arnynt a ffactorau anfesuradwy | • Llai o $CO_2$<br>• Mewnfuddsoddi<br>• Buddion cymdeithasol/llesiant | • Llai o $CO_2$<br>• Mewnfuddsoddi<br>• Allgynyrchiadau<br>• Buddion cymdeithasol /llesiant | • Allgynyrchiadau<br>• Trosglwyddo Gwybodaeth<br>• IP/Trwyddedu<br>• Clystyru<br>• Cadw pobl ifanc | • Trosglwyddo Gwybodaeth<br>• Arallgyfeirio amaeth/twristiaeth<br>• Datblygiad clwstwr carbon isel mewn amaeth/twristiaeth/ bwyd<br>• Cadw pobl ifanc | • Codi gwerth y tir<br>• Llai o $CO_2$<br>• Buddion trafnidiaeth<br>• Buddion cymdeithasol/llesiant | • Dewis/fforddiadwyedd<br>• Buddsoddiad Preifat / Mewnol<br>• Masnacheiddio technoleg<br>• Buddion cymdeithasol/llesiant<br>• Cynaladwyedd gwledig |
| F | Costau risg yn ôl math a thueddiad optimistiaeth gweddilliol | Drwy eu hachosion busnes eu hunain, bydd disgwyl i bob prosiect ystyried ac arddangos sut maent wedi lliniaru tuedd optimistiaeth posib yn eu costiadau a'u hamserlenni arfaethedig. Yn y cam hwn, er mwyn bod yn geidwadol, rydym wedi cymhwyso'r ffactor tuedd optimistiaeth terfyn uchaf ar gyfer adeiladau safonol o ganllawiau Trysorlys EM i gostau cyfalaf ar gyfer yr holl raglenni ar **24%**. | | | | | |
| G | Newid gwerthoedd (ar gyfer yr opsiwn a ffafrir yn unig) | 70% - 89% o ddirywiad yn y rhagdybiaethau a'r buddion craidd | 70% o ddirywiad yn ein tybiaethau modelu effaith craidd | 77% o ostyngiad mewn creu swyddi | 84% o ostyngiad mewn creu swyddi a'r gwerth economaidd sy'n gysylltedig â sgiliau twristiaeth | 89% o ostyngiad mewn creu swyddi | 75% o ostyngiad mewn defnydd o fand eang sefydlog/symudol, buddion busnesau newydd a busnesau a gynhyrchir drwy'r DSP. |
| H | Hicyn amser a rheswm | Cyfnod gwerthuso 15 mlynedd wedi'i ddefnyddio<br>Bydd gan yr holl asedau isadeiledd werth gweddilliol ar y pwynt hwn | | | | | |

## Paramedrau gwerthuso allweddol

### Cyfnod Amser

3.24. Mae'r buddion a'r costau yn cael eu mesur dros gyfnod o 15 mlynedd hyd 2036 ac mae gwerthoedd yn y dyfodol yn cael eu gostwng 3.5% y flwyddyn yn unol â chanllawiau Trysorlys EM. Mae'r holl werthoedd yn cael eu mynegi ym mhrisiau cyson 2020/21.

### Elfen ychwanegol

3.25. Mae'r asesiad yn crynhoi'r buddion ychwanegol gros a net. Mae’r asesiad elfen ychwanegol yn cynnwys yr hyn a ganlyn:

- Difuddiant: buddion fyddai wedi digwydd beth bynnag heb y buddsoddiad (e.e. twf busnes na ellir ei briodoli i fuddsoddiadau'r Cynllun Twf)
- Dadleoliad: buddion sy'n cael eu dadleoli o rywle arall yn y Gogledd (e.e. drwy ail-leoli busnes presennol yng Nghymru mewn gofod llawr cyflogaeth newydd neu dwf mewn busnes a gefnogir ar draul cyfran y farchnad ar gyfer busnes arall yn y Gogledd)
- Gollyngiad: buddion sy'n cronni i drigolion a busnesau y tu allan i'r Gogledd (e.e. os yw'r swyddi newydd yn cael eu cymryd gan drigolion rhanbarth cyfagos yn Lloegr)
- Lluosyddion: buddion canlyniadol pellach a grëir mewn cadwyni cyflenwi (effeithiau anuniongyrchol) ac o wariant gweithwyr (effeithiau anwythol).

3.26. Mae manylion llawn ar sut y gweithredwyd y ffactorau hyn yn y rhaglenni wedi'u nodi yn yr Atodiad E technegol.

## Costau

### Costau sector cyhoeddus

3.27. Cyfanswm cost y prosiect ar draws yr holl raglenni yw **£1.1 biliwn** (prisiau 2020/21). O'r cyfanswm hwn, mae **£240 miliwn** yn cael ei geisio o'r Cynllun Twf, disgwylir y bydd **£184.3 miliwn** yn dod o ffynonellau sector cyhoeddus eraill ac mae **£722 miliwn** wedi'i ymrwymo gan y sector preifat. Gweler isod drawstoriad o'r costau yn ôl Rhaglen a phrosiect.

3.28. Rydym wedi disgowntio cyfanswm y costau sector cyhoeddus 3.5% i ddarparu Gwerth Presennol Net (NPV), yn unol â Chanllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM.

Tabl 3.6 Prosiectau'r Cynllun Twf (£m, prisiau 2020/21, heb ei ddisgowntio; Cost Presennol Net wedi'i ddisgowntio 3.5% y flwyddyn Dim Tueddiad Optimistiaeth)

| **Rhaglen** | **Prosiect** | **Cyfanswm buddsoddiad** | **Buddsoddiad Cynllun Twf** | **Buddsoddiad sector cyhoeddus arall** | **Holl NPC sector cyhoeddus** |
|---|---|---|---|---|---|
| Ynni carbon isel | Morlais | 36.0 | 9.0 | 27.0 | 34.2 |
| | Canolfan Ragoriaeth Economi Carbon Isel | 97.7 | 21.0 | 75.7 | 91.9 |
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | 400.0 | 20.0 | 20.0 | 36.0 |
| | Datgarboneiddio Trafnidiaeth | 28.6 | 11.4 | 11.5 | 21.7 |
| | Rhwydwaith Ynni Lleol Blaengar | 106.2 | 25.0 | 6.2 | 31.2 |
| Gweithgynhyrchu ac arloesedd gwerth uchel | Canolfan BIOTECHnoleg Amgylcheddol | 9.6 | 3.0 | 6.6 | 9.1 |
| | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | 29.8 | 9.9 | 19.8 | 28.3 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | 13.0 | 10.0 | 3.0 | 12.3 |
| | Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi | 15.4 | 10.0 | 2.7 | 12.1 |
| | Rhwydwaith TALENT Twristiaeth | 12.9 | 4.5 | 6.7 | 10.7 |
| Tir ac eiddo | Porth Caergybi | 80.0 | 35.0 | 0.0 | 32.7 |
| | Prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol | 275.4 | 44.1 | 1.9 | 42.0 |
| Digidol | Ffibr llawn | 7.2 | 6.8 | 0.0 | 6.0 |
| | Cysylltu'r % derfynol | 4.0 | 4.0 | 0.0 | 3.5 |
| | Campws Cysylltiedig | 21.0 | 21.0 | 0.0 | 18.5 |
| | Coridor Cysylltiedig | 2.2 | 2.2 | 0.0 | 1.9 |
| | Prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol | 7.3 | 3.0 | 3.1 | 5.8 |
| **Cyfanswm, Cynllun Twf Gogledd Cymru** | | **1,146.4** | **240.0** | **184.3** | **398.0** |

## Buddion wedi'u mesur

3.29. Wrth ddatblygu pob un o bum rhaglen y Cynllun Terfynol, mae asesiad lefel uchel o'r buddion economaidd perthnasol wedi'i gynhyrchu. Bydd pob un o'r rhaglenni yn cynhyrchu cyfres o fuddion sydd wedi cael eu dosbarthu fel buddion uniongyrchol, anuniongyrchol ac ehangach. Mae union natur y rhain yn amrywio rhwng y rhaglenni. Mae'r prif fathau yn cael eu crynhoi isod, yn ôl rhaglen.

3.30. Mesurau craidd ar draws yr holl raglenni a phrosiectau yw swyddi a Gwerth Ychwanegol Crynswth (GVA) a grëwyd, gan adlewyrchu amcanion gwario craidd y Cynllun Twf. Mae twf mewn GVA yn

swyddogaeth twf sector (gyda thwf cysylltiedig mewn swyddi) a gwella cynhyrchedd (e.e. wedi'i greu gan fuddsoddiadau mewn seilwaith digidol).

Ffigwr 3.2 Fframwaith Buddion




Ffynhonnell: Hatch

3.31. Mae'r asesiad budd-cost yn canolbwyntio ar y buddion economaidd uniongyrchol ac anuniongyrchol hynny lle mae modd eu meintoli a rhoi gwerth ariannol atynt yn y cam hwn. Mae'r rhain wedi'u nodi yn ôl pob rhaglen isod.

| Tabl 3.7 Buddion wedi rhoi gwerth ariannol arnynt o fewn yr Asesiad Cost Budd | | |
|---|---|---|
| | Effeithiau uniongyrchol | Effeithiau anuniongyrchol |
| Ynni carbon isel | Swyddi uniongyrchol a GVA o fewn y cyfleusterau a ddatblygwyd | Swyddi gweithredol cysylltiedig â buddsoddiad mewn seilwaith ynni newydd<br>Effeithiau cadwyn gyflenwi cysylltiedig â swyddi uniongyrchol gros |
| Arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel | Swyddi uniongyrchol a GVA o fewn y cyfleusterau a ddatblygwyd | Swyddi a GVA a grëir o fewn busnesau buddiolwyr |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Swyddi uniongyrchol a GVA o fewn y cyfleusterau a ddatblygwyd | Swyddi a GVA a grëir o fewn busnesau buddiolwyr<br>Gwerth economaidd prentisiaethau'n cwblhau eu cyfnod fel prentis |
| Tir ac eiddo | Swyddi uniongyrchol ar y safle a GVA mewn gofod llawr cyflogaeth newydd ac ym Mhorthladd Caergybi | Effeithiau cadwyn gyflenwi cysylltiedig â swyddi uniongyrchol gros |
| Digidol | Swyddi ar y safle a GVA a grëir | GVA a manteision cyflogaeth a gynhyrchwyd drwy well cynhyrchedd busnes ac arloesedd a chreu busnes |

Ffynhonnell: Hatch

3.32. Mae'r asesiad hefyd yn crynhoi effeithiau adeiladu dros dro sy'n gysylltiedig â'r buddsoddiadau cyfalaf. Er nad yw wedi'i gynnwys yn y gymhareb buddion-cost, o ystyried graddfa'r buddsoddiad, bydd y rhain yn cefnogi nifer arwyddocaol o swyddi mewn adeiladu a sectorau cysylltiedig eraill. Bydd hyn yn helpu i gefnogi'r economi ar adeg pan mae'n debygol y bydd capasiti dros ben o ganlyniad i'r argyfwng COVID-19.

3.33. Mae'r asesiad o fuddion economaidd yna'n tynnu ar yr asesiadau ar lefel rhaglen. Mae'r asesiad cost-budd ar lefel rhaglen yn defnyddio model effaith economaidd ac yn ei dro, yn seiliedig ar y tybiaethau cynllunio busnes diweddaraf ar gyfer y prosiectau cyfansoddol o fewn pob rhaglen.

3.34. Dylid nodi bod yr achosion economaidd ar gyfer prosiectau unigol o fewn y Cynllun Twf yn parhau i gael eu datblygu a byddant yn esblygu. Yn hytrach na rhagfynegi'r asesiadau hyn ar lefel prosiectau, diben y rhaglen a'r asesiad ar lefel portffolio yw nodi'r drefn ddisgwyliedig o faint yr effeithiau a'r hyn sy'n eu llywio'n danategol, er mwyn arddangos gwerth am arian. Felly, mae'r ffigyrau sy'n cael eu cyflawni ar lefel y portffolio yn cael eu mynegi fel amrediad rhesymol.

3.35. Mae'r gwerthusiadau economaidd fesul prosiect wedi'u nodi yn Atodiad E.

## Buddion gros

3.36. Gyda'i gilydd, mae disgwyl i raglenni Cynllun Twf Gogledd Cymru greu oddeutu **£3.3 i £4.0 biliwn** mewn GVA gros hyd at 2036, a **6,200 i 7,550 o swyddi cyfwerth ag amser llawn** bob blwyddyn ar raddfa sefydlog.

3.37. Gellir disgwyl i'r rhaglen tir ac eiddo fod yn brif gyfrannwr tuag at fuddion gros, gan gyfrif am oddeutu 60% o gyfanswm y rhaglen o ran GVA a 54% o ran creu cyflogaeth.

Tabl 3.8 Buddion Economaidd Gros (Mae GVA yn gronnus hyd 2036 ac wedi'i fynegi mewn prisiau 2020/21, heb ei ddisgowntio; mae swyddi yn flynyddol ar raddfa sefydlog)

| | GVA (£m) | Swyddi a grëir (cyfwerth ag amser llawn) |
|---|---|---|
| Ynni carbon isel | 440 – 540 | 780 – 950 |
| Arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel | 90 – 110 | 300 – 360 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | 470 – 580 | 640 – 780 |
| Tir ac eiddo | 1,940 - 2,380 | 3,370 – 4,110 |
| Digidol | 310 – 380 | 1,090 – 1,340 |
| Cyfanswm, Cynllun Twf Gogledd Cymru | **3,260 – 3,990** | **6,170 – 7,550** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Hatch yn seiliedig ar ddata ar lefel prosiect. Wedi'i dalgrynnu i'r £10m/10 swydd cyfwerth ag amser llawn agosaf. Mae'r amrediadau yn defnyddio lled gwall o ± 10%.

3.38. Rydym hefyd yn rhagfynegi y bydd buddsoddiadau'r Cynllun Twf yn cefnogi 11,500 o flynyddoedd o gyflogaeth person cyfwerth ag amser llawn uniongyrchol gros yn y sector adeiladu dros gyfnod adeiladu'r asedau perthnasol.

## Buddion ychwanegol net

3.39. Ar ôl ystyried y lefelau tebygol o elfen ychwanegol o fewn y prosiectau a'r rhaglenni, mae disgwyl i raglenni'r Cynllun Twf gynhyrchu cyfanswm o **£1.97 i £2.41 biliwn** mewn GVA ychwanegol net, a **3,400 i 4,200 o swyddi cyfwerth ag amser llawn ychwanegol net** bob blwyddyn ar raddfa sefydlog.

3.40. Ceir trawstoriad ar draws yr holl brosiectau yn Atodiad E.

Tabl 3.9 Buddion Economaidd Ychwanegol Net (mae GVA yn gronnus hyd 2036 ac wedi'i fynegi mewn prisiau 2020/21, heb ei ddisgowntio; mae swyddi yn flynyddol ar raddfa sefydlog)

| | GVA (£m) | Swyddi a grëir (cyfwerth ag amser llawn) |
|---|---|---|
| Ynni carbon isel | 430 - 530 | 800 – 980 |
| Arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel | 90 – 110 | 150 – 180 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | 230 – 280 | 310 – 380 |
| Tir ac eiddo | 1,060 – 1,290 | 1,870 – 2,280 |
| Digidol | 150 – 190 | 310 – 380 |
| Cyfanswm, Cynllun Twf Gogledd Cymru | **1,970 – 2,410** | **3,440 – 4,210** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Hatch yn seiliedig ar ddata ar lefel prosiect. Wedi'i dalgrynnu i'r £10m/10 swydd cyfwerth ag amser llawn agosaf. Mae'r amrediadau yn defnyddio lled gwall o ± 10%.

### Disgowntio a Thueddiad Optimistiaeth

3.41. Cyn cyfrifo'r Gymhareb Budd-Cost terfynol, rydym wedi disgowntio'r holl gostau a buddion 3.5%, yn unol â Chanllawiau Llyfr Gwyrdd Trysorlys EM.

3.42. Rydym hefyd wedi cymhwyso Tuedd Optimistiaeth i'r ffigyrau hyn. Drwy eu hachosion busnes eu hunain, bydd disgwyl i'r prosiectau hyn ystyried ac arddangos sut maent wedi lliniaru tuedd optimistiaeth posib yn eu costiadau a'u hamserlenni arfaethedig. Yn y cam hwn, er mwyn bod yn geidwadol, rydym wedi cymhwyso'r ffactor Tuedd Optimistiaeth Terfyn Uchaf o 24% i'r costau cyfalaf ar gyfer yr holl raglenni (ar gyfer adeiladau safonol).

3.43. Daw hyn â chyfanswm y gost i'r sector cyhoeddus, ar ôl tuedd optimistiaeth, i £484 miliwn (wedi'i ddisgowntio, prisiau 2020/21), lle cyfrifir am £273 miliwn gan fuddsoddiad y Cynllun Twf.

3.44. Mae'n bwysig nodi bydd Arweinydd y Prosiect ar gyfer pob rhaglen yn gyfrifol am unrhyw gostau os bydd yn gor-redeg. Bydd cyfraniad y Cynllun Twf yn cael ei gadw i'r £240miliwn sydd wedi ofyn amdano.

Tabl 3.10 Cyfanswm Cost y Sector Cyhoeddus Cyn ac Ar Ôl Cymhwyso Tuedd Optimistiaeth a Disgowntio (£m, prisiau 2020/21)

| | Cynllun Twf | Sector cyhoeddus arall | **Cyfanswm cost y sector cyhoeddus** |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm, cyn Tuedd Optimistiaeth a disgowntio | 240.0 | 184.3 | **424.3** |
| Cyfanswm, ar ôl Tuedd Optimistiaeth a disgowntio | 273.1* | 211.0 | **484.1** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Hatch yn seiliedig ar ddata ar lefel prosiect. * Nid dyma gwerth yr arian Cynllun Twf a geisiwyd, cyfrifir am unrhyw gostau uwchben y £240m drwy arian ehangach.

## Cymhareb budd-cost

3.45. Wrth dynnu'r dadansoddiad ynghyd, mae gan Raglen y Cynllun Twf amcangyfrif o gymhareb budd-cost rhwng **2.8:1 a 3.5:1**, h.y. ar gyfer pob £1 mewn buddsoddiad sector cyhoeddus (ar ôl Tuedd Optimistiaeth), mae disgwyl i'r Cynllun Twf ddychwelyd buddion economaidd ychwanegol net o rhwng £2.80 a £3.50. Mae hyn yn codi i rhwng £5.00 a £6.10 ar gyfer pob £1 o fuddsoddiad y Cynllun Twf yn unig. Mae'r trawstoriad yn ôl rhaglen yn cael ei ddarparu yn Nhabl Crynodeb y Gwerthusiad ar ddiwedd yr adran hon.

3.46. Mae hyn yn rhoi'r Cynllun Twf yn gyffredinol yn y categori gwerth "uchel" am arian, fel y diffinnir gan Lywodraeth Ganolog.22[23]

Tabl 3. 11 Cymhareb Budd-Cost (£m, prisiau 2020/21)

| | Seiliedig ar Gyfanswm Cost y Sector Cyhoeddus | Seiliedig ar Gost y Cynllun Twf yn unig |
|---|---|---|
| Buddion ychwanegol net wedi'u disgowntio | £1,370m - £1,670m | |

23Gweler, er enghraifft, https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/918481/value-for-money-supplementary-guidance-on-categories.pdf

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

| | | |
|---|---|---|
| Costau wedi'u disgowntio, ar ôl tuedd optimistiaeth | £488m | £273m |
| Gwerth Cymdeithasol Presennol Net | **£930 – £1,140** | **£1,120 - £1,370** |
| BCR | **2.8:1 - 3.5:1** | **5.0:1 - 6.1:1** |

Ffynhonnell: Cyfrifiadau Hatch yn seiliedig ar ddata ar lefel prosiect

# Dadansoddiad Risg a Sensitifrwydd

## Risg

3.47. Mae nifer o risgiau i gynhyrchu graddfa'r effeithiau a ragwelir uchod. Rydym yn nodi isod y risgiau cyffredin sy'n bodoli ar draws raglenni'r Cynllun Twf law yn llaw ag esboniad byr o'u hoblygiadau ar gyfer creu buddion a chamau lliniaru.

Tabl 3.12 Crynodeb o Risgiau Cyffredin i Greu Buddion Economaidd

| Risg | Tebygolrwydd | Effaith | Goblygiadau | Camau lliniaru |
|---|---|---|---|---|
| Defnydd a Galw | Canolig | Uchel | Lleihau'r potensial i gynhyrchu buddion defnyddwyr | Ymyrryd lle'r ydym yn gwybod bod galw ac angen yn gryf ac mewn isadeiledd sy'n hwyluso twf, cynhyrchedd ac arloesedd gefnogi gwytnwch economaidd ac adferiad. Datblygu strategaethau marchnata ar lefel rhaglen, i ymgysylltu â defnyddwyr a rhanddeiliaid. Cyflawni rhaglen a fydd yn hyblyg i anghenion defnyddwyr, yn cynnwys wrth iddynt newid mewn ymateb i COVID-19/Brexit. |
| Amgylchedd gweithredu allanol | Uchel | Canolig | Gallai amodau economaidd ansicr (e.e. o ganlyniad i COVID-19/Brexit) ostwng y gallu ymhlith busnesau / unigolion i dyfu a buddion o ymyraethau'r Cynllun Twf. | |
| Elfen ychwanegol | Isel | Canolig | Gostwng y buddion ychwanegol net sy'n ganlyniad i fuddsoddiad y Cynllun Twf | Ymyrryd lle mae'r farchnad yn amlwg yn methu, lle mae tanfuddsoddi ac mewn ymateb i anghenion lleol. |
| Creu buddion | Canolig | Canolig | (h.y. gwerth creu swyddi, y potensial i ddal y farchnad, twf busnes a chynnydd mewn cynhyrchedd) | Buddsoddi mewn technolegau sy'n ehangu cynhyrchedd, cysylltedd ac isadeiledd ac mewn cyflogaeth/clwstwr gwerth uwch gyda'r potensial am dwf yn y Gogledd. |

Ffynhonnell: Hatch

## Asesiad Sensitifrwydd

3.48. Cynhaliwyd dadansoddiad sensitifrwydd ar draws yr holl raglenni yn unigol, drwy brofi gwytnwch gwerth am arian pob rhaglen mewn ymateb i newidiadau mewn nifer o dybiaethau allweddol. Mae'r tybiaethau/amrywiaethau allweddol yn adlewyrchu'r risgiau sydd wedi'u hamlinellu uchod ac maent yn cynnwys galw a mabwysiadu, yr elfen ychwanegol, buddion cyfartalog (GVA a swyddi a grëir) a chostau'r rhaglen.

3.49. Darperir crynodeb o'r dadansoddiadau sensitifrwydd hyn yn tabl isod, gan ddethol y senario achos gwaethaf o bob rhaglen a gwneud sylw ar y ffactorau sydd wedi cael eu profi. Y neges gyffredinol yw bod y rhaglenni'n perfformio'n gadarn o ran gwerth am arian wrth wynebu nifer o brofion gwytnwch. Rydym yn darparu’r dadansoddiad sensitifrwydd manwl yr ymgymerwyd ag ef ar gyfer pob rhaglen yn Atodiad G.

| Tabl 3. 13 Crynodeb o Sensitifrwydd Ar Draws Rhaglenni'r Cynllun Twf | | | |
|---|---|---|---|
| | | GVA Ychwanegol Net NPV | BCR |
| Ynni carbon isel | Yr Achos Canolog | £329m | 3.3: 1 |
| | Yr Achos Gwaethaf | £166m | 1.6 : 1 |
| Gweithgynhyrchu ac arloesedd gwerth uchel | Yr Achos Canolog | £57m | 4.4: 1 |
| | Yr Achos Gwaethaf | £43m | 3.3 : 1 |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Yr Achos Canolog | £182m | 6.4 : 1 |
| | Yr Achos Gwaethaf | £138m | 4.8 : 1 |
| Tir ac eiddo | Yr Achos Canolog | £804m | 8.9:1 |
| | Yr Achos Gwaethaf | £535m | 5.9:1 |
| Digidol | Yr Achos Canolog | £144m | 3.5:1 |
| | Yr Achos Gwaethaf | £116m | 2.9:1 |

Ffynhonnell: Hatch

## Buddiannau Ehangach

3.50. Fel y nodwyd uchod, mae hefyd yn bwysig cydnabod bod cyfres o fuddion economaidd ehangach yn cael eu cyflawni gan y Cynllun Twf. Nid oes gwerth ariannol wedi cael eu rhoi arnynt gan na fu modd gwneud hyn mewn ffordd gadarn. Er hynny, maent yn ystyriaeth arwyddocaol yn yr achos gwerth am arian ar gyfer y rhaglenni. Mae'r rhain yn cynnwys yr isod:

- Mewnfuddsoddi
- Datblygiad sectorau allweddol a chystadleuaeth
- Cynyddu capasiti ymchwil a datblygiad
- Cadw pobl ifanc
- Cynaladwyedd gwledig.

# 4 Yr Achos Masnachol

4.1. Mae'r Achos Masnachol yn amlinellu'r strategaeth fasnachol a chaffael, trefniadau cytundebol allweddol, ynghyd ag agweddau masnachol eraill sydd o bwys materol i'r rhaglen.

## Strategaeth Fasnachol

4.2. Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi ymrwymo i wneud y mwyaf o effaith Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.3. Y prif lywiwr ar gyfer yr holl brosiectau o fewn y Cynllun Twf yw cyflawni buddion economaidd a chymdeithasol i'r Gogledd yn unol â'r deilliannau strategol a nodir yn achos busnes y portffolio. Mae'r Cynllun Twf yn ceisio gwneud y mwyaf o fuddsoddiad uniongyrchol ac anuniongyrchol y sector cyhoeddus ar draws y portffolio.

4.4. Mae'r Bwrdd Uchelgais yn cydnabod bod potensial arwyddocaol ar draws y portffolio i greu enillion masnachol ar fuddsoddiad a allai gael eu hailfuddsoddi yn y rhanbarth. Bydd disgwyl i bob achos busnes ystyried cyfleoedd am fuddsoddiadau masnachol. Gallai'r cyfleoedd hyn gynnwys darparu arian y Cynllun Twf fel benthyciad, buddsoddiad neu drefniant rhannu elw (yn amodol ar gyngor cymorth gwladwriaethol prosiect perthnasol).

4.5. Mae'r Bwrdd Uchelgais yn disgwyl cynhyrchu enillion ar fuddsoddiad ar draws y portffolio cyfan, gyda ffocws penodol ar gyfleoedd o fewn y rhaglenni Tir ac Eiddo ac Ynni Carbon Isel a fyddai'n amodol ar gytundeb Llywodraeth Cymru a'r DU i'w ailfuddsoddi yn y rhanbarth.

4.6. Mae caffael yn cynrychioli cyfle masnachol arwyddocaol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Ystyrir y cyfleoedd caffael ar y cyd lle bo hynny'n briodol ar draws y Cynllun Twf yn unol â'r strategaeth gaffael a amlinellir isod.

## Strategaeth Gaffael

4.7. Mae'r Bwrdd wedi ymrwymo i sicrhau gwerth am arian a gwneud y mwyaf o'r buddion i'r rhanbarth drwy Gynllun Twf Gogledd Cymru. Bydd caffael yn chwarae rôl allweddol yng nghyflawniad prosiectau'r Cynllun Twf, ond hefyd o ran gwireddu'r buddion i'r rhanbarth. Mae'r adran a ganlyn yn nodi'r ymagwedd y bydd y Bwrdd yn ei defnyddio o ran caffael, gyda ffocws penodol ar wneud y mwyaf o'r buddion cymdeithasol a chymunedol i'w cyflawni drwy'r gweithgarwch caffael.

### Gyrwyr Polisi

4.8. Mae'r isod yn cynrychioli rhai o'r prif yrwyr polisi sy'n gosod y fframwaith y bydd Strategaeth Gaffael y Bwrdd Uchelgais yn cyflawni yn ei herbyn:

- **Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru -** Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru yn gydran allweddol o ran cyflawni Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru. Y Weledigaeth sydd wedi'i mabwysiadu yw datblygu "rhanbarth hyderus, cydlynol sydd â thwf economaidd cynaliadwy, sy'n elwa i'r eithaf o lwyddiant sectorau economaidd gwerth uchel a'n cysylltiad ag economïau Pwerdy'r Gogledd ac Iwerddon." Seiliwyd y Weledigaeth Twf ar dair egwyddor allweddol:
    - **Gogledd Cymru Blaengar** - gan ganolbwyntio ar arloesedd mewn sectorau economaidd gwerth uchel i symud perfformiad economaidd ymlaen.
    - **Gogledd Cymru Gwydn** - gan ganolbwyntio ar gadw pobl ifanc, codi lefelau cyflogaeth a gwella sgiliau er mwyn cyflawni twf cynhwysol.

  - **Gogledd Cymru Cysylltiedig -** gan ganolbwyntio ar wella isadeiledd trafnidiaeth a digidol er mwyn gwella cysylltedd strategol i'r rhanbarth ac o'i fewn.

- **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)** - Mae'r Ddeddf yn canolbwyntio ar egwyddorion datblygiad cynaliadwy ac yn rhoi dyletswydd ar Gyrff Cyhoeddus i weithio mewn ffyrdd newydd i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ledled Cymru. Bydd y Ddeddf yn darparu fframwaith cyffredinol ar gyfer y dull caffael a byddwn yn defnyddio'r ddeddf i sicrhau ein bod yn cyd-fynd â'r egwyddorion isod fel fframwaith.

  Mae'r Ddeddf yn hyrwyddo pum ffordd o weithio - Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithio a Chynnwys, tuag at saith nod llesiant. Bydd y ffyrdd o weithio a'r saith nod llesiant yn cael eu hymgorffori ym mhob prosiect Cynllun Twf a'r holl weithgarwch caffael a bydd cyflawni'r prosiectau yn cyfrannu at y 46 o ddangosyddion cenedlaethol ar gyfer llesiant yng Nghymru https://gov.wales/well-being-wales-national-indicators.


  Fel y nodir yn adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020, gall arferion caffael cynaliadwy gan ddefnyddio'r Ddeddf fel fframwaith:

  - Leihau ein hallyriadau nwyon tŷ gwydr a chyfrannu at newid yn yr hinsawdd (Cymru Ffyniannus a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang)
  - Gwella ein hamgylchedd naturiol a gwarchod bioamrywiaeth (Cymru gydnerth)
  - Adeiladu mwy o gymunedau cydlynus gyda mentrau cymdeithasol a mentrau bach a chanolig eu maint sy'n ffynnu (Cymru o gymunedau cydlynus)
  - Cefnogi gwell iechyd corfforol a meddylion (Cymru Iachach)
  - Darparu gwaith gweddus gydag amodau tâl teg a chyfartal (Cymru sy'n fwy cyfartal)
  - Adlewyrchu amrywiaeth a diwylliant ein holl gymunedau (Cymru ag iddi ddiwylliant bywiog ac iaith Gymraeg ffyniannus)
  - Annog dinasyddiaeth foesegol a byd-eang well (Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang)




- **Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015 -** Y fframwaith gyfreithiol caffael trosfwaol, y mae'n rhaid i'r Cyngor a'r holl gyrff cyhoeddus eraill gydymffurfio â hwy. Maent yn rhan allweddol o Bolisi Caffael Cyhoeddus Cymru ac mae angen cydymffurfio dan Reolau Gweithdrefn Contractau'r Corff Atebol.

- **Datganiad Polisi Caffael Cyhoeddus Cymru** - Cyfres o 10 egwyddor y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gaffael sector cyhoeddus gael ei gyflawni yn ei herbyn yng Nghymru.
- **Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Gyflogaeth Foesegol mewn Cadwyni Cyflenwi** - mae sicrhau ymarferion cyfreithlon a moesegol yn amlwg drwy'r holl weithgareddau comisiynu, caffael a rheoli contract ac yn y gadwyn gyflenwi.
- **Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol (gweithredu ym mis Mawrth 2021) -** Nod cyffredinol y ddyletswydd yw cyflawni gwell deilliannau i'r rheini sydd dan anfantais cymdeithasol economaidd. Cefnogir hyn drwy ddyletswydd ar sefydliadau sector cyhoeddus penodol gan sicrhau bod y rheini sy'n gwneud penderfyniadau strategol yn ystyried tystiolaeth ac effaith, ymgysylltu ac ymgynghori, deall anghenion y rheini sy'n dioddef anfanteision economaidd gymdeithasol, bod yn agored i herio a newid yr ymagwedd i wneud penderfyniadau.
- **Ffyniant i Bawb: Cymru Garbon Isel -** Cyd-fynd â'r Cytundeb Paris sy'n canolbwyntio ar symud ymlaen tuag at ddatgarboneiddio. Mae'r Cynllun yn gosod y sylfeini i Gymru drawsnewid i fod yn genedl carbon isel. Torri allyriadau a symud tuag at economi carbon isel gan sicrhau cymdeithas deg ac iach. Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn mynnu bod Llywodraeth Cymru yn lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru o leiaf 80% ar gyfer y flwyddyn 2050**.**
- **Safonau Gweithredu Masnachol y Llywodraeth** - diben y safon hon yw gosod disgwyliadau a gyrru cysondeb yn y gwaith o gynllunio, rheoli a gweithredu gweithgareddau masnachol, gan sicrhau bod contractau a pherthnasau â chyflenwyr yn arwain at werth am arian a chyflawni gwasanaethau cyhoeddus o ansawdd uchel.




*Ffynhonnell: https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/746400/Project_Delivery_Standard_1.2.pdf*

## Egwyddorion Caffael

4.9. Wedi'u mabwysiadu, bydd yr egwyddorion caffael a ganlyn yn tanategu holl weithgarwch caffael y Cynllun Twf:

- **Arweinyddiaeth Ranbarthol**
  - Byddai gan y Bwrdd Uchelgais strategaeth ac egwyddorion clir ar gyfer cyflawni arferion caffael arloesol a chynaliadwy gyda chleientiaid, contractwyr a chymunedau sy'n gweithio gyda'i gilydd
  - Bydd y Bwrdd Uchelgais yn ymgysylltu â chontractwyr a'r gadwyn gyflenwi mewn modd agored a thryloyw gyda sgwrs ddwyffordd
  - Bydd y Bwrdd Uchelgais yn hyrwyddo ac yn hybu cyfleoedd caffael cydweithredol, gan gefnogi arloesedd a thwf
  - Bydd y Bwrdd Uchelgais yn gweithio gyda Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn cefnogi cynlluniau llesiant lleol a chynlluniau gwytnwch cymunedol esblygol yn uniongyrchol ar gyfer y rhanbarth er mwyn adfer ac adeiladu'n ôl yn decach ac yn well
  - Bydd y Bwrdd Uchelgais yn hyrwydd ac yn hybu cyflawni buddion gwerth cymdeithasol a chymunedol drwy weithgarwch caffael ac yn cyd-fynd â pholisïau allweddol megis y ddyletswydd gymdeithasol economaidd a'r bil partneriaethau cymdeithasol, ac yn eu profi.
  - Bydd y Bwrdd Uchelgais yn ymgorffori 'Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol' yn yr holl weithgarwch caffael lle bo hynny'n berthnasol i'r 46 o ddangosyddion llesiant cenedlaethol i Gymru.
- **Ymgysylltu a chefnogi'r gadwyn gyflenwi a'r Economi Sylfaen**
  - Ymgysylltu mewn sgwrs ddwyffordd gyda phartneriaid, contractwyr a chymunedau a sicrhau bod anghenion a blaenoriaethau lleol a rhanbarthol yn rhan o'r cymalau gwerth cymdeithasol
  - Cefnogi a gwella mynediad i fusnesau bach a chanolig eu maint a chefnogi cydweithio rhwng y busnesau hynny o fewn y rhanbarth.
  - Cefnogaeth agored a theg i gadwyni cyflenwi lleol i ymgysylltu gyda chontractau mwy drwy sesiynau briffio cadwyni cyflenwi a chyfleoedd bidio ar y cyd a rhestr aros o brosiectau.
- **Sgiliau, swyddi a thwf**
  - Canolbwyntio ar recriwtio a hyfforddiant arloesol ac sydd wedi'i dargedu, gan weithio gyda'n partneriaid i sicrhau ein bod yn cefnogi pobl i ailhyfforddi, datblygu sgiliau newydd drwy wirfoddoli neu gyfrannu at addysg/prentisiaethau.
  - Targedu cyfleoedd ac ymgysylltu â mecanweithiau presennol i gefnogi hyn a thargedu grwpiau penodol megis pobl ifanc neu'r rheini sydd mewn ardaloedd o amddifadedd i ymgysylltu mewn addysg a dysgu/datblygu.
- **Cyfraniad i addysg a chefnogi pobl ifanc**
  - Gweithio gyda phrosiectau sy'n esblygu megis Prifysgol y Plant i gefnogi contractwyr i ymgysylltu a chyflawni datblygiadau dysgu a sgiliau i bobl ifanc.
  - Cefnogi ymgysylltu a chysylltiadau gydag ysgolion i gynnig cyfleoedd i bawb gefnogi'r Cwricwlwm 22 newydd yng Nghymru, gyda ffocws ar gynhwysiad digidol.
- **Gwytnwch a llesiant cymunedol**

    - Gweithio'n uniongyrchol gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnwys gwytnwch cymunedol ac adeiladu cyfoeth gan ddatblygu asedau yn ein cymunedau i gynnwys cefnogi iechyd meddwl cadarnhaol mewn gweithleoedd, cadwyni cyflenwi ac mewn cymunedau
    - Ymgysylltu â phartneriaethau newydd megis amgueddfeydd, theatrau a'r celfyddydau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ein hystyriaethau diwylliannol ac iaith Gymraeg yn ein cyfleoedd contract.
    - Gweithio â phartneriaid caffael a sefydliadau trydydd sector i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i adeiladu cyfoeth cymunedol.
    - Cefnogi ac ymgysylltu â'r trydydd sector mewn ymagwedd ar sail gwerth sy'n cefnogi gwytnwch yn y trydydd sector i weithio gyda chontractwyr a'r gadwyn gyflenwi a'u cefnogi.
- **Cynaliadwyedd Amgylcheddol ac Adferiad Gwyrdd**
    - Sicrhau bod gennym ystyriaethau amgylcheddol mewn cyfleoedd contract, lleihau i'r eithaf ein heffaith ar yr amgylchedd a chefnogi technolegau, ymagweddau ac arloesi newydd gyda chontractwyr a'r gadwyn gyflenwi, gyda ffocws ar yr economi cylchol.
    - Ceisio lleihau i'r eithaf ôl-troed carbon prosiectau a chefnogi'r economi carbon isel, gan ganolbwyntio ar yr ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gyflawni sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030, gan leihau nwyon tŷ gwydr, gwella ein hamgylchedd naturiol a gwarchod ein bioamrywiaeth.
- **Arloesedd ac arferion newydd**
    - Profi ac archwilio ffyrdd newydd o weithio gyda'r holl bartneriaid i geisio gwneud y mwyaf o werth cydweithio rhanbarthol
    - Sefydlu trefniadau effeithiol ar gyfer monitro effaith, archwilio'r teclyn mwyaf priodol i wneud hyn
    - Cydweithio ar draws y bartneriaeth i ddarparu adnoddau ar gyfer gweithgarwch caffael yn effeithiol a chanolbwyntio ar ddatblygu a chyflawni fforymau newydd i gefnogi capasiti a galluedd i ddefnyddio caffael fel teclyn effeithiol megis cymuned arferion ac ati.

## Gwerth Cymdeithasol a Buddion Cymunedol

4.10. Ffocws allweddol y strategaeth gaffael hon yw sicrhau ein bod yn cefnogi llesiant rhanbarthol, economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol gan weithio ar draws sectorau a chyda chontractwyr a chymunedau i sicrhau ein bod yn gwneud hyn yn y ffordd orau. Mae'r teclyn gwerth cymdeithasol sydd gennym fel rhan o'r broses gaffael yn hanfodol i gefnogi adferiad ar ôl COVID 19, gan gyd-fynd â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a pholisïau allweddol megis y dirwedd gaffael newydd yng Nghymru a'r ailadeiladu coronafeirws, rydym yn ymrwymedig i wneud y mwyaf o werth Cynllun Twf Gogledd Cymru.

4.11. Byddwn yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r tri Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y cyd (ledled y Gogledd) ac yn sicrhau y cefnogir cynlluniau a phrosiectau gwytnwch cymunedol lleol gyda chymalau cymdeithasol a nodir yn y contractau sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â thlodi ac

anghydraddoldeb, cefnogi plant a phobl ifanc, gwarchod yr amgylchedd a chefnogi iechyd meddwl a llesiant cadarnhaol. Yn yr egwyddorion sydd wedi'u gosod, byddwn yn sicrhau ein bod yn ymgysylltu â phartneriaid, contractwyr a chymunedau, bod yn agored, yn deg ac yn arloesol yn ein hymagweddau.

### Darparu Adnoddau Caffael

4.12. Arianwyr y prosiect fydd yn gyfrifol am ddarparu adnoddau ar gyfer yr holl weithgareddau caffael yn unol â Strategaeth Gaffael y Bwrdd Uchelgais a'u polisïau caffael eu hunain lle bo hynny'n briodol. Ar gyfer prosiectau rhanbarthol, bydd y Swyddfa Rhaglen yn gyfrifol am yr holl weithgareddau caffael.

4.13. Bydd Strategaeth Gaffael y Bwrdd Uchelgais yn allweddol wrth gefnogi'r rhanbarth i gyflawni'r buddion a ddymunir o'r Cynllun Twf. Bydd gan y Swyddfa Rhaglen drosolwg o'r holl weithgarwch caffael ar draws y bartneriaeth i sicrhau y cefnogir yr egwyddorion a'r ymagwedd a nodir yn y strategaeth hon yn gyson ar draws bob prosiect a bod y buddion a ddaw yn sgil y gweithgarwch caffael wedi'u mapio, eu monitro a'u huchafu.

## Perthnasau Cytundebol

### Partneriaethau Allweddol

4.14. Mae'r Bwrdd yn gweithredu fel arianwyr ar gyfer y prosiectau o fewn pum rhaglen y Cynllun Twf.

4.15. O ganlyniad, bydd angen perthynas gytundebol rhwng Cyngor Gwynedd fel y Corff Atebol ar gyfer y Bwrdd Uchelgais a'r Partneriaid Arweiniol perthnasol sy'n cyflawni'r prosiectau. Yna, bydd y Partneriaid Allweddol angen perthnasau cytundebol priodol ag unrhyw gontractwyr neu gyflenwyr sydd wedi'u caffael i gyflawni'r prosiectau.

4.16. Bydd natur y perthnasau cytundebol hyn yn cael ei nodi yn achos masnachol pob prosiect.

4.17. Bydd pob prosiect yn adrodd yn ôl i'r Bwrdd Rhaglen a'r Bwrdd Uchelgais yn unol â'r ymagwedd sydd wedi'i nodi yn yr Achos Rheoli.

### Perthnasau Rhanddeiliaid

4.18. Ar gyfer pob rhaglen Cynllun Twf, bydd y Rheolwr Rhaglen a'r Bwrdd Rhaglen yn gyfrifol am reoli perthnasau rhanddeiliaid ar lefel y rhaglen. Ar lefel y prosiect, Ariannwr y Prosiect fydd yn gyfrifol am yr ymagwedd sydd wedi'i nodi yn Achos Busnes y Prosiectau.

## Gofynion Gwasanaeth, Deilliannau a Dyraniad y Risg

4.19. Bydd gofynion gwasanaeth, deilliannau a dyraniad y risg yn cael eu gosod o fewn pob achos busnes prosiect a Arianwyr y prosiect fydd yn gyfrifol am reoli yn unol â'i strwythur a'i weithdrefnau ei hun yn unol â'r strategaethau caffael a masnachol cyffredinol a nodwyd gan y Bwrdd Uchelgais. Yn ogystal, bydd manylion penodol ynghylch sut fydd y Partneriaid Arweiniol yn rheoli eu risgiau hefyd yn cael eu nodi yn achosion busnes y prosiect.

4.20. Yn ogystal, bydd angen i brosiectau ddarparu diweddariadau rheolaidd ar weithgareddau caffael i'r Swyddfa Rheoli Portffolio a'r Bwrdd Rhaglen perthnasol.

## Mecanwaith Codi Ffi

4.21. Bydd angen i brosiectau nodi'r mecanweithiau codi ffi priodol fel rhan o achosion busnes y prosiectau. Dylai'r ymarferiad hwn gynnwys asesiad o'r mecanweithiau codi ffi priodol ar gyfer y camau cyn-cyflawni, dylunio ac adeiladu, a ph'un ai i gymhwyso pris sefydlog/mecanwaith cost, neu ddefnyddio taliad wrth gyflawni allbynnau/targedau cytunedig. Er mwyn gwarchod y gadwyn cyflenwi a sicrhau taliad teg a phrydlon, bydd angen i brosiectau roi Cyfrifon Banc y Prosiect (PBA) yn eu lle ar gyfer yr holl weithgareddau caffael arwyddocaol. Mae'r gofyniad hwn yn unol â pholisi Llywodraeth Cymru.

## Perchnogaeth Asedau, Rheoli a'r Ymdriniaeth Gyfrifeg

### Perchnogaeth

4.22. Bydd yr asedau a gyflawnir drwy'r rhaglenni yn bennaf yn eiddo i'r Partneriaid Arweiniol. Mae'r asedau rhanbarthol yn cael eu cynnwys yn yr adran 'Yr Ymdriniaeth Gyfrifeg' isod.

### Rheoli

4.23. Arianwyr y prosiect fydd yn gyfrifol am reoli, cyflawni adnoddau, cyflwyno gwasanaeth a chynnal yr asedau a gyflawnir drwy'r rhaglen.

### Yr Ymdriniaeth Gyfrifeg

4.24. Mae’r asedau sydd â sylwedd ffisegol ac sy'n cael eu dal i'w defnyddio i gynhyrchu neu gyflenwi nwyddau neu wasanaethau, i'w llogi i eraill, neu er dibenion gweinyddol ac lle mae disgwyl iddynt gael eu defnyddio mewn mwy nag un flwyddyn ariannol yn cael eu dosbarthu fel Eiddo, Offer a Chyfarpar. Mae asedau a adeiladir neu a ddelir fel rhan o brosiect a gyflawnir o fewn y portffolio yn cael eu datgelu a'u cynnwys ar y Fantolen, gydag Awdurdod Arweiniol y Prosiect yn gyfrifol am gyflawni y prosiect hwnnw.

4.25. Bydd asedau a adeiladir neu a ddelir fel rhan o brosiect rhanbarthol yn y portffolio yn cael eu rhannu'n bwrpasol neu'n cael eu cynnwys ar fantolen y Corff Atebol neu mewn cerbyd diben arbennig a sefydlir gan y Bwrdd Uchelgais. Ni fydd y Bwrdd Uchelgais ei hun yn dal asedau ffisegol a gwneir darpariaeth yng Nghytundeb Llywodraethu 2 ar gyfer dal a gwaredu’r asedau hynn yn y pendraw.

## Cymorth Gwladwriaethol

4.26. Bydd angen i'r Cynllun Twf, ac yn benodol y prosiectau i'w hariannu, gydymffurfio â'r rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol perthnasol sydd yn eu lle. Ar hyn o bryd, rheoliadau Cymorth Gwladwriaethol yr UE sy'n berthnasol; fodd bynnag, gan fod y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd ym mis Ionawr 2021, nodir y gallai'r rheoliadau hyn newid.

4.27. Gan fod hwn yn bortffolio cymhleth o 14 o brosiectau trawsffurfiol sy'n cael eu cyflawni ar draws pum rhaglen, cydnabyddir y bydd ystyriaethau cymorth gwladwriaethol gwahanol yn berthnasol i brosiectau gwahanol.

4.28. Bydd goblygiadau Cymorth Gwladwriaethol prosiectau penodol yn cael eu hystyried yn fanwl wrth ddatblygu achosion busnes y prosiect a bydd cyngor cyfreithiol penodol yn cael ei geisio lle bo'r angen.

4.29. Bydd y cyngor Cymorth Gwladwriaethol a dderbynnir fel rhan o'r gwaith o ddatblygu achosion busnes y prosiectau yn hysbysu'r modelau ariannu y gallai'r Bwrdd Uchelgais eu hystyried ar gyfer pob prosiect.

## Goblygiadau Personél

4.30. **Lefel Portffolio a Rhaglen** - Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi creu ac wedi rhoi adnoddau i Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO) i gymryd trosolwg o gyflawniad y Cynllun Twf. Bydd yr adnoddau hyn yn gyfrifol am gyflawni'r portffolio cyffredinol ac ar gyfer trefniadau rheoli'r rhaglen.

4.31. **Lefel Prosiect** - Bydd pob Ariannwr Prosiect yn gyfrifol am sicrhau bod yr adnoddau cywir yn eu lle ar gyfer cyflawni'r prosiectau. O ran y prosiectau rhanbarthol lle mai'r Bwrdd Uchelgais yw'r Ariannwr prosiect, bydd yr adnoddau hyn yn cael eu darparu gan y Swyddfa Rheoli Portffolio.

# 5 Yr Achos Ariannol

## Gofynion Cyfalaf a Refeniw

### Gofynion Cyfalaf

5.1. Mae Cynllun Twf Gogledd Cymru'n seiliedig ar gyflawni 14 o brosiectau ar draws pum rhaglen a rhagwelir y bydd cyfanswm y gwariant cyfalaf yn £1.1 biliwn, gyda £240 miliwn ohono'n dod o'r Cynllun Twf a'r gweddill yn cael ei ddarparu gan bartneriaid y sector cyhoeddus a phreifat.

5.2. Mae'r gofynion gwariant cyfalaf yn seiliedig ar yr achosion busnes prosiectau diweddaraf sydd ar gael ac sydd wedi'u hagregu i fyny i ddarparu amcangyfrifon ar gyfer y rhaglenni.


5.3. Darperir trawstoriad o'r gwariant cyfalaf isod.

5.4. Bydd Arweinydd y Prosiect ar gyfer pob rhaglen yn gyfrifol am unrhyw gostau os bydd yn gor-redeg. Bydd cyfraniad y Cynllun Twf yn cael ei gadw i'r £240miliwn sydd wedi ofyn amdano.

| Prosiect | | Ariannwr y prosiect | Buddsoddiad Cynllun Twf (£m) | Buddsoddiad Sector Cyhoeddus Arall ($) | Buddsoddiad Sector Preifat (£) | Cyfanswm Buddsoddiad Cyfalaf (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhaglen Ddigidol** | | | | | | |
| Prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol | | Prifysgol Bangor | 3.0 | 3.1 | 1.1 | **7.3** |
| Prosiect Cysylltedd Digidol | Ffibr llawn mewn safleoedd allweddol | Y BWRDD UCHELGAIS | 6.8 | - | 411.0 | **7.2** |
| | Coridor Cysylltiedig | Y BWRDD UCHELGAIS | 2.2 | - | - | **2.2** |
| | Cysylltedd Uwch ('Campws Cysylltiedig') | Y BWRDD UCHELGAIS | 21.0 | - | - | **21.0** |
| | Yr ychydig % olaf | Y BWRDD UCHELGAIS | 4.0 | - | - | **4.0** |
| **Rhaglen Ynni Carbon Isel** | | | | | | |
| Morlais | | Menter Môn | 9.0 | 27.0 | - | **36.0** |
| Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | | Prifysgol Bangor | 21.0 | 75.7 | 1.0 | **97.7** |
| Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | | I'w Gadarnhau - Llywodraeth Cymru | 20.0 | 20.0 | 360.0 | **400.0** |

<table>
<tr><th colspan="2">Prosiect</th><th>Ariannwr y prosiect</th><th>Buddsoddiad Cynllun Twf (£m)</th><th>Buddsoddiad Sector Cyhoeddus Arall ($)</th><th>Buddsoddiad Sector Preifat (£)</th><th>Cyfanswm Buddsoddiad Cyfalaf (£)</th></tr>
<tr><td colspan="2">Datgarboneiddio Trafnidiaeth</td><td>Y BWRDD UCHELGAIS</td><td>11.4</td><td>11.5</td><td>5.7</td><td>28.6</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ynni Lleol Blaengar</td><td>Y BWRDD UCHELGAIS</td><td>25.0</td><td>6.2</td><td>75.0</td><td>106.2</td></tr>
<tr><td colspan="7">Rhaglen Tir ac Eiddo</td></tr>
<tr><td colspan="2">Porth Caergybi</td><td>Stena Line</td><td>35.0</td><td>-</td><td>£45.0</td><td>80.0</td></tr>
<tr><td rowspan="5">Prosiect Tir ac Eiddo</td><td>Warren Hall</td><td>BWRDD UCHELGAIS/LIC</td><td>15.0</td><td>-</td><td>£55.0</td><td>70.0</td></tr>
<tr><td>Cyn Ysbyty Gogledd Cymru, Dinbych</td><td>Bwrdd Uchelgais/Jones Bros Ltd/Cyngor Sir Ddinbych</td><td>4.0</td><td>-</td><td>£70.0</td><td>74.0</td></tr>
<tr><td>KSS, Bodelwyddan</td><td>Y BWRDD UCHELGAIS</td><td>10.0</td><td>-</td><td>£72.0</td><td>82.0</td></tr>
<tr><td>Parc Bryn Cegin</td><td>BWRDD UCHELGAIS/LIC</td><td>6.0</td><td>-</td><td>-</td><td>6.0</td></tr>
<tr><td>Porth y Gorllewin, Wrecsam</td><td>Bwrdd Uchelgais/Cyngor Wrecsam</td><td>9.1</td><td>£1.9</td><td>£32.4</td><td>43.4</td></tr>
<tr><td colspan="7">Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel</td></tr>
<tr><td colspan="2">Canolfan BIOTECHnoleg Amgylcheddol</td><td>Prifysgol Bangor</td><td>3.0</td><td>6.6</td><td>-</td><td>9.6</td></tr>
<tr><td colspan="2">Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter</td><td>Prifysgol Glyndŵr</td><td>10.0</td><td>19.9</td><td>-</td><td>29.8</td></tr>
<tr><td colspan="7">Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth</td></tr>
<tr><td colspan="2">Prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon</td><td>Grŵp Llandrillo Menai</td><td>10.0</td><td>3.0</td><td></td><td>13.0</td></tr>
<tr><td colspan="2">Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi</td><td>Coleg Cambria</td><td>10.0</td><td>2.7</td><td>2.7</td><td>15.4</td></tr>
<tr><td colspan="2">Rhwydwaith TALENT Twristiaeth</td><td>Grŵp Llandrillo Menai</td><td>4.5</td><td>6.7</td><td>1.7</td><td>13.0</td></tr>
<tr><td colspan="7"></td></tr>
<tr><td colspan="3">CYFANSWM Y CYNLLUN TWF</td><td>240.0</td><td>184.3</td><td>722.1</td><td>1,146.4</td></tr>
</table>

Ffigwr 5.1 Dosbarthiad Cyllido Cynllun Twf Gogledd Cymru




Ffynhonnell: Hatch

## Gofynion Refeniw

5.5. Nid oes unrhyw gyllid refeniw yn cael ei ddarparu drwy'r Cynllun Twf ar gyfer cyflawni'r prosiectau neu gostau rhedeg gweithredol y prosiectau unwaith y byddant wedi'u cwblhau.

5.6. Mae'r cyllid refeniw i gefnogi'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn cael ei ddarparu drwy gyfraniadau partner y Bwrdd Uchelgais (yn cynnwys cyfraniadau atodol Awdurdodau Lleol) ac mae cyllid ESF ychwanegol hefyd wedi'i sicrhau ar gyfer y tair blynedd weithredol gyntaf (o fis Mai 2020). Hefyd gellir defnyddio swm sydd gyfwerth â 'haenen uchaf' y grantiau llywodraeth blynyddol ar 1.5% i ariannu hyn, yn amodol ar hyblygrwydd Llywodraeth Cymru i reoli cyllid. Bydd unrhyw gostau Swyddfa Rheoli Portffolio ychwanegol a briodolir yn uniongyrchol i gyflawni'r prosiectau yn cael eu cynnwys o fewn achosion busnes y prosiectau.

5.7. Arianwyr y prosiectau sy'n gyfrifol am ofynion refeniw gweithredol y prosiectau unwaith y bydd y gwariant cyfalaf wedi'i gwblhau, ar gyfer pob prosiect. Am ragor o fanylion ynghylch costau gweithredol, gweler Achosion Busnes y Rhaglenni.

## Crynodeb Incwm a Gwariant


5.8. Mae cyfanswm cyfraniad grant o £240m i Gynllun Twf Gogledd Cymru yn cael ei ddarparu gan Lywodraethau'r DU a Chymru dros gyfnod o 15 mlynedd.

5.9. Ni fydd y Corff Atebol yn rhyddhau'r cyllid ar gyfer prosiectau hyd nes y bydd y Bwrdd Uchelgais wedi cymeradwyo achosion busnes y prosiectau. Bydd y trefniadau ar gyfer tynnu cyllid i lawr gan y Bwrdd Uchelgais i'r Partneriaid Arweiniol wedi'i nodi yn achos busnes y prosiect.

5.10. Yn sgil natur taliadau grant blynyddol y Cynllun Twf gan y llywodraeth, mae bwlch cyllido byr-dymor yn bodoli rhwng proffil gwariant disgwyliedig y Cynllun Twf a'r cyllid a dderbynnir. Bydd y Bwrdd Uchelgais, drwy'r Corff Atebol, yn gyfrifol am reoli'r llif arian negyddol hwn.

5.11. Dangosir rhagolwg Incwm a Gwariant y Portffolio yn ffigwr 5.2. isod. Mae hwn yn ymdrin â llif cyllid y Cynllun Twf o'r Bwrdd Uchelgais i Bartneriaid Arweiniol a'r grant a dderbynnir gan Lywodraeth Cymru a'r DU. Nid yw'n dangos cyfanswm gwariant y prosiectau.

Ffigwr 5.2 Cyllid y Cynllun Twf - Proffil Incwm a Gwariant




Ffynhonnell: Hatch

5.12. Mae'r Bwrdd Uchelgais a'r Corff Atebol wedi gweithio gydag Arlingclose i fodelu cost y benthyca sydd ei angen yn fynegol i hwyluso'r llif arian negyddol ar gyfer y Cynllun Twf a'r cyfraniadau blynyddol cyfatebol sydd eu hagen gan y partneriaid i gwrdd â'r gost hon. Wrth fodelu'r gwaith hwn, mae'r Bwrdd Uchelgais wedi mabwysiadu'r egwyddor y byddent ond yn benthyca pan fyddai angen (h.y. i gyllido'r prosiectau) er mwyn cyflawni'r gwerth gorau ar gyfer arian cyhoeddus. Gydag ystod o dybiaethau i'w hystyried, mae'r Bwrdd Uchelgais wedi modelu senario achos gorau a gwaethaf, i adlewyrchu amseriad cwblhau'r Cynllun Twf ac amseriad canlyniadol cyllid grant y llywodraethau. Bydd y Bwrdd Uchelgais yn defnyddio ei grant NNDR a gedwir gan Lywodraeth Cymru i'r osod yn erbyn y llif arian negyddol gyda'r cyfanswm cost net (£11.21m - 16.44m) yn cael ei ysgwyddo gan yr awdurdodau lleol (yn gymesurol i'r boblogaeth) fydd yn cwrdd â'r gost sy'n weddill ar gyfer prosiectau rhanbarthol y Bwrdd Uchelgais a chyda phartneriaid arweiniol y prosiectau yn gyfrifol am gost mewn perthynas â'u prosiect nhw.

## Aeddfedrwydd y Prosiect

5.13. Ar hyn o bryd, mae'r prosiectau o fewn y Cynllun Twf ar wahanol lefelau o aeddfedrwydd, fel y dangosir yn y tabl isod.

Tabl 5.1 Aeddfedrwydd y Prosiect

| Prosiect | Cam Achos Busnes | Crynodeb |
|---|---|---|
| Prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol | **ACHOS BUSNES AMLINELLOL** | Mae'r prosiect yn datblygu Achos Busnes Amlinellol ar hyn o bryd i'w gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais am gymeradwyaeth. |
| Prosiect Cysylltedd Digidol | **ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL** | Mae'r pedwar prosiect yn barod i fwrw ymlaen i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol. |
| Morlais | **ACHOS BUSNES AMLINELLOL** | Mae'r prosiect yn bwrw ymlaen i'r cam Achos Busnes Amlinellol ar hyn o bryd. |
| Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | **ACHOS BUSNES AMLINELLOL** | Mae'r prosiect yn bwrw ymlaen i'r cam Achos Busnes Amlinellol. |
| Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | **ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL** | Mae'r prosiect yng nghamau cynnar ei ddatblygu. |
| Datgarboneiddio Trafnidiaeth | **ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL** | Mae'r prosiect yn y cam cysyniadol ar hyn o bryd. |
| Ynni Lleol Blaengar | **ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL** | Mae'r prosiect yn y cam cysyniadol ar hyn o bryd. |
| Porth Caergybi | **Adolygu'r Prosiect** | Bydd sgôp y prosiect yn cael ei adolygu i asesu effaith economaidd a chymdeithasol Porthladd Caergybi ar y rhanbarth yng Nghymru, y DU a Gweriniaeth Iwerddon yng ngoleuni'r buddsoddiad arfaethedig i'r porthladd yn sgil y cynnydd mynegol mewn costau. |
| Prosiect Tir ac Eiddo | **ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL** | Mae'r pedwar safle yn y wedd gyntaf mewn camau gwahanol o gael eu datblygu gyda'r un mwyaf aeddfed yn barod i fwrw ymlaen i'r cam Achos Busnes Amlinellol. |
| Canolfan BIOTECHnoleg Amgylcheddol | **ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL** | Mae'r prosiect yn barod i fwrw ymlaen i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol. |
| Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | **ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL** | Mae angen gwaith pellach i ddangos sut mae mentrau presennol yn y Gogledd yn cyd-fynd cyn bwrw ymlaen i'r Achos Busnes Amlinellol. |
| Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | **ACHOS BUSNES AMLINELLOL** | Mae gan y prosiect Achos Busnes Amlinellol sydd wedi'i ddatblygu'n dda yn ei le, gyda'r angen am fân ddiwygiadau cyn cyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais am gymeradwyaeth. |
| Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi | **ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL** | Mae'r prosiect yn barod i fwrw ymlaen i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol. |
| Rhwydwaith Talent Twristiaeth | **Adolygu'r Prosiect** | Roedd Achos Busnes Amlinellol yn ei le ar gyfer y prosiect cyn Covid; fodd bynnag, bydd sgôp y prosiect yn cael ei adolygu i asesu effaith Covid-19. |

Ffynhonnell: Y BWRDD UCHELGAIS

# Cyllid Sector Preifat

5.14. Mae'r tabl isod yn rhoi trosolwg o natur a graddfa'r buddsoddiad sector preifat sydd wedi'i gynllunio ymhob prosiect.

Tabl 5.2 Crynodeb Buddsoddiad Preifat ar Lefel Prosiect

| Prosiect | Cyllid Sector Preifat Uniongyrchol (£) | Crynodeb |
|---|---|---|
| Prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol | £1.15m | Buddsoddiad gan bartneriaid technoleg yn ceisio elwa o'r cynnyrch Ymchwil a Datblygu |
| Prosiect Cysylltedd Digidol | £0.41m | Costau i'w priodoli i ddefnyddwyr busnesau bach a chanolig eu main yn lleol yn cysylltu i rwydweithiau newydd o fewn Ffibr llawn (prosiect safleoedd allweddol). Mae holl opsiynau eraill y prosiectau yn tybio 100% o fuddsoddiad gan y Bwrdd Uchelgais er mwyn cyflawni. Edrychir i mewn i'r sgôp i ddenu buddsoddiad preifat drwy achosion busnes y prosiectau. |
| Morlais | - | Dim buddsoddiad sector preifat uniongyrchol. Caiff buddsoddiad y sector preifat ei ddenu'n anuniongyrchol unwaith y bydd yr isadeiledd cysylltedd grid yn ei le, gyda datblygwyr yn buddsoddi tua £2.5-4m y MW a osodir. |
| Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | £1m | Daw y cyfraniad hwn o ystod o bartneriaid diwydiannol presennol, yn bennaf ar ffurf cyfraniadau anariannol, yn cynnwys offer cyfalaf ac arbenigedd. |
| Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | £360m | Caiff cyllid y Cynllun Twf ei fuddsoddi yn unol â chynlluniau'r safle a ddatblygir gan Gwmni Egino wrth iddynt aeddfedu. Ar yr adeg hon, tybiaeth Llywodraeth Cymru yw y bydd cyllid y Cynllun Twf yn cael ei ddefnyddio yn ystod y broses o ddatblygu'r safle sydd ei angen er mwyn cyrraedd Penderfyniad Buddsoddiad Terfynol. Caiff hwn ei ariannu drwy tua £360m o fuddsoddiad sector preifat, wedi'i sefydlu drwy £20m gan Lywodraeth Cymru a £20m gan y Cynllun Twf. |
| Datgarboneiddio Trafnidiaeth | £5.7m | Bydd angen cyllid y Cynllun Twf er mwyn datblygu'r ffatri cynhyrchu hydrogen a'r cyfleusterau storio cysylltiedig. Bydd buddsoddiad y sector cyhoeddus yn creu galw am hydrogen gwyrdd dry gaffael cerbydau sy'n defnyddi hydrogen fel tanwydd a gorsafoedd tanwydd.<br>Rydym yn amcangyfrif bod potensial i ddenu £5-6m ychwanegol o fuddsoddiad sector preifat drwy gaffael cerbydau trafnidiaeth teithwyr sector preifat a / neu fflydau HGV. |
| Ynni Lleol Blaengar | £75m | Tybir bod digonedd o botensial o fewn y prosiect i helpu i ddatgloi buddsoddiad sector preifat sylweddol drwy brosiectau cyllido bylchau. Am bob £1 o fuddsoddiad y Cynllun Twf, nod y prosiect yw denu o leiaf £3 gan y |

| | | |
|---|---|---|
| | | sector preifat (3:1). Fodd bynnag, drwy ymgysylltu gyda rhanddeiliaid rhanbarthol a datblygwyr prosiectau, rydym yn amcangyfrif bod potensial o fewn y prosiect i ddatgloi hyd at £200m o brosiectau dan arweiniad y sector preifat. Wrth i'r prosiect ddatblygu, bydd ystod lawn y cyfleoedd cyllido sector preifat yn cael ei chadarnhau. |
| Porth Caergybi | £45m | Cyfraniad ariannol i'r prosiect gan Stena Line. |
| Prosiect Tir ac Eiddo | £229.4m | Cyfraniad ariannol i'r prosiectau gan ddatblygwyr eiddo. |
| Canolfan BIOTECHnoleg Amgylcheddol | - | Er nad oes unrhyw fuddsoddiad uniongyrchol, mae cefnogaeth sector preifat sylweddol i'r prosiect gan ystod o bartneriaid diwydiannol sydd eisoes yn ymgysylltu â'r rhaglen CEB. |
| Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | - | Er nad oes unrhyw fuddsoddiad uniongyrchol gan y sector preifat ar yr adeg hon, mae cefnogaeth sector preifat sylweddol i'r prosiect gan ystod eang o bartneriaid diwydiannol sydd eisoes yn cydweithio â Phrifysgol Glyndŵr ac sy'n awyddus iawn i ymgysylltu'n benodol gyda'r EEOC. Mae'r rhain yn cynnwys cwmnïau megis Toyota, Solfay, DRB, Qioptic a Neva Aerospace i enwi ond rhai. |
| Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | - | Caiff Panel Rhanddeiliaid a'r Diwydiant ei sefydlu i ddarparu llwyfan strategol i gefnogi dyluniad a chyflawniad gweithredol y Canolbwynt Economi Gwledig a sicrhau y cydlynir cynllun gweithredu i gefnogi'r sector. Bydd ymglymiad y sector preifat yn hanfodol i sicrhau mewnbwn wedi'i ganolbwyntio gan y diwydiant i'r datblygiad a'r rhaglen gyflawni. |
| Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi | £2.7m | Cyfraniad o'r dechnoleg a'r offer diweddaraf gan gwmnïau partner yn y sector preifat. |
| Rhwydwaith Talent Twristiaeth | £1.7m | Buddsoddiad sector preifat yn y canolfannau porth arfaethedig - mae'r prosiect yn cael ei adolygu ar hyn o bryd. |

# Monitro a Gwerthuso

5.15. Amcangyfrifir bod cyfanswm pecyn y Cynllun Twf werth hyd at £1.1biliwn. Caiff sefyllfa gyllido Cynllun Twf Gogledd Cymru ei monitro gan Adran Gyllid Cyngor Gwynedd fel y Corf Atebol ar gyfer y Cynllun Twf gyda mewnbwn drwy'r Swyddfa Rheoli Portffolio, y Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Uchelgais. Darperir adroddiadau ariannol rheolaidd i'r Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU.

5.16. Caiff y prosesau monitro ariannol eu cytuno gyda Llywodraeth Cymru a'r DU a byddant yn unol ag arfer gorau.

5.17. Bydd gofyn i Bartneriaid Arweiniol y Prosiectau i gyflwyno hawliadau am gyllid y prosiectau yn unol â'r trefniadau a nodir yn achos busnes pob prosiect. Bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio yn gwirio ac yn tystio'r holl hawliadau cyn eu hanfon nhw at y Corff Atebol. Bydd adroddiad cynnydd, yn cynnwys asesiad o risg a chynnydd yn erbyn y targedau y cytunir arnynt, yn cyd-fynd â'r holl hawliadau am gyllid.

5.18. Gall y Corff Atebol osod gofynion monitro ychwanegol ar Bartneriaid Arweiniol y prosiectau os yw'n pennu bod hynny'n briodol. Bydd gofyn i Bartneriaid Arweiniol y Prosiectau gydymffurfio ag unrhyw ofynion adrodd ychwanegol drwy gais gan Lywodraeth Cymru a'r DU.

5.19. Bydd y Swyddfa Rheoli Portffolio, gyda mewn bwn gan Adran Gyllid y Corff Atebol, yn cynhyrchu diweddariadau ariannol chwarterol ar wariant y prosiectau yn cynnwys gwariant gwirioneddol ac arfaethedig o gefnogi rheolaeth llif arian y portffolio.

## Rheoli Risg Ariannol a Threfniadau Archwilio

### Risgiau Ariannol

5.20. Mae risgiau ariannol wedi'u cynnwys yn y Fframwaith Rheoli Risg a chânt eu rheoli'n unol â hynny ar lefel portffolio, rhaglen a phrosiect yn unol ag arfer gorau. Gweler yr 'Achos Rheoli' am ragor o wybodaeth.

5.21. Mae'r Bwrdd Uchelgais yn cynnal cofrestr risg portffolio a fydd yn cynnwys unrhyw risgiau ariannol perthnasol. Caiff risgiau ariannol ar lefel rhaglen a phrosiect eu dyrchafu i gofrestr risg y portffolio yn unol â'r fframwaith fel sydd angen. Caiff risgiau ariannol eu rheoli gan y Swyddog Adran 151 a'r Corff Atebol gan weithio'n agos gyda'r Swyddfa Rhaglen.

5.22. Ar lefel rhaglen a phrosiect, caiff y risgiau eu rheoli drwy ddefnyddio logiau RAID (Risk, Assumptions, Issues, Dependency).

5.23. Bydd y Corff Atebol a'r Swyddog Adran 151 yn adolygu unrhyw risgiau a materion ariannol a adnabyddir yn rheolaidd er mwyn adnabod unrhyw gamau sy'n angenrheidiol i'w cymryd a gwneud argymhellion i'r Bwrdd Uchelgais a/neu'r Cyfarwyddwr Rhaglen ynghylch camau i'w cymryd.

5.24. Bydd diweddariad rheolaidd ar risgiau, materion, dibyniaethau a rhyng-ddibyniaethau ariannol yn cael ei ddarparu i'r Swyddfa Rhaglen, y Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Uchelgais drwy'r Corff Atebol.

### Trefniadau Archwilio Mewnol ac Allanol

5.25. Bydd Cyngor Gwynedd, fe y Corff Atebol, yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol i'r Bwrdd Uchelgais a bydd adroddiadau archwilio yng nghyswllt y Bwrdd Uchelgais yn cael eu hystyried yn unol â'i reolau a'i arferion arferol. Bydd Archwilio Mewnol yn ymgymryd â'u gwaith gyhyd ag sy'n ymarferol gyda Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus a'r *Local Government Application Note for the United Kingdom Public Sector Internal Audit Standards*. Er osgoi amheuaeth, caiff adroddiad archwilio mewnol blynyddol ei gyflwyno gan Reolwr Archwilio'r Corff Atebol i'r Cyd-bwyllgor.

5.26. Darperir gwasanaethau Archwilio Allanol drwy Swyddfa Archwilio Cymru a fydd yn adolygu a gwneud sylwadau ar agweddau ariannol Llywodraethu Corfforaethol sy'n cynnwys cyfreithlondeb trafodion ariannol, statws ariannol, systemau Rheolaeth Ariannol Mewnol a safonau ymddygiad ariannol a thwyll a llygredd.

| Tabl 5.3 Crynodeb o Gostau Cyfalaf y Cynllun Twf | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Costau Cyfalaf** | **2020/21 (£)** | **2021/22 (£m)** | **2022/23 (£m)** | **2023/24 (£m)** | **2024/25 (£m)** | **2025/26 (£m)** | **2026/27 (£m)** |
| **Rhaglen Ynni Carbon Isel** | | | | | | | |
| | **Morlais** | | | | | | |
| Cyllid y Cynllun Twf | 0 | 3.5 | 4.0 | 1.5 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid Sector Cyhoeddus (WEFO) | 0 | 9.34 | 12.99 | 4.67m | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid Sector Preifat | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel** | | | | | | |
| Cyllid y Cynllun Twf | 0 | 3.9 | 5.78 | 8.07 | 3.24 | 0 | 0 |
| Cyllid Sector Cyhoeddus (Ll y DU, LlC, Prifysgol Bangor, Cyfraniad Grant) | 0 | 14.06 | 20.84 | 20.09 | 11.7 | 0 | 0 |
| Cyllid Sector Preifat | 0 | 0.19 | 0.28 | 0.38 | 0.12 | 0 | 0 |
| | **Gorsaf Bŵer Trawsfynydd** | | | | | | |
| Cyllid y Cynllun Twf | 0 | 0 | 5.0 | 10.0 | 5.0 | 0 | 0 |
| Cyllid Sector Cyhoeddus (Llywodraeth Cymru) | 0 | 0 | 4.0 | 4.0 | 4.0 | 4.0 | 4.0 |
| Cyllid Sector Preifat | 0 | 0 | 72.0 | 72.0 | 72.0 | 72.0 | 72.0 |
| | **Datgarboneiddio Trafnidiaeth** | | | | | | |
| Cyllid y Cynllun Twf | 0 | 2.0 | 4.0 | 4.0 | 1.4 | 0 | 0 |
| Cyllid Sector Cyhoeddus (i'w gadarnhau) | 0 | 0 | 0 | 5.73 | 5.73 | 0 | 0 |
| Cyllid Sector Preifat | 0 | 0 | 0 | 2.83 | 2.83 | 0 | 0 |
| | **Ynni Lleol Blaengar** | | | | | | |
| Cyllid y Cynllun Twf | 0 | 4.0 | 8.0 | 8.0 | 5.0 | 0 | 0 |
| Cyllid Sector Cyhoeddus (i'w gadarnhau) | 0 | 2.0 | 2.2 | 2.0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid Sector Preifat | 0 | 0 | 25.0 | 25.0 | 25.0 | 0 | 0 |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyfalaf y Rhaglen** | **0** | **38.99** | **164.09** | **177.3** | **136.1** | **76.0** | **76.0** |
| | | | | | | | |
| **Rhaglen Ddigidol** | | | | | | | |
| | **Prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol** | | | | | | |
| Cyllid y Cynllun Twf | 0 | 1.75 | 1.0 | 0.25 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid Sector Cyhoeddus (Bangor) | 0 | 1.86 | 1.23 | 0.2 | 0.2 | 0 | 0 |
| Cyllid Sector Preifat | 0 | 0.69 | 0.46 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **Prosiect Cysylltedd Digidol** | | | | | | |
| Cyllid y Cynllun Twf | 1.95 | 10.06 | 11.15 | 5.92 | 4.93 | 0 | 0 |
| Cyllid Sector Cyhoeddus (rhoi trawstoriad o'r ffynhonnell) | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid Sector Preifat | 0.02 | 0.18 | 0.2 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyfalaf y Rhaglen** | **1.98** | **14.53** | **14.05** | **6.19** | **4.95** | **0** | **0** |
| | | | | | | | |
| **Rhaglen Tir ac Eiddo** | | | | | | | |

| Costau Cyfalaf | 2020/21 (£) | 2021/22 (£m) | 2022/23 (£m) | 2023/24 (£m) | 2024/25 (£m) | 2025/26 (£m) | 2026/27 (£m) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Porth Caergybi** | | | | | | |
| Cyllid y Cynllun Twf | **0** | **11.5** | **14.0** | 9.5 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid Sector Cyhoeddus (N/A) | **0** | **0** | **0** | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid Sector Preifat | **0** | **15.0** | **18.0** | **12.0** | 0 | 0 | 0 |
| | **Prosiect Tir ac Eiddo** | | | | | | |
| Cyllid y Cynllun Twf | 0 | 6.35 | 10.75 | 15.5 | 11.5 | 0 | 0 |
| Cyllid Sector Cyhoeddus (rhoi trawstoriad o'r ffynhonnell) | 0 | 0 | 1.9 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid Sector Preifat | 0 | 6.5 | 19.0 | 19.0 | 27.0 | 22.0 | 26.7 |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyfalaf y Rhaglen*** | **0** | **39.35** | **63.65** | **56.0** | **38.5** | **22.0** | **26.7** |
| ***** *Gweler Achos Busnes y Rhaglen ar gyfer buddsoddiad parhaus gan y sector preifat y tu hwnt i 2026/27* | | | | | | | |
| **Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel** | | | | | | | |
| | **Canolfan BIOTECHnoleg Amgylcheddol** | | | | | | |
| Cyllid y Cynllun Twf | 0 | 0 | 0.9 | 2.1 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid Sector Cyhoeddus (Bangor/ERDF) | 4.74 | 0.44 | 0.77 | 0.7 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid Sector Preifat | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter** | | | | | | |
| Cyllid y Cynllun Twf | 0 | 4.52 | 4.71 | 0.77 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid Sector Cyhoeddus (Prifysgol Glyndŵr) | 0 | 4.63 | 4.56 | 3.89 | 3.99 | 2.67 | 0 |
| Cyllid Sector Preifat | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyfalaf y Rhaglen** | 4.74 | 9.59 | 10.9 | 6.76 | 3.99 | 2.67 | 0 |
| | | | | | | | |
| **Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth** | | | | | | | |
| | **Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon** | | | | | | |
| Cyllid y Cynllun Twf | 0.5 | 6.5 | 3.0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid Sector Cyhoeddus (GLlM) | 1.2 | 1.0 | 0.8 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid Sector Preifat | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | **Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi** | | | | | | |
| Cyllid y Cynllun Twf | 0 | 0 | 5.0 | 5.0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid Sector Cyhoeddus (Coleg Cambria) | 0 | 0 | 1.0 | 1.7 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid Sector Preifat | 0 | 0 | 0 | 0.5 | 0.5 | 0.5 | 0.5 |
| | **Rhwydwaith Talent Twristiaeth** | | | | | | |
| Cyllid y Cynllun Twf | 0 | 0 | 1.5 | 1.5 | 1.5 | 0 | 0 |
| Cyllid Sector Cyhoeddus (Ysgolion 21 Ganrif) | 0 | 6.7 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyllid Sector Preifat | 0 | 0 | 0.57 | 0.57 | 0.57 | 0 | 0 |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm Cyfalaf y Rhaglen** | **1.7** | **14.2** | **11.87** | **9.27** | **2.57** | **0.5** | **0.5** |

# 6 Yr Achos Rheoli

6.1. Mae'r Achos Rheoli'n nodi sut fydd Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, drwy'r Swyddfa Rheoli Portffolio, yn rheoli a chyflawni rhaglenni a phrosiectau Cynllun Twf Gogledd Cymru yn unol ag arferion gorau. Bydd Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cael ei drin fel portffolio o raglenni a phrosiectau, gan sicrhau bod y rhaglenni a'r prosiectau yn cyd-fynd â'i gilydd fel bod modd cyflawni'r cynllun a chyflawni ei amcanion.


## Rheoli, Llywodraethu a Chydlynu

6.2. Mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu model cyflawni sy'n seiliedig ar ddull arfer gorau ar gyfer rheoli'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau fel sydd wedi'i nodi yn '*Government Functional Standard GovS 002:* Project Delivery'. Mae rheoli'r portffolio, y rhaglenni a'r prosiectau yn ffordd integredig o fodloni uchelgeisiau'r sefydliad, gan annog gwell penderfyniadau a chynyddu'r tebygolrwydd o gael deilliannau llwyddiannus.

### Strwythur Cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru

6.3 Mae'r diagram isod yn amlinellu strwythur cyflawni ar gyfer y Cynllun Twf gan adeiladu ar y strwythurau presennol sydd wedi'u rhoi yn eu lle gan Gytundeb Llywodraethu'r Bwrdd Uchelgais.

Ffigwr 6.1 Strwythur Cyflawni'r Cynllun Twf




Ffynhonnell: NWAEB

#### Lefel Strategol a Phortffolio

6.4 **Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (Grŵp Ariannu)** - Mae'r Bwrdd Uchelgais yn gweithredu fel Grŵp Ariannu (Sefydliad) a'r Corff Gwneud Penderfyniadau. Mae'r holl hawliau dan y lefel hon wedi'u dirprwyo i bartïon perthnasol fel sydd angen drwy benderfyniad ffurfiol gan y Bwrdd Uchelgais. Bydd aelod o'r Bwrdd Uchelgais yn cymryd rôl Aelod Arweiniol ar gyfer pob un o'r rhaglenni ac yn eistedd ar y Bwrdd Rhaglen perthnasol. Y Bwrdd Uchelgais fydd yn gyfrifol am ystyried a chymeradwyo achosion busnes prosiectau o fewn y portffolio a bydd y cyfrifoldeb am gyflawni'n cael ei ddirprwyo i'r byrddau rhaglen a phrosiect perthnasol.

Grŵp Cefnogaeth Weithredol (Bwrdd Portffolio) - Mae'r grŵp hwn yn parhau yn ei rôl fel y corff ymgynghorol i'r Bwrdd Uchelgais ond mae hefyd yn gweithredu fel y Bwrdd Portffolio ar gyfer y Cynllun Twf i gefnogi a herio Cyfarwyddwr Rhaglen y Cynllun Twf i sicrhau ei fod yn cael ei gyflawni. Mae uwch swyddogion o bob un o bartneriaid y Bwrdd Uchelgais yn gwasanaethu ar y grŵp. Bydd aelod o'r Grŵp Cefnogaeth Weithredol yn gweithredu fel Uwch Berchennog Cyfrifol (SRO) ar gyfer pob un o'r rhaglenni ac yn arwain y Bwrdd Rhaglen perthnasol.

**Cyfarwyddwr y Portffolio** - Mae'r Cyfarwyddwr Portffolio yn atebol i'r Bwrdd Uchelgais ar gyfer cyflawni portffolio'r Cynllun Twf.


6.5 Mae'r rolau allweddol o fewn y strwythur llywodraethu wedi'u cynnwys yn y tabl isod:

| | |
|---|---|
| **Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru** | <u>Aelodau Ffurfiol</u><br>Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn - Cadeirydd, ac Arweinydd Cyngor Gwynedd<br>Y Cynghorydd Mark Pritchard - Is-gadeirydd, ac Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam<br>Y cynghorydd Llinos Medi - Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn<br>Y Cynghorydd Ian Roberts - Arweinydd Cyngor Sir y Fflint<br>Y Cynghorydd Sam Rowlands - Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Y Cynghorydd Hugh Evans - Arweinydd Cyngor Sir Ddinbych<br><u>Ymgynghorwyr</u><br>Dafydd Evans - Grŵp Llandrillo-Menai<br>Maria Hinfelaar - Prifysgol Glyndŵr<br>Yana Williams - Coleg Cambria<br>Yr Athro Iwan Davies - Prifysgol Bangor<br>Askar Sheibani - Grŵp Cyflawni Busnes |
| **Cyfarwyddwr y Portffolio** | Alwen Williams |
| **Uwch Swyddogion Cyfrifol y Rhaglenni** | Steve Bayley - Uwch Swyddog Cyfrifol y Rhaglen Ddigidol<br>Dylan Williams - Uwch Swyddog Cyfrifol y Rhaglen Ynni Carbon Isel<br>Andrew Farrow - Uwch Swyddog Cyfrifol y Rhaglen Tir ac Eiddo<br>Jane Richardson - Uwch Swyddog Cyfrifol y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth<br>Paul Bevan - Uwch Swyddog Cyfrifol y Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel |
| **Rheolwyr Rhaglen** | Stuart Whitfield - Rheolwr Rhaglen (Digidol)<br>Henry Aron - Rheolwr Rhaglen (Ynni Carbon Isel)<br>David Mathews - Rheolwr Rhaglen (Tir ac Eiddo)<br>Robyn Lovelock – Rheolwr Rhaglen (Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth ac Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel) |

### Lefel Rhaglenni a Phrosiectau

6.6 **Swyddfa Rheoli Portffolio (PMO) -** Mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn cefnogi ac yn cydlynu gweithgareddau ar draws y rhaglenni gan weithredu fel hwb gwybodaeth a sicrhau bod dulliau adrodd, rheoli risg a materion yn gyson. Yn ogystal, mae'n gweithredu fel rôl sicrwydd werthfawr, gan roi cyngor a her i raglenni a phrosiectau. Aseinir Rheolwr Rhaglen ar gyfer pob rhaglen o blith y Swyddfa Rheoli Portffolio.

Ffigwr 6.2 Strwythur y Swyddfa Rheoli Portffolio




Ffynhonnell: Y BWRDD UCHELGAIS

6.7 **Byrddau Rhaglen -** Bydd gan bob rhaglen Fwrdd Rhaglen ffurfiol ac Uwch Berchennog Cyfrifol wedi'i benodi. Bydd y byrddau hyn yn canolbwyntio ar ddatblygu (i ddechrau) a chyflawni Achos Busnes cytûn y Rhaglenni, gyda ffocws penodol ar y buddion a'r deilliannau i'w cyflawni. Mae'r Byrddau Rhaglen yn dyrchafu i'r Bwrdd Portffolio drwy'r Cyfarwyddwr Rhaglen.

| **Bwrdd Rhaglen - Aelodau Craidd** | |
|---|---|
| **Uwch Berchennog Cyfrifol y Rhaglen** | Penodwyd o blith y Grŵp Cefnogaeth Weithredol (Bwrdd Portffolio) |
| **Dirprwy Uwch Berchennog Cyfrifol y Rhaglen** | Penodwyd o blith y Grŵp Cefnogaeth Weithredol (Bwrdd Portffolio) |
| **Rheolwr y Rhaglen** | Rheolwr y Rhaglen o fewn y Swyddfa Rheoli Portffolio |
| **Aelod Arweiniol** | Bydd un o chwe Arweinydd yr Awdurdodau Lleol sy'n gwasanaethu ar y Bwrdd Uchelgais yn gweithredu fel Aelod Arweiniol ar gyfer pob rhaglen. |
| **Cynrychiolwyr Partneriaid (uchafswm o 9)** | Cynrychiolwyr ar gyfer partneriaid y Bwrdd Uchelgais. |

| | |
|---|---|
| | |
| **Aelodau eraill nad ydynt yn rhai craidd (gallant fynychu Byrddau Rhaglen yn achlysurol)** | |
| **Swyddfa Rheoli Portffolio** | Alwen Williams - Cyfarwyddwr Rhaglen<br><br>Hedd Vaughan-Evans - Rheolwr Gweithrediadau |
| **Cynrychiolwyr Prosiect (Sefydliadau nad ydynt yn Bartneriaid)** | Cânt eu gwahodd ar ddisgresiwn yr Uwch Berchennog Cyfrifol ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda. |
| **Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol** | Cânt eu gwahodd ar ddisgresiwn yr Uwch Berchennog Cyfrifol ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda. |
| **Grŵp Cyflawni Busnes** | Cânt eu gwahodd ar ddisgresiwn yr Uwch Berchennog Cyfrifol ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda. |
| **Mynychu oherwydd Eitemau Penodol ar yr Agenda** | Cânt eu gwahodd ar ddisgresiwn yr Uwch Berchennog Cyfrifol i gyflwyno eitemau penodol ar yr agenda. |
| **Gwasanaethau Corfforaethol** | Cynrychiolwyr o'r Gwasanaethau Corfforaethol fel sydd angen e.e. Cyllid, Cyfreithiol, Caffael. |

6.8 Byrddau Prosiect - Bydd yr holl brosiectau o fewn y Cynllun Twf yn cael eu rheoli drwy Fwrdd Prosiect, gydag Uwch Berchnogion Cyfrifol a rheolwyr prosiect yn eu lle i sicrhau cyflawniad. Bydd y byrddau hyn yn canolbwyntio ar ddatblygu a chyflawni Achos Busnes cytûn y Rhaglenni, gyda ffocws penodol ar y buddion a'r deilliannau i'w cyflawni. Arianwyr y prosiectau fydd yn gyfrifol am y Prosiectau a'r Byrddau Prosiect a bydd trefniadau clir ar gyfer cyflawni prosiectau yn unol ag arferion gorau yn cael eu nodi yn achos busnes pob prosiect. Bydd prosiectau yn adrodd i'r Bwrdd Rhaglen perthnasol. Cytunir ar y Cylch Gorchwyl ar gyfer Byrddau Prosiect rhwng Ariannwr y Prosiect a'r Swyddfa Rheoli Portffolio i sicrhau bod y ddau barti'n deall y cysylltiadau priodol a'r trefniadau adrodd rhwng y prosiect a'r Bwrdd Rhaglen.

6.9 Bydd y Bwrdd Rhaglen yn cyfarfod yn fisol ac yn derbyn adroddiadau misol sy'n tynnu sylw at y cynnydd a wnaed yn erbyn pob prosiect. Bydd adroddiadau ffurfiol yn cael eu cyflwyno bob chwarter ac fe'u cyflwynir gerbron y Bwrdd Portffolio ac yna gerbron y Bwrdd Uchelgais.

6.10 Cadarnheir y trefniadau ar gyfer cyflawni prosiectau, gan gynnwys manylion y Bwrdd Prosiect, yn achosion busnes y prosiectau.

## Achosion Busnes y Prosiectau

6.11 Bydd Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cael ei lofnodi yn seiliedig ar achos busnes y portffolio a phum achos busnes rhaglen. Unwaith y ceir cytundeb ar y cynllun terfynol, gellir dwyn achosion busnes prosiectau ymlaen er ystyriaeth gan y Bwrdd Uchelgais.

6.12 Datblygir achosion busnes llawn (Model 5 Achos) ar gyfer pob prosiect o fewn Cynllun Twf Gogledd Cymru, yn unol â'r canllawiau 'Gwell Achosion Busnes' a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru a Thrysorlys EM.

6.13 Mae'r gwaith o baratoi Achos Busnes Prosiect gan ddefnyddio'r model 5 achos yn rhoi fframwaith sydd wedi'i brofi i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau a rhan-ddeiliaid, ar gyfer 'meddwl' strwythuredig a sicrwydd bod y prosiect yn darparu ac yn cyd-fynd yn strategol, yn gwneud y mwyaf o werth cyhoeddus, yn fasnachol hyfyw, yn fforddiadwy a bod modd ei ariannu dros amser.

6.14 Bydd gofyn i achosion busnes prosiect arddangos sut maent yn cyflawni yn erbyn amcanion a dyheadau Cynllun Twf Gogledd Cymru ac yn benodol yn erbyn yr achos busnes rhaglen perthnasol.

6.15 Cydnabyddir, drwy ddatblygu a chytuno ar achosion busnes portffolio a rhaglenni rhwng y Bwrdd Uchelgais a Llywodraethau'r DU/Cymru, y bydd yr achos strategol ar gyfer prosiectau wedi cael ei sefydlu.

6.16 Yn unol â'r canllawiau, y PMP fydd yn pennu pa ymagwedd tuag at yr achos busnes prosiect yw'r mwyaf addas ar gyfer pob prosiect:

6.17 Dylid ystyried y gwaith iteraidd o gynhyrchu'r Achos Busnes (Achos Amlinellol Strategol, Achos Busnes Amlinellol ac Achos Busnes Llawn) ar gyfer cynlluniau mwy a chymhleth sy'n gofyn am gaffael drwy broses gystadleuol.

6.18 Gellir ystyried cyfuno'r Achos Amlinellol Strategol a'r Achos Busnes Amlinellol lle mae'r achos dros newid wedi'i wneud ac wedi'i gytuno eisoes fel rhan o Achos Busnes y Rhaglen.

6.19 Gellir ystyried cyfuno'r Achos Busnes Amlinellol a'r Achos Busnes Llawn lle mae'r gystadleuaeth yn y llwybr caffael arfaethedig wedi'i gwneud eisoes a lle mae prisiau cadarn ar gael i gefnogi'r cynnig gwario.

6.20 Gellir ystyried Achos Cyfiawnhau Busnes ar gyfer mân wariant, sydd DDIM yn anghyfarwydd neu'n gynhennus; o fewn cyfyngiad sefydliadol y cytunwyd arnynt ar gyfer defnydd achosion busnes sengl; ac y gellir eu caffael drwy drefniant presennol lle cwblhawyd y broses gystadleuol eisoes.

6.21 Bydd pob achos busnes prosiect yn destun adolygiad porth fel y nodir yn y Cynllun Sicrwydd a Chaniatâd Integredig (IAAP).

6.22 Yn y lle cyntaf, bydd yr achosion busnes prosiect yn cael eu hystyried gan y Bwrdd Rhaglen perthnasol. Ni chyflwynir achosion busnes i'r Bwrdd Uchelgais cyn iddynt gael eu cymeradwyo gan y Bwrdd Portffolio a'r Bwrdd Rhaglen ac ar ôl cwblhau'r adolygiadau porth gofynnol. Mae Swyddfa'r Rheoli Portffolio yn cadw'r hawl i gomisiynu adolygiadau allanol o achosion busnes prosiect lle bo'r angen.

6.23 Bydd gofyn i holl achosion busnes y prosiectau gwblhau asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg, ynghyd ag asesiad effaith Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 cyn i'r Bwrdd Uchelgais eu hystyried.

## Profiad o Gyflawni

6.24 Sefydlwyd Swyddfa Rheoli Portffolio'r Bwrdd Uchelgais ym mis Ionawr 2020 i gymryd trosolwg o gyflawniad Cynllun Twf Gogledd Cymru, ei raglenni a phrosiectau penodol lle mai'r Bwrdd Uchelgais yw Ariannwr y Prosiect. Er mai newydd ei sefydlu y mae'r Swyddfa, mae gan y swyddogion gyfoeth o brofiad mewn cyflawni prosiectau cyfalaf mawr, yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, ac mae ymarferwyr rheoli rhaglen a phrosiect yn eu plith.

6.25 Mae chwe aelod o Swyddfa'r Rhaglen wedi cwblhau'r hyfforddiant Sylfaenol Gwell Achosion Busnes, gan gynnwys Cyfarwyddwr y Rhaglen, y Rheolwr Gweithrediadau a thri Rheolwr Rhaglen.

Bydd y rheolwyr rhaglen sy'n weddill a'r rheolwyr prosiect yn cwblhau'r hyfforddiant unwaith y byddant yn eu swyddi.

6.26 Yn ogystal, gall y Swyddfa Rheoli Portffolio dynnu oddi ar brofiad ac arbenigedd y bartneriaeth ehangach, yn enwedig y chwe awdurdod lleol sydd â phrofiad a record arwyddocaol o ran cyflawni prosiectau cyfalaf mawr.

## Rheoli Risg

6.27 Mae gan y Bwrdd Uchelgais Fframwaith Risg wedi'i fabwysiadu ar gyfer cyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae'r Fframwaith yn nodi sut i reoli risgiau a materion ar y lefel briodol ar draws y portffolio, gyda phrosesau dyrchafu clir yn eu lle.


6.28 Mae ymagwedd y Rhaglen at reoli risg wedi'i amlinellu yn Strategaeth Rheoli Risgiau a Materion y Cynllun Twf a'r Canllaw i Ddefnyddwyr. Mae'r ddogfen hon yn diffinio ac yn egluro'r egwyddorion rheoli risg, y cysyniadau, strwythurau, prosesau, teclynnau a'r rolau a'r cyfrifoldebau cysylltiedig a weithredir i sicrhau bod y risgiau i amcanion y Rhaglen yn cael eu rheoli'n effeithiol.

6.29 Mae'r egwyddorion allweddol a'r cysyniadau a amlinellir yn y strategaeth hon wedi'u tynnu o ddeunydd Rheoli Risg yr Achos Busnes Amlinellol. Mae'r egwyddorion a'r cysyniadau hyn wedi cael eu teilwra'n briodol ar gyfer gofynion Cynllun Twf Gogledd Cymru.

6.30 Mae'r Strategaeth Rheoli Risg a Materion ym mherchnogaeth y Swyddfa Rheoli Portffolio ac yn cael ei storio yn eu system rheoli dogfennau.

6.31 Mae'r Strategaeth yn nodi tair lefel o risg sy'n gysylltiedig â chyflawni'r Cynllun Twf:

- **Risgiau Lefel Portffolio -** Mae risg portffolio yn ddigwyddiad neu'n amod ansicr a fydd, os bydd yn digwydd, yn cael effaith ar un neu fwy o nodau strategol portffolio'r Cynllun Twf. Un gofrestr risg portffolio fydd. Y Bwrdd Uchelgais fydd perchennog y gofrestr risg hon a bydd yn cael ei rheoli gan y Swyddfa Rheoli Portffolio ar ei ran. Bydd gan y Bwrdd Uchelgais risgiau strategol ychwanegol a fydd yn eistedd y tu allan i'r fframwaith hwn ac a fydd yn ymwneud â'r Weledigaeth Twf gyffredinol ar gyfer y Gogledd.
- **Risg Lefel Rhaglen -** Mae risg rhaglen yn ddigwyddiad neu'n amod ansicr a fydd, os bydd yn digwydd, yn cael effaith ar o leiaf un budd rhaglen. Bydd gan bob rhaglen ei chofrestr risg ei hun. Y Swyddfa Rheoli Portffolio fydd perchennog y cofrestrau risg hyn a byddant yn cael eu rheoli gan y Rheolwyr Rhaglen perthnasol.
- **Risgiau Lefel Prosiect -** Mae risg prosiect yn ddigwyddiad neu'n amod ansicr a fydd, os bydd yn digwydd, yn cael effaith ar o leiaf un amcan prosiect. Bydd gan bob prosiect ei gofrestr risg ei hun. Y Partner Cyflawni Arweiniol ar gyfer y prosiect penodol fydd perchennog y cofrestrau risg hyn a byddant yn cael eu rheoli gan y Rheolwyr Prosiect perthnasol. Bydd gan Reolwyr Rhaglen fynediad a goruchwyliaeth dros yr holl gofrestrau risg prosiect o fewn eu rhaglen gyda chyfrifoldeb i herio a darparu swyddogaeth sicrwydd ansawdd.




6.32 Yn unol â'r strategaeth, sefydlir proses glir ar gyfer dyrchafu risgiau:

- **Risgiau Prosiect > Rhaglen:** Caiff risgiau prosiect o bryder sylweddol eu dyrchafu i'w hystyried fel rhan o'r Gofrestr Risg Rhaglen os ystyrir eu bod yn fygythiad i'r rhaglen ehangach a'i buddion disgwyliedig.
- **Risgiau Rhaglen > Portffolio:** Caiff risgiau rhaglen o bryder sylweddol eu dyrchafu i'w hystyried fel rhan o'r Gofrestr Risg Portffolio os ystyrir eu bod yn fygythiad i'r rhaglen ehangach a/neu nodau strategol y Bwrdd Uchelgais.

6.33 Materion yn codi ar lefelau gwahanol o fewn y Rhaglen ac yn cael eu rheoli'n unol â'u heffaith. Mae'r dull o reoli materion wedi'i nodi yn y Strategaeth Rheoli Risg a Materion ac yn adlewyrchu'r dull o reoli risg. Mae'r Strategaeth yn disgrifio'r prosesau ar gyfer mynd ati'n rhagweithiol i adnabod, asesu a rheoli materion, boed yn faterion hysbys neu annisgwyl. Mae'n nodi'r meini prawf ar gyfer categoreiddio materion yn ôl blaenoriaeth a difrifoldeb i sicrhau y rheolir materion ar y lefel briodol (Portffolio / Rhaglen / Prosiect). Hefyd, mae'n nodi'r dull tuag at olrhain a monitro materion hyd nes y byddant yn cael eu datrys.

6.34 Mae'r materion yn cael eu cofnodi ar Log RAID y Rhaglen a ddelir gan y Swyddfa Rheoli Portffolio. Y Bwrdd Rhaglen sy'n gyfrifol am y broses rheoli materion. Mae'r Rheolwr Rhaglen a'r Swyddfa Rheoli Portffolio yn darparu cefnogaeth a chyngor ar gyfer y broses.

## Rheoli Newid

6.35 Datblygir Cynllun Rheoli Newid ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

6.36 Bydd y cynllun yn mabwysiadu egwyddor debyg i'r Fframwaith Rheoli Risg a Materion, lle mae newidiadau yn cael sylw ar y lefel briodol o fewn lefelau goddefgarwch cytunedig. Cytunir ar y lefelau goddefgarwch hyn ar gyfer pob achos busnes prosiect, gyda phroses dyrchafu glir yn ei lle.

6.37 Asesir newidiadau o ran eu heffaith ariannol ond hefyd eu heffaith ar y buddion i'w cyflawni drwy'r rhaglen a'r prosiectau.

6.38 Bydd y gwaith o reoli newid ar gyfer y rhaglen yn cael ei reoli'n bennaf drwy'r Bwrdd Rhaglen a'r Bwrdd Prosiect perthnasol o fewn lefelau goddefgarwch a ddyrannwyd gan y Bwrdd Uchelgais wrth ystyried achosion busnes prosiectau.

6.39 Byddai angen dyrchafu unrhyw newidiadau arwyddocaol y tu allan i'r lefelau goddefgarwch hyn i'r Bwrdd Portffolio neu'r Bwrdd Uchelgais ac fe allai bod angen diweddaru'r achos busnes neu bod angen cwblhau gweithgareddau sicrwydd ychwanegol.

6.40 Rhaid i unrhyw brosiectau newydd neu amgen sydd i'w cyflwyno am ystyriaeth, ddangos eu bod yn cyflawni yn erbyn yr achos busnes rhaglen perthnasol ac amcanion yr achos busnes portffolio. Lle mae'r prosiectau hyn o fewn yr amlen ariannol cytunedig bresennol ar gyfer y bartneriaeth, byddai angen i'r Bwrdd Uchelgais wneud penderfyniad yn eu cylch.

6.41 Byddai prosiectau sy'n syrthio y tu allan i gylch gorchwyl achos busnes rhaglen cytunedig neu'r rhai a fyddai'n fwy na'r amlen ariannol gytunedig, yn cael eu hystyried fel 'materion a gadwyd yn ôl' ar gyfer partneriaid y Bwrdd Uchelgais.

## Gweithio mewn Partneriaeth ac Ymgysylltiad Rhanddeiliaid

6.42 Mae partneriaeth y Bwrdd Uchelgais yn cynnwys amrediad eang o randdeiliaid mewnol ac allanol sy'n allweddol i gyflawni Cynllun Twf Gogledd Cymru yn llwyddiannus. Mae'r rhain yn cynnwys partneriaid y Bwrdd Uchelgais ei hun, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU, cyrff sector cyhoeddus rhanbarthol eraill megis y Bwrdd Iechyd, cymunedau lleol, busnesau, contractwyr, is-gontractwyr, darparwyr gwasanaeth ac ymgynghorwyr allanol.

6.43 Bydd angen i bob prosiect roi Cynllun Ymgysylltu a Chyfathrebu â Rhan-ddeiliaid yn ei le.

## Llinell Amser a Cherrig Milltir

6.44 Mae'r Bwrdd Uchelgais yn ceisio cymeradwyaeth i Gynllun Twf Gogledd Cymru ym mis Rhagfyr 2020 gyda llofnodi'r Cynllun Terfynol. Yn dilyn y Cynllun Terfynol, bydd achosion busnes y prosiectau'n cael eu dwyn ymlaen er ystyriaeth y Bwrdd Uchelgais o fis Ionawr 2021 ymlaen.

6.45 Mae'r amserlen gyfredol ar gyfer cyflawni'r Cynllun Twf wedi'i chynnwys yn Atodiad F. Mae'r amserlen yn seiliedig ar y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar gyfer y prosiectau a chaiff ei diweddaru'n rheolaidd wrth i amserlenni prosiectau gael eu cadarnhau drwy'r broses o ddatblygu'r achosion busnes.

## Aeddfedrwydd y Prosiect

6.46 Ar hyn o bryd, mae'r prosiectau o fewn y Cynllun Twf ar wahanol lefelau o aeddfedrwydd, fel y dangosir yn y tabl isod.

Tabl 6.1 Aeddfedrwydd y Prosiect

| Prosiect | Cam Achos Busnes | Crynodeb |
|---|---|---|
| Prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol | **ACHOS BUSNES AMLINELLOL** | Mae'r prosiect yn datblygu Achos Busnes Amlinellol ar hyn o bryd i'w gyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais am gymeradwyaeth. |
| Prosiect Cysylltedd Digidol | **ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL** | Mae'r pedwar prosiect yn barod i fwrw ymlaen i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol. |
| Morlais | **ACHOS BUSNES AMLINELLOL** | Mae'r prosiect yn bwrw ymlaen i'r cam Achos Busnes Amlinellol ar hyn o bryd. |

| | | |
|---|---|---|
| Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | **ACHOS BUSNES AMLINELLOL** | Mae'r prosiect yn bwrw ymlaen i'r cam Achos Busnes Amlinellol. |
| Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | **ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL** | Mae'r prosiect yng nghamau cynnar ei ddatblygu. |
| Datgarboneiddio Trafnidiaeth | **ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL** | Mae'r prosiect yn y cam cysyniadol ar hyn o bryd. |
| Ynni Lleol Blaengar | **ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL** | Mae'r prosiect yn y cam cysyniadol ar hyn o bryd. |
| Porth Caergybi | **Adolygu'r Prosiect** | Bydd sgôp y prosiect yn cael ei adolygu i asesu effaith economaidd a chymdeithasol Porthladd Caergybi ar y rhanbarth yng Nghymru, y DU a Gweriniaeth Iwerddon yng ngoleuni'r buddsoddiad arfaethedig i'r porthladd yn sgil y cynnydd mynegol mewn costau. |
| Prosiect Tir ac Eiddo | **ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL** | Mae'r pedwar safle yn y wedd gyntaf mewn camau gwahanol o gael eu datblygu gyda'r un mwyaf aeddfed yn barod i fwrw ymlaen i'r cam Achos Busnes Amlinellol. |
| Canolfan BIOTECHnoleg Amgylcheddol | **ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL** | Mae'r prosiect yn barod i fwrw ymlaen i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol. |
| Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | **ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL** | Mae angen gwaith pellach i ddangos sut mae mentrau presennol yn y Gogledd yn cyd-fynd cyn bwrw ymlaen i'r Achos Busnes Amlinellol. |
| Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | **ACHOS BUSNES AMLINELLOL** | Mae gan y prosiect Achos Busnes Amlinellol sydd wedi'i ddatblygu'n dda yn ei le, gyda'r angen am fân ddiwygiadau cyn cyflwyno i'r Bwrdd Uchelgais am gymeradwyaeth. |
| Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi | **ACHOS AMLINELLOL STRATEGOL** | Mae'r prosiect yn barod i fwrw ymlaen i ddatblygu Achos Busnes Amlinellol. |
| Rhwydwaith Talent Twristiaeth | **Adolygu'r Prosiect** | Roedd Achos Busnes Amlinellol yn ei le ar gyfer y prosiect cyn Covid; fodd bynnag, bydd sgôp y prosiect yn cael ei adolygu i asesu effaith Covid-19. |

Ffynhonnell: Y BWRDD UCHELGAIS

## Marchnata

6.47 Y Swyddfa Rheoli Portffolio sy'n gyfrifol am gyfathrebu a marchnata sy'n gysylltiedig â phortffolio a rhaglenni cyffredinol y Cynllun Twf ac yn ddiweddar bu iddi benodi Swyddog Cyfathrebu ac Ymgysylltu i arwain ar y gwaith hwn.

6.48 Ar lefel prosiect, bydd pob Ariannwr Prosiect yn gyfrifol am ymgysylltu â rhanddeiliaid a grwpiau cymunedol i dynnu sylw at y cynnig a'i farchnata. Bydd y dull penodol ar gyfer pob prosiect yn cael ei nodi yn yr achos busnes prosiect.

## Monitro, Gwerthuso ac Adborth

6.49 Bydd perfformiad y rhaglen a'r prosiect yn cael ei fonitro'n fisol drwy'r byrddau rhaglen a phrosiect perthnasol, gydag adroddiadau ffurfiol yn cael eu cyflwyno bob chwarter i'r Bwrdd Portffolio a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru.

6.50 Mae Cynllun Monitro a Gwerthuso wedi'i ddatblygu ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru. Mae cydrannau allweddol y Cynllun Monitro a Gwerthuso wedi'u nodi isod:

- Adroddiadau Uchafbwyntiau Misol ar gyfer pob rhaglen a phrosiect;
- Adroddiadau Chwarterol Ffurfiol i'r Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru;
- Adroddiad Blynyddol Ffurfiol i'r Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru;
- Gwerthusiad effaith economaidd annibynnol i'w gynnal bob 3-5 mlynedd yn erbyn cyfres o ddangosyddion y cytunwyd arnynt â Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.
- Bydd y buddion ehangach i'w cyflawni drwy gaffael, yn enwedig gwerth cymdeithasol a chymunedol, yn cael eu monitro a'u gwerthuso i sicrhau bod y rhanbarth yn cael y budd mwyaf o'r fath weithgarwch.
- Bydd y Bwrdd Uchelgais yn gweithio â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwerthuso yn erbyn y Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gydran allweddol o'r holl weithgareddau monitro a gwerthuso.
- Mae'r Bwrdd Uchelgais wedi ymrwymo i ddatblygu mecanwaith adborth priodol ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru gyda'r ddwy lywodraeth i sicrhau bod y gwersi a ddysgir yn ystod cyflawniad y Cynllun Twf yn cael eu cofnodi a'u rhannu.

## Gwireddu Buddion

6.51 Rôl allweddol ar gyfer y Swyddfa Rheoli Rhaglen fydd sicrhau bod buddion Cynllun Twf Gogledd Cymru yn cael eu gwireddu.

6.52 Mae buddion Cynllun Twf Gogledd Cymru wedi'u mapio yn yr achosion busnes portffolio a rhaglen ac yn cael eu hasesu yn erbyn cyflawni'r Weledigaeth Twf.

6.53 Mae rheoli buddion a gwireddu buddion yn gydran allweddol o ran sicrhau y cyflawnir Cynllun Twf Gogledd Cymru yn llwyddiannus. Bydd y Bwrdd Uchelgais yn ceisio gwneud y mwyaf o'r buddion lleol a rhanbarthol o gyflawni ei brosiectau a thrwy'r prosesau caffael cysylltiedig.

6.54 Bydd pob rhaglen a phrosiect yn gyfrifol am reoli buddion drwy Gynllun Gwireddu Buddion. Mae'r cynllun gwireddu buddion yn gweithredu fel trosolwg o'r prif gerrig milltir y manylir arnynt ymhob proffil buddiant. Mae'n gweithredu fel teclyn rheoli i fonitro, olrhain a rheoli'r gyfres gyffredinol o fuddion sy'n gysylltiedig â rhaglen neu brosiect.

## Sicrwydd

6.55 Gweithiodd y Swyddfa Rheoli Portffolio â Chanolfan Sicrwydd Llywodraeth Cymru i ddatblygu Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig sy'n nodi'r gweithgareddau sicrwydd a gynhelir ar lefel portffolio, rhaglen a phrosiect ar gyfer Cynllun Twf Gogledd Cymru.

6.56 Fel rhan o'r Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig, bydd gweithgareddau sicrwydd yn digwydd ar draws pob lefel o'r Cynllun Twf - portffolio, rhaglen a phrosiect. Bydd Cynllun Twf

Gogledd Cymru'n defnyddio'r Porth 0-5 sydd wedi'i ddiffinio'n barod a'r Adolygiadau Asesu Prosiect, fel sy'n briodol ac yn gymesur.

6.57 Ar ôl cymeradwyo Cynllun Sicrwydd a Chymeradwyo Integredig y Portffolio, datblygir cynlluniau manwl o'r fath ar gyfer pob rhaglen a phrosiect yn y Cynllun Twf. Bydd union amseriad yr adolygiadau sicrwydd yn fater i'r Swyddfa Rheoli Rhaglen gytuno â Llywodraeth Cymru a'r Byrddau Rhaglen a Phrosiect perthnasol.

6.58 Er bod angen cytuno ar union amseriad yr adolygiadau, bydd yr egwyddorion a ganlyn yn cael eu cymhwyso:

- Bydd adolygiadau sicrwydd portffolio mawr yn cael eu cynnal yn gyfnodol bob 3-5 mlynedd oni bai y daw cais gan y Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth y DU neu Gymru, i un gael ei gynnal yn gynharach.
- Cynhelir adolygiadau sicrwydd rhaglen yn gyfnodol bob 2 flynedd oni bai y daw cais gan y Bwrdd Uchelgais, Llywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru, i un gael ei gynnal yn gynharach;
- Cynhelir adolygiadau sicrwydd prosiect drwy gydol cyfnod y prosiect ar gyfnodau y cytunir arnynt ymlaen llaw. Gall lefel y sicrwydd amrywio yn ôl prosiect, ond byddai'n cynnwys o leiaf ddau adolygiad Porth allanol i bob prosiect, gan gynnwys adolygiad cyn cyflawni ac adolygiad gwireddu buddion. Nodir isod y rhesymeg dros bob dull arfaethedig:
    - Porth Prosiect 1 (Achos Amlinellol Strategol) - Dim ond ei angen ar gyfer prosiectau newydd neu'r rhai sydd yn y cam cysyniad ar hyn o bryd yn sgil yr Achos Busnes Rhaglen cymeradwy. Yr holl brosiectau eraill i gynhyrchu Achos Amlinellol Strategol/Achos Busnes Amlinellol ar gyfer Porth 2.
    - Porth Prosiect 2 (Achos Busnes Amlinellol) - Ei angen ar gyfer yr holl brosiectau o fewn y Cynllun Twf.
    - Porth Prosiect 3 (Achos Busnes Llawn) - penderfyniad y Swyddfa Rheoli Portffolio ynghylch p'un a oes angen Porth 3 ar sail prosiect wrth brosiect.
    - Porth Prosiect 4 (Gweithredu) - penderfyniad y Swyddfa Rheoli Portffolio ynghylch p'un a oes angen Porth 3 ar sail prosiect wrth brosiect.
    - Porth Prosiect 5 (Gwireddu Buddiannau) - Ei angen ar gyfer yr holl brosiectau o fewn y Cynllun Twf.
- Adolygiad Asesu Prosiect - Gellir ei ddefnyddio yn lle Porth 1-5 lle mae'r Swyddfa Rheoli Portffolio, mewn ymgynghoriad â Chanolfan Sicrwydd LlC, yn ystyried ei fod yn fecanwaith adolygu mwy priodol.

# Atodiad A - Asesiad Effaith Cenedlaethau'r Dyfodol

| SUT MAE'R CYNNIG YN CYD-FYND Â'R NODAU LLESIANT? | | |
|---|---|---|
| Nod Llesiant | Sut mae'r cynnig yn cyd-fynd â'r nodau llesiant? (Nodwch unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol) | Pa gamau sydd wedi / sydd angen eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i wella'r effaith cadarnhaol? |
| **Cymru ffyniannus**<br>Cymdeithas arloesol, gynhyrchiol, carbon isel sy'n cydnabod y terfynau sydd ar yr amgylchedd byd-eang ac sydd, o ganlyniad, yn defnyddio adnoddau mewn modd effeithlon a chymesur (gan gynnwys gweithredu ar newid yn yr hinsawdd); ac sy'n datblygu poblogaeth fedrus ac addysgedig mewn economi sy'n cynhyrchu cyfoeth ac yn cynnig cyfleoedd cyflogaeth, gan ganiatáu i bobl fanteisio ar y cyfoeth a gynhyrchir drwy gael gafael ar waith addas. | + Bydd y portffolio yn creu rhai miloedd o swyddi newydd i Ogledd Cymru<br>+ Bydd hefyd yn hyfforddi busnesau ac unigolion, ac yn ehangu'r gofod ar gyfer hyfforddi, deori, ymchwil a datblygu<br>+ Mae'r portffolio yn cryfhau arweinyddiaeth Gogledd Cymru ym maes technolegau carbon isel ar draws y sector gweithgynhyrchu gwerth uchel (biotechnoleg, technoleg cell hydrogen), bwyd-amaeth (amaeth carbon niwtral), trafnidiaeth a chynhyrchu ynni<br><br>- Bydd datblygu safleoedd yn creu allyriadau carbon; fydd yn cael eu lliniaru a'u rheoli drwy bolisïau a phrosesau cenedlaethol ac ar lefel awdurdod lleol. | • Bydd y broses o gymeradwyo achosion prosiectau yn rhoi ystyriaeth i'r allyriadau carbon arfaethedig ynghyd â'r arbedion sy'n deillio o bob prosiect.<br>• Bydd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i hymgorffori i'r holl weithgarwch caffael, gan asesu'r cyfraniad tuag at y dangosyddion llesiant cenedlaethol perthnasol i Gymru<br>• Bydd ystyriaethau amgylcheddol yn rhan greiddiol o'r cyfleoedd am gontractau, gan leihau'r effaith ar yr amgylchedd a chefnogi technolegau, ymagweddau ac arloesi newydd gyda chontractwyr a'r gadwyn gyflenwi, gyda ffocws ar yr economi cylchol. |
| **Cymru gydnerth**<br>Cenedl sy'n cynnal ac yn gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol gydag ecosystemau iach gweithredol sy'n cefnogi cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ynghyd â'r gallu i addasu i newid (er enghraifft newid yn yr hinsawdd). | + Bydd y portffolio yn adeiladu ar sgiliau busnesau ac unigolion gan gefnogi gallu'r busnesau ac unigolion hynny i addasu i newid a'u paratoi ar gyfer cyfleoedd sy'n canolbwyntio ar y dyfodol<br>+ Bydd y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth yn adeiladu ar sgiliau mewn rheolaeth tir carbon niwtral a thechnolegau | • Bydd y broses o gymeradwyo achosion prosiectau yn rhoi ystyriaeth i'r gwelliannau i fioamrywiaeth ac effaith pob prosiect.<br>• Bydd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i hymgorffori i'r holl weithgarwch caffael, gan asesu'r cyfraniad tuag at y dangosyddion llesiant cenedlaethol perthnasol i Gymru |

| | | |
|---|---|---|
| | ynni adnewyddadwy drwy addysgu pobl ifanc a busnesau bach a chanolig<br>+ Bydd y prosiect datgarboneiddio trafnidiaeth rhanbarthol a'r rhaglenni digidol yn cynorthwyo i wella ansawdd yr aer drwy'r newid o deithio mewn cerbydau petrol/disel i weithio o bell neu ddewisiadau teithio di-garbon / carbon isel<br><br>- Mae'n bosib y bydd datblygu safleoedd yn effeithio ar safleoedd sy'n sensitif yn ecolegol, gan greu allyriadau carbon a disodli ecosystemau naturiol; caiff yr effaith ei liniaru a'i reoli drwy bolisïau a phrosesau cenedlaethol ac ar lefel awdurdod lleol. | • Bydd ystyriaethau amgylcheddol yn rhan greiddiol o'r cyfleoedd am gontractau, gan leihau'r effaith ar yr amgylchedd, gyda ffocws ar ddatblygu safleoedd tir llwyd yn hytrach na thir glas, a chynnwys yr economi cylchol ac integreiddio isadeiledd gwyrdd<br>• Ceisio lleihau i'r eithaf ôl-troed carbon prosiectau a chefnogi'r economi carbon isel, gan ganolbwyntio ar yr ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gyflawni sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030, gan leihau nwyon tŷ gwydr, gwella ein hamgylchedd naturiol a gwarchod ein bioamrywiaeth.<br>• Cefnogi ac ymgysylltu â'r trydydd sector mewn ymagwedd ar sail gwerth sy'n cefnogi gwytnwch yn y trydydd sector i weithio gyda chontractwyr a'r gadwyn gyflenwi a'u cefnogi. |
| **Cymru iachach**<br>Cymdeithas lle mae llesiant corfforol a meddyliol pobl cystal â phosibl a lle deellir dewisiadau ac ymddygiadau sydd o fudd i iechyd yn y dyfodol. | + Bydd y Cynllun Twf yn cynorthwyo i wella lles meddyliol drwy (1) creu swyddi o ansawdd gwell ar gyfer y farchnad lafur leol drwy ymyraethau wedi'u targedu mewn sectorau gwerth uchel a (2) adeiladu gweithlu mwy medrus o fewn y rhanbarth drwy gefnogi mentrau sgiliau a hyfforddiant<br>+ Bydd y cyfleoedd hyn yn cefnogi gwelliannau mewn safonau byw ar draws y rhanbarth gan leihau tlodi, anghyfartaledd ac amddifadedd.<br>+ Drwy ei bartneriaeth gyda'r Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, mae'r Bwrdd Uchelgais wedi ymgysylltu â'r Byrddau Sector | • Bydd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i hymgorffori i'r holl weithgarwch caffael, gan asesu'r cyfraniad tuag at y dangosyddion llesiant cenedlaethol perthnasol i Gymru<br>• Bydd y Bwrdd Uchelgais yn gweithio'n uniongyrchol gyda'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i gynnwys gwytnwch cymunedol ac adeiladu cyfoeth gan ddatblygu asedau yn ein cymunedau i gynnwys cefnogi iechyd meddwl cadarnhaol mewn gweithleoedd, cadwyni cyflenwi ac mewn cymunedau<br>• Bydd y Bwrdd Uchelgais yn gweithio gyda phrosesau cynllunio cenedlaethol a lleol i |

| | | |
|---|---|---|
| | Cyhoeddus i ystyried sut y gall y rhaglenni/prosiectau gynnig buddiannau cyfartal i drigolion y rhanbarth drwy ddatblygu sgiliau a chyflogaeth<br>+ Bydd y prosiect datgarboneiddio trafnidiaeth rhanbarthol yn gwella ansawdd yr aer ar draws Gogledd Cymru, gan arwain at leihau afiechydon cardiofasgwlaidd ac anadlol gan wella disgwyliad oes yn gyffredinol | hyrwyddo a hybu deilliannau llesiant drwy'r gweithgareddau caffael, ac yn profi polisïau allweddol mewn meysydd megis *dyluniadau adeiladau sy'n hyrwyddo iechyd; mynediad i safleoedd prosiectau i gerddwyr/beicwyr, gan gynnwys pobl anabl; ynghyd ag ystyried cyfleoedd i gynnwys isadeiledd gwyrdd*. |
| **Cymru sy'n fwy cyfartal**<br>Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd) | + Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi bod yn bartner allweddol wrth ddatblygu'r portffolio gan ystyried sut mae'r rhaglenni/prosiectau yn gallu cynnig buddiannau cyfartal i drigolion y rhanbarth drwy ddatblygu sgiliau a chyflogaeth<br>+ Mae rhaglenni'r Cynllun Twf wedi'u dosbarthu ar draws rhanbarth y Gogledd, gydag arweinyddiaeth ac ymgysylltiad gyda'r holl Gynghorau Sir gyda'r bwriad o ledaenu'r buddion yn deg.<br>+ Bydd y systemau caffael yn cefnogi'r cadwyni cyflenwi lleol i ymgysylltu gyda chontractau mwy drwy sesiynau briffio cadwyni cyflenwi a chyfleoedd bidio ar y cyd a rhestr aros o brosiectau<br>+ Mae pob rhaglen/prosiect hefyd wedi ystyried y bydd rhywfaint o'r buddiannau economaidd yn cael eu colli gan y bydd rhai swyddi'n cael eu llenwi gan drigolion o tu hwnt i ffin rhanbarth y Gogledd | • Bydd y Bwrdd Uchelgais yn hyrwyddo ac yn hybu cyflawni buddion gwerth cymdeithasol a chymunedol drwy weithgarwch caffael ac yn profi polisïau allweddol megis y ddyletswydd gymdeithasol economaidd a'r bil partneriaethau cymdeithasol.<br>• Gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau ein bod yn cefnogi pobl o bob cefndir ac amgylchiadau i ailhyfforddi, datblygu sgiliau newydd drwy wirfoddoli neu gyfrannu at addysg/prentisiaethau drwy gyfrwng strategaethau recriwtio ac ymgysylltu arloesol<br>• Targedu cyfleoedd ac ymgysylltu â mecanweithiau presennol i gefnogi grwpiau penodol megis pobl ifanc neu'r rheiny sydd mewn ardaloedd o amddifadedd i ymgysylltu mewn addysg a dysgu/datblygu.<br>• Cefnogi ymgysylltu a chysylltiadau gydag ysgolion ac ymgysylltu â'r cwricwlwm 2022 newydd yng Nghymru, gyda ffocws ar gynhwysiad digidol. |

| | | |
|---|---|---|
| | + Bydd manylion y swyddi sy'n cael eu creu ar draws y portffolio yn cael eu didoli yn ôl rhywedd, oedran, amrywiaeth a boddhad swydd.<br><br>- Ymysg rhai o drigolion Gogledd Cymru, bydd cenedlaethau sydd wedi'u hamddifadu o brofiadau addysgiadol da, ac efallai y byddant yn cael anhawster i gael mynediad at y cyfleoedd hyfforddiant a chyflogaeth a gynigir gan y Cynllun Twf. Bydd hyn yn parhau â'r bwlch tlodi sydd wedi bodoli ers cyhyd yn y rhanbarth | |
| **Cymru o gymunedau cydlynol**<br>Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel sydd â chysylltiadau da. | + Mae'r Cynllun Twf yn canolbwyntio ar dwf y gellir ei ymestyn a’i wasgaru ledled y rhanbarth i gyflawni twf economaidd cynaliadwy, cytbwys a chynhwysol, gyda'r buddion wedi'u rhannu ar draws y rhanbarth.<br>+ Bydd y rhaglen ddigidol yn gwella'r cyfathrebu ar draws gogledd Cymru, gan gysylltu cymunedau yn rhithiol<br>+ Bydd manylion y swyddi sy'n cael eu creu ar draws y portffolio yn cael eu didoli (bob blwyddyn?) yn ôl rhywedd, oedran ac amrywiaeth<br>+ Mae'r rhaglenni a'r prosiectau yn cael eu cyd-gynhyrchu drwy bartneriaethau sy'n cynnwys y sector cyhoeddus a'r sector preifat, cyrff ymchwil a'r bartneriaeth sgiliau rhanbarthol, ac yn canolbwyntio ar ymgysylltu â phobl sydd o dan anfantais | • Bydd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i hymgorffori i'r holl weithgarwch caffael, gan asesu'r cyfraniad tuag at y dangosyddion llesiant cenedlaethol perthnasol i Gymru<br>• Gweithio â phartneriaid caffael a sefydliadau trydydd sector i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i adeiladu cyfoeth cymunedol.<br>• Mae gwaith ar y gweill i adeiladu dealltwriaeth a pherchnogaeth o'r Cynllun Twf ar lefel gymunedol ar draws y rhanbarth, gan sicrhau ymagwedd gynhwysol sy'n canolbwyntio ar ymgysylltu â grwpiau sy'n anodd cysylltu â hwy, a phobl sydd o dan anfantais oherwydd eu rhywedd, anabledd, ethnigrwydd neu oedran<br>• Bydd gofyn i'r holl achosion busnes prosiect gynnwys cynllun yn amlinellu camau'r prosiect fydd yn sicrhau bod mynediad teg a chynhwysol i gyfleoedd sy'n deillio o |

| | | |
|---|---|---|
| | oherwydd eu rhywedd, anabledd, ethnigrwydd neu oedran. | fuddsoddiad y Cynllun Twf fel rhan o'r broses datblygu a chymeradwyo |
| **Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu**<br>Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden. | • Bydd y Cynllun Twf yn creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi er mwyn i bobl ifanc aros a gweithio yng Ngogledd Cymru a pharhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau personol a phroffesiynol.<br>• Mae'r Cynllun Twf yn cynnwys prosiectau o fewn diwydiannau twf ynni carbon isel a gweithgynhyrchu gwerth uchel fydd yn darparu cyfleoedd swyddi gwerth uchel ledled Gogledd Cymru, yn enwedig yng Ngwynedd a Môn sydd â chanran uwch o siaradwyr Cymraeg ar draws y rhanbarth<br>• Hefyd, mae prosiectau sy'n canolbwyntio ar sectorau sylfaenol mwy traddodiadol - bwyd-amaeth a thwristiaeth. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r sector amaethyddiaeth lle mae canran uwch o weithwyr yn siarad Cymraeg o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.<br>• Bydd y rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth yn gwella'r cyfleoedd i drigolion ac ymwelwyr ymgysylltu'n gadarnhaol gyda'n hetifeddiaeth ddiwylliannol ac amgylcheddol drwy wella'r cyfleoedd gwasanaeth i gwsmeriaid, a chyfleoedd pellach i ddatblygu cynnyrch bwyd o Gymru | • Bydd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i hymgorffori i'r holl weithgarwch caffael, gan asesu'r cyfraniad tuag at y dangosyddion llesiant cenedlaethol perthnasol i Gymru<br>• Ymgysylltu â phartneriaethau newydd megis amgueddfeydd, theatrau a'r celfyddydau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ein hystyriaethau diwylliannol ac iaith Gymraeg yn ein cyfleoedd contract<br>• Bydd gofyn i'r holl achosion busnes prosiect gwblhau asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg fel rhan o'u proses datblygu a chymeradwyo, ac ystyried cyfleoedd i ddathlu ac ymgysylltu â diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg drwy gomisiynu pob prosiect isadeiledd |

| | | |
|---|---|---|
| | • Mae'r Bwrdd Uchelgais yn endid dwyieithog yn ei holl weithrediadau; mae'r holl ddeunyddiau cyhoeddus yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog | |
| **Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang**<br>Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang. | • Bydd y portffolio yn cefnogi'r trawsnewidiad i economi carbon isel drwy gynhyrchu ynni, arbed carbon ac arloesi drwy gyflwyno technolegau carbon isel o fewn y diwydiant ac ar lefel busnes/fferm. Bydd y prosiectau yn cyfrannu at weithrediadau Cymru ar newid hinsawdd a'r ymdrechion tuag at ddatgarboneiddio byd-eang. | • Bydd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i hymgorffori i'r holl weithgarwch caffael, gan asesu'r cyfraniad tuag at y dangosyddion llesiant cenedlaethol i Gymru perthnasol<br>• Ystyried mesurau gwrthbwyso carbon byd-eang ar gyfer unrhyw allyriadau carbon<br>• Chwilio am gyfleoedd i ymgysylltu â ffoaduriaid a cheiswyr lloches â chanddynt sgiliau gwerthfawr sy'n berthnasol i'r rhaglenni / prosiectau<br>• Sicrhau nad yw'r cadwyni cyflenwi ar gyfer prosiectau yn cefnogi caethwasiaeth fodern, camdriniaeth amgylcheddol nac yn groes i hawliau dynol |

| Thema trawsbynciol | Sut mae'r cynnig yn cyflawni yn erbyn y thema trawsbynciol? | Pa gamau sydd wedi / sydd angen eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu i wella'r effaith cadarnhaol? |
|---|---|---|
| **Cyfle Cyfartal** | + Mae'r Cynllun Twf yn ceisio darparu mwy o gyfleoedd i bawb ledled Gogledd Cymru drwy amrediad o brosiectau trawsffurfio fydd yn cyflwyno cyfleoedd ar gyfer datblygu sgiliau a hyfforddiant. Un o agweddau allweddol Cynllun Twf Gogledd Cymru yw ei fod yn cael ei dargedu'n ofodol i greu cyfleoedd ledled y rhanbarth<br>+ Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi bod yn bartner allweddol wrth ddatblygu'r portffolio gan ystyried sut mae'r rhaglenni/prosiectau yn gallu cynnig buddiannau cyfartal i drigolion y rhanbarth drwy ddatblygu sgiliau a chyflogaeth<br>+ Bydd y systemau caffael yn cefnogi'r cadwyni cyflenwi lleol i ymgysylltu gyda chontractau mwy drwy sesiynau briffio cadwyni cyflenwi a chyfleoedd bidio ar y cyd a rhestr aros o brosiectau<br>+ Bydd y rhaglenni trafnidiaeth strategol a digidol yn gwella'r cysylltiadau ffisegol a rhithiol rhwng cymunedau ledled y Gogledd<br>+ Mae'r rhaglenni a'r prosiectau yn cael eu cyd-gynhyrchu drwy bartneriaethau sy'n cynnwys y sector cyhoeddus a'r sector preifat, cyrff ymchwil a'r bartneriaeth sgiliau rhanbarthol, ac yn canolbwyntio ar ymgysylltu â phobl sydd o dan anfantais | • Bydd y Bwrdd Uchelgais yn hyrwyddo ac yn hybu cyflawni buddion gwerth cymdeithasol a chymunedol drwy weithgarwch caffael ac yn profi polisïau allweddol megis y ddyletswydd gymdeithasol economaidd a'r bil partneriaethau cymdeithasol.<br>• Gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau ein bod yn cefnogi pobl o bob cefndir ac amgylchiadau i ailhyfforddi, datblygu sgiliau newydd drwy wirfoddoli neu gyfrannu at addysg/prentisiaethau drwy gyfrwng strategaethau recriwtio ac ymgysylltu arloesol<br>• Targedu cyfleoedd ac ymgysylltu â mecanweithiau presennol i gefnogi grwpiau penodol megis pobl ifanc neu'r rheiny sydd mewn ardaloedd o amddifadedd i ymgysylltu mewn addysg a dysgu/datblygu.<br>• Cefnogi ymgysylltu a chysylltiadau gydag ysgolion ac ymgysylltu â'r cwricwlwm 2022 newydd yng Nghymru, gyda ffocws ar gynhwysiad digidol.<br>• Bydd manylion y swyddi sy'n cael eu creu ar draws y portffolio yn cael eu didoli yn ôl rhywedd, oedran ac amrywiaeth |

| | | |
|---|---|---|
| | oherwydd eu rhywedd, anabledd, ethnigrwydd neu oedran | |
| **Datblygu Cynaliadwy** | + Mae datblygu cynaliadwy yn greiddiol i'r Cynllun Twf ac mae ganddo ffocws clir ar ynni carbon isel, gwella'r seilwaith digidol, hyrwyddo arloesedd a sicrhau cynaladwyedd mwy hirdymor ar gyfer y rhanbarth a chymunedau<br>+ Cryfhau arweinyddiaeth Gogledd Cymru ym maes technolegau carbon isel ar draws y sector gweithgynhyrchu gwerth uchel (biotechnoleg, technoleg cell hydrogen), bwyd-amaeth (amaeth carbon niwtral), trafnidiaeth a chynhyrchu ynni<br>+ Adeiladu ar sgiliau busnesau ac unigolion sy'n cefnogi'r busnesau i addasu i newid a'u paratoi ar gyfer cyfleoedd sy'n canolbwyntio ar y dyfodol<br>+ Bydd y Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth yn adeiladu ar sgiliau mewn rheolaeth tir carbon niwtral a thechnolegau ynni adnewyddadwy drwy addysgu pobl ifanc a busnesau bach a chanolig<br>+ Bydd y rhaglenni trafnidiaeth a digidol yn cynorthwyo i wella ansawdd yr aer drwy'r newid o deithio mewn cerbydau petrol/disel i weithio o bell neu ddewisiadau teithio di-garbon / carbon isel | • Bydd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i hymgorffori i'r holl weithgarwch caffael, gan asesu'r cyfraniad tuag at y dangosyddion llesiant cenedlaethol perthnasol i Gymru<br>• Bydd ystyriaethau amgylcheddol yn rhan greiddiol o'r cyfleoedd am gontractau, gan leihau'r effaith ar yr amgylchedd, gyda ffocws ar ddatblygu safleoedd tir llwyd yn hytrach na thir glas, a chynnwys yr economi cylchol ac integreiddio isadeiledd gwyrdd<br>• Ceisio lleihau i'r eithaf ôl-troed carbon prosiectau a chefnogi'r economi carbon isel, gan ganolbwyntio ar yr ymrwymiad gan Lywodraeth Cymru i gyflawni sector cyhoeddus carbon niwtral erbyn 2030, gan leihau nwyon tŷ gwydr, gwella ein hamgylchedd naturiol a gwarchod ein bioamrywiaeth.<br>• Cefnogi ac ymgysylltu â'r trydydd sector mewn ymagwedd ar sail gwerth sy'n cefnogi gwytnwch yn y trydydd sector i weithio gyda chontractwyr a'r gadwyn gyflenwi a'u cefnogi. |
| **Mynd i'r Afael â Thlodi** | + Mae'r Cynllun Twf yn cyflawni yn erbyn Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru a'i hamcanion, yn benodol o ran gwella llesiant | • Bydd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i hymgorffori i'r holl weithgarwch caffael, gan asesu'r cyfraniad tuag at y |

| | | |
|---|---|---|
| | economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Gogledd Cymru. Elfen allweddol o hyn yw cefnogi a chadw pobl ifanc yn y rhanbarth ac ymdrin â mudandod ac anweithgarwch.<br>+ Bydd y portffolio yn creu rhai miloedd o swyddi newydd i Ogledd Cymru<br>+ Bydd hefyd yn hyfforddi busnesau ac unigolion, ac yn ehangu'r gofod ar gyfer hyfforddi, deori, ymchwil a datblygu<br>+ Cryfhau economi Gogledd Cymru drwy arwain ym maes technolegau carbon isel ar draws y sector gweithgynhyrchu gwerth uchel (biotechnoleg, technoleg cell hydrogen), bwyd-amaeth (amaeth carbon niwtral), trafnidiaeth a chynhyrchu ynni<br>+ Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi bod yn bartner allweddol wrth ddatblygu'r portffolio gan ystyried sut mae'r rhaglenni/prosiectau yn gallu cynnig buddiannau cyfartal i drigolion y rhanbarth drwy ddatblygu sgiliau a chyflogaeth<br>+ Mae rhaglenni'r Cynllun Twf wedi'u dosbarthu ar draws rhanbarth y Gogledd, gydag arweinyddiaeth ac ymgysylltiad gyda'r holl Gynghorau Sir gyda'r bwriad o ledaenu'r buddion yn deg. | dangosyddion llesiant cenedlaethol perthnasol i Gymru<br>• Gweithio gyda'n partneriaid i sicrhau ein bod yn cefnogi pobl o bob cefndir ac amgylchiadau i ailhyfforddi, datblygu sgiliau newydd drwy wirfoddoli neu gyfrannu at addysg/prentisiaethau drwy gyfrwng strategaethau recriwtio ac ymgysylltu arloesol<br>• Targedu cyfleoedd ac ymgysylltu â mecanweithiau presennol i gefnogi grwpiau penodol megis pobl ifanc neu'r rheiny sydd mewn ardaloedd o amddifadedd i ymgysylltu ag addysg a dysgu/datblygu.<br>• Gweithio â phartneriaid caffael a sefydliadau trydydd sector i wneud y mwyaf o'r cyfleoedd i adeiladu cyfoeth cymunedol.<br>• Cefnogi ymgysylltu a chysylltiadau gydag ysgolion ac ymgysylltu â'r cwricwlwm 2022 newydd yng Nghymru, gyda ffocws ar gynhwysiad digidol. |
| **Yr iaith Gymraeg a Diwylliant** | • Bydd y Cynllun Twf yn creu swyddi a chyfleoedd hyfforddi er mwyn i bobl ifanc aros a gweithio yng Ngogledd Cymru a pharhau i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu bywydau personol a phroffesiynol | • Bydd Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol wedi'i hymgorffori i'r holl weithgarwch caffael, gan asesu'r cyfraniad tuag at y dangosyddion llesiant cenedlaethol perthnasol i Gymru perthnasol |

| | | |
|---|---|---|
| | • Mae'r Cynllun Twf yn cynnwys prosiectau o fewn diwydiannau twf ynni carbon isel a gweithgynhyrchu gwerth uchel fydd yn darparu cyfleoedd swyddi gwerth uchel ledled Gogledd Cymru, yn enwedig yng Ngwynedd a Môn sydd â chanran uwch o siaradwyr Cymraeg ar draws y rhanbarth<br>• Hefyd, mae prosiectau sy'n canolbwyntio ar sectorau sylfaenol mwy traddodiadol - bwyd-amaeth a thwristiaeth. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i'r sector amaethyddiaeth lle mae canran uwch o weithwyr yn siarad Cymraeg o gymharu â'r boblogaeth gyffredinol.<br>• Bydd y rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth yn gwella'r cyfleoedd i drigolion ac ymwelwyr ymgysylltu'n gadarnhaol gyda'n hetifeddiaeth ddiwylliannol ac amgylcheddol drwy wella'r cyfleoedd gwasanaeth i gwsmeriaid a chyfleoedd pellach i ddatblygu cynnyrch bwyd o Gymru<br>• Mae'r Bwrdd Uchelgais yn endid dwyieithog yn ei holl weithrediadau; mae'r holl ddeunyddiau cyhoeddus yn cael eu cynhyrchu'n ddwyieithog | • Ymgysylltu â phartneriaethau newydd megis amgueddfeydd, theatrau a'r celfyddydau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu ein hystyriaethau diwylliannol ac iaith Gymraeg yn ein cyfleoedd contract<br>• Bydd gofyn i'r holl achosion busnes prosiect gwblhau asesiad effaith ar yr iaith Gymraeg fel rhan o'u proses datblygu a chymeradwyo, ac ystyried cyfleoedd i ddathlu ac ymgysylltu â diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg drwy gomisiynu pob prosiect isadeiledd |

# Atodiad B - Cyfarfodydd Allweddol wrth ddatblygu'r Cynllun Twf

**HYD 2018**
Cymeradwyaeth y Ddogfen Gynnig gan bartneriaid

**HYD 2018**
Datganiad yr Hydref

**MEDI 2018**
Sesiynau Herio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain

**GORFF 2018**
Dechrau GA1

**MEDI 2016**
Gweledigaeth Twf Gogledd Cymru yn cael cymeradwyaeth gan bartneriaid.

**RHAG 2018**
Cadarnhad fod Llywodraeth Cymru am gyfrannu yn unol a Llywodraeth Prydain tuag at y Cynllun Twf

**RHAG 2018**
Cymeradwyaeth y CLll gan y Bwrdd Uchelgais

**CHWE 2019**
Ffurfiodd y Bwrdd Uchelgais fel Cyd-Bwyllgor

**MAW 2019**
Cymeradwyaeth y Cynllun Gweithredu gan y Bwrdd Uchelgais

**MAI 2019**
Hyfforddiant Gwell Achosion Busnes

**CHWE - GORFF 2020**
Adolygiad Gwaelodlin o'r prosiectau

**MAW - MEH 2020**
Hyfforddiant Gwell Achosion Busnes

**ION 2020**
Ffurfiwyd y Swyddfa Raglen

**TACH 2019**
Arwyddwyd Penawdau'r Telerau

**MEH 2019**
Sesiynau Herio gyda Llywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain

**MEH 2019**
Sesiynau Herio gyda'r Sector Breifat

**AWST 2020**
Adolygiad Sicrwydd PAR

**MEDI 2020**
Adborth Polisi gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth Prydain

**MEH - HYD 2020**
Hyfforddiant gyda Joe Flanagan

**MEH - HYD 2020**
Sesiynau Briffio Aelodau Awdurdodau Lleol

**HYD 2020**
Achosion Busnes Portffolio a Rhaglenni yn derfynol

# Atodiad C - Prosiectau'r Cynllun Twf

Tabl C.1 Prosiectau'r Cynllun Twf

| **Rhaglen** | **Prosiect** | **Ariannwr y prosiect** | **Cyfanswm buddsoddiad** | **Gofyn y Cynllun Twf** | **Crynodeb** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gweithgynhyrchu ac arloesedd gwerth uchel | Canolfan BIOTECHnoleg Amgylcheddol | Prifysgol Bangor | £9.6m | £3.0m | Bydd y CEB yn ganolfan gyda'r gorau yn y byd o ran canfod ensymau newydd o bwys diwydiannol. Bydd y CEB yn darparu sylfaen gref ar gyfer denu ymchwilwyr blaenllaw ar lefel fyd-eang, cyllid ymchwil cyhoeddus a masnachol arwyddocaol a mewnfuddsoddiad i Gymru. Mae'r CEB hefyd yn ceisio denu cwmnïau yn y sector biocatalysis i'r Gogledd i gymryd mantais ar y buddion clystyru a chydgrynhoi y mae'r rhanbarth yn eu cynnig yn sgil ei arbenigedd hir-sefydlog mewn biobeirianneg. |
| | Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | Prifysgol Glyndŵr | £29.8m | £10.0m | Bydd y Ganolfan Opteg a Pheirianneg Menter yn darparu cyfleusterau (yn Wrecsam a Llanelwy) sydd wedi'u targedu i hybu datblygiad sgiliau lefel uchel ar gyfer y rhanbarth a galluogi busnesau bach a chanolig eu maint a busnesau mawr i weithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Glyndŵr, Wrecsam, ar ymchwil a datblygiad sy'n cael ei lywio'n fasnachol. |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | Rhwydwaith Talent a Thwristiaeth Gogledd Cymru | Coleg Llandrillo a Chyngor Bwrdeistref Conwy | £12.9m | £4.5m | Mae'r Rhwydwaith Talent Twristiaeth yn amlinellu cynlluniau uchelgeisiol i ddiogelu darpariaeth sgiliau a chynyddu buddion masnachol o un o'r sectorau mwyaf sefydledig a'r un sy'n tyfu gyflymaf yn y rhanbarth. Nod Rhwydwaith TALENT Twristiaeth Gogledd Cymru yw ysgogi cydweithrediad cyhoeddus-preifat i gydlynu gweithrediad ar sgiliau a datblygu cynnyrch i drawsnewid a sbarduno twf y sector twristiaeth a lletygarwch yn y rhanbarth. |
| | Prosiect Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | Grŵp Llandrillo Menai | £13.0m | £10.0m | Y weledigaeth yw creu Canolbwynt Economi Gwledig arbennig o'r radd flaenaf yng Nglynllifon, sy'n cynnig ystod o gyfleusterau a gwasanaethau i gryfhau a gwella'r economi rhanbarthol, yn benodol drwy dyfu'r sector bwyd a diod. |
| | Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi | Coleg Cambria | £15.4m | £10.0m | Nod Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi yw arwain y Gogledd at ddyfodol gwydn lle mae rheolaeth tir carbon niwtral yn ganolog i sector ynni adnewyddadwy datblygol sy'n cefnogi cymuned gynaliadwy, ffyniannus ac iach sy'n cwmpasu cymysgfa wledig/trefol y rhanbarth. |

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y prosiect | Cyfanswm buddsoddiad | Gofyn y Cynllun Twf | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|---|
| Tir ac eiddo | Porth Caergybi | Stena Line | £80.0m | £35.0m | Sicrhau dyfodol porthladd Caergybi drwy ddarparu cyfleusterau mordeithio a llwytho trwm dŵr dwfn, gwella mynediad cerbydol, gwarantu dyfodol y morglawdd a darparu ar gyfer galwadau prosiectau ynni rhanbarthol. |
| | Prosiect Cyd-fenter Tir ac Eiddo Rhanbarthol | Y BWRDD UCHELGAIS | £275.4m | £44.1m | Yn cynnwys pum safle eiddo:<br>**Safle Ysbyty Dinbych**- Mae cais cynllunio wedi'i gyflwyno am ddatblygiad masnachol a phreswyl defnydd cymysg. Bydd arian y Cynllun Twf yn cynorthwyo wrth gyflawni safle wedi'i glirio a'i adfer gyda phrif wasanaethau.<br>**Safle Strategol Bodelwyddan -**Safle datblygu masnachol a phreswyl defnydd cynnwys 137 hectar. Bydd arian y Cynllun Twf yn darparu'r prif wasanaethau fel y gellir dod â'r safle i'r farchnad i'w ddatblygu.<br>**Safle Strategol Bryn Cegin**-Darparu arwynebedd llawr diwydiannol i fodloni'r galw hysbys am unedau.<br>**Porth Wrecsam**- Bydd arian y Cynllun Twf yn darparu'r caniatâd statudol gofynnol ac yn cyflwyno'r prif wasanaethau fel bod modd dod â'r safle i'r farchnad i'w werthu a'i ddatblygu.<br>**Safle Strategol Warren Hall**- Bydd arian y Cynllun Twf yn darparu'r caniatâd statudol gofynnol ac yn cyflawni prif wasanaethau fel bod modd i'r safle defnydd cymysg 65 hectar gael ei roi ar y farchnad ar werth ac yna gael ei ddatblygu gan y sector preifat. |
| Digidol | Ffibr llawn | Y BWRDD UCHELGAIS | £7.2m | £6.8m | Ceisia'r prosiect hwn gyflawni cysylltedd ffeibr llawn (addas ar gyfer gigabit) i 28 o safleoedd busnes allweddol ar draws y Bwrdd Uchelgais. Ffocws y prosiect yw darparu mynediad at wasanaethau ffeibr llawn sy'n fwy fforddiadwy, y gellir ei gyflawni ar raddfa ac er mwyn gwasanaethu anghenion busnesau bach a chanolig eu maint, yn lle ac er mwyn ategu cylchedau lein ar les sy'n ddrytach. Unwaith y bydd wedi'i gwblhau, bydd tua 4,100 o eiddo busnes a 450 o eiddo preswyl yn medru cael mynediad at fand llydan ffeibr llawn addas ar gyfer gigabit. |
| | Cysylltu'r % derfynol | Y BWRDD UCHELGAIS | £4.0m | £4.0m | Mae'r prosiect hwn yn ceisio cyflymu datblygiad Campysau Cysylltiedig mewn 19 o safleoedd economaidd rhanbarthol allweddol. Bydd yn targedu safleoedd allweddol sy'n cyflwyno achosion defnydd ar gyfer 5G a rhwydweithiau pŵer isel yng nghyd-destun diwydiant trwm, diwydiant ysgafn, safleoedd ymchwil, safleoedd masnachol ac ar draws campws gwledig llawer mwy (gan gynnwys miloedd o ffermydd a chlystyrau amaethyddol). Amcangyfrifir y bydd gan oddeutu 2,600 o eiddo busnes |

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y prosiect | Cyfanswm buddsoddiad | Gofyn y Cynllun Twf | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | fynediad at 5G band eang uchel a gwasanaethau Wi-Fi pŵer isel, unwaith y bydd wedi'i gwblhau. |
| | Campws Cysylltiedig | Y BWRDD UCHELGAIS | £21.0m | £21.0m | Mae'r prosiect hwn yn ceisio ymateb i alw'r diwydiant a gyrwyr technoleg drwy gefnogi gweithrediad mwy effeithlon y cadwyni cyflenwi, a gweithrediadau trafnidiaeth mawr (megis porthladdoedd). Gyda'i gilydd, bydd 156km o goridor ffordd a rheilffordd wedi'i gysylltu â 5G/Rhwydweithiau Mynediad Di-Wifr Pŵer Isel, ar hyd coridor yr A55 a'r llwybr prif lein rheilffordd cyfagos. Amcangyfrifir bod hyd at 1.57 miliwn o siwrnai rheilffordd a 1.3 miliwn o siwrnai ar y ffordd yn elwa o well cysylltedd 5G, unwaith y bydd wedi'i gwblhau. |
| | Coridor Cysylltiedig | Y BWRDD UCHELGAIS | £2.2m | £2.2m | Mae'r prosiect hwn yn targedu gwasanaeth cyflym iawn hollgynhwysol ar draws y Gogledd, nad ydynt yn cael eu gwasanaethu hyd yma gan ddulliau eraill ac na allant gyflawni cyflymder o 30Mbps (lawrlwytho) o leiaf ar hyn o bryd. Mae diffyg band eang dibynadwy, neu mewn rhai achosion, band eang sylfaenol, yn broblem allweddol sy'n wynebu busnesau gwledig, gan lesteirio amddifadedd a chyfrannu at y wasgfa ddemograffig - bydd hyn yn gymorth i liniaru a gwyrdroi'r tueddiadau hyn. Bydd hyd at 10,100 o eiddo preswyl a 4,300 eiddo busnes yn cael mynediad at fand llydan cyflym iawn unwaith y bydd wedi'i gwblhau. |
| | Prosiect Canolfan Prosesu Signal Digidol | Prifysgol Bangor | £7.3m | £3.0m | Bydd y prosiect yn dwyn ynghyd ymchwilwyr o Brifysgol Bangor i weithio law yn llaw â chwmnïau rhyngwladol proffil uchel a busnesau bach a chanolig eu maint yng Nghymru gan alluogi iddynt weithio gyda'i gilydd i ymchwilio datrysiadau rhwygol ar gyfer 5G. Bydd y prosiect yn galluogi i'r Ganolfan Prosesu Signal Digidol ymestyn ei bresenoldeb a'i gylch gwaith, gan integreiddio'n llawn â'r Prosiect Strategaeth Cenedlaethol a galluogi datblygu asedau allweddol ar raddfa, gan gynnwys prawf-wely 5G, capasiti ymchwil ac offer o'r radd flaenaf. Disgwylir i'r prosiect hwn greu cyfanswm o 160 o swyddi. |
| Ynni carbon isel | Morlais | Menter Môn | £36.0m | £9.0m | Adeiladu'r seilwaith sy'n cysylltu Parth Morlais â'r system grid trydan, gan baratoi'r safle ar gyfer datblygwyr sector preifat sy'n buddsoddi i lesu rhannau o'r parth ar gyfer defnyddio technolegau ynni llanwol. Byddai hyn yn golygu mai'r parth fyddai'r safle agnostig technoleg estynadwy gyda chaniatâd cyntaf yn y byd gyda hyd at 180 MW o botensial. |

| Rhaglen | Prosiect | Ariannwr y prosiect | Cyfanswm buddsoddiad | Gofyn y Cynllun Twf | Crynodeb |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | Cwmni Egino | £400.0m | £20.0m | Mae safle Trawsfynydd yn cynnig ei hun yn berffaith i wneud defnydd 'Cyntaf o'i Fath' o Adweithydd Modwlar Bychan (SMR) neu Adweithydd Modwlar Uwch (AMR) yn sgil ei statws fel ased ym mherchnogaeth gyhoeddus, ei weithlu hynod fedrus (sydd yn gweithio tuag at ddadgomisiynu'r adweithydd presennol ar hyn o bryd), a'r gymuned gefnogol. Ar y cyd â'r sector cyhoeddus a phreifat, bydd y Cynllun Twf yn cyfrannu cyllid tuag at seilwaith galluogi ar gyfer y datblygiad hwn, gan helpu i ddiogelu swyddi a gosod y Gogledd mewn safle blaenllaw o ran arloesedd ac ymchwil a datblygu mewn technoleg sydd â photensial arwyddocaol i'w ddefnyddio ledled y DU. |
| | Canolfan Ragoriaeth Economi Carbon Isel | Prifysgol Bangor | £97.7m | £21.0m | Datblygu'r seilwaith ym Mhrifysgol Bangor a Pharc Gwyddoniaeth Menai, gwella galluedd y Gogledd a'r DU ar gyfer arloesedd mewn ynni carbon isel a meysydd cysylltiedig, gan helpu i greu'r amodau ar gyfer mewnfuddsoddiad newydd a thwf busnes yn y gadwyn gyflenwi ynni carbon isel yn y Gogledd |
| | Ynni Lleol Blaengar | Y BWRDD UCHELGAIS | £106.2m | £25.0m | Er mwyn helpu i gyflawni targedau ynni adnewyddadwy, datgarboneiddio a pherchnogaeth leol, bydd y prosiect yn cefnogi prosiectau hwyluso arloesol ac arddangoswyr sy'n goresgyn methiannau'r farchnad a datgloi buddsoddiad sector preifat a chymunedol mewn datrysiadau ynni lleol blaengar. |
| | Datgarboneiddio Trafnidiaeth | Y BWRDD UCHELGAIS | £28.6m | £11.4m | Cefnogi cyflwyniad prosiect arddangos sy'n ymwneud â chynhyrchu hydrogen gwyrdd o ffynonellau ynni carbon isel i ddatgarboneiddio rhwydweithiau trafnidiaeth. |

# Atodiad D - Amcanion gwario lefel rhaglen

Tabl D.1 Amcanion Gwario Lefel Rhaglen

| | |
|---|---|
| Ynni carbon isel | • Swyddi – Creu rhwng 800-980 o swyddi newydd yng Ngogledd Cymru drwy'r rhaglen erbyn 2036.<br>• GVA - Creu GVA ychwanegol net o £433-530m yng Ngogledd Cymru drwy'r rhaglen erbyn 2036<br>• Buddsoddi - Cyflawni cyfanswm buddsoddiad o £602-£735m drwy'r rhaglen erbyn 2036<br>• Cynhyrchu ynni carbon isel - Galluogi'r defnydd o 314MW o offer cynhyrchu ynni carbon isel sydd wedi'u gosod o'r newydd drwy'r rhaglen erbyn 2036.<br>• Arbedion carbon - Galluogi arbedion carbon o 2723 tunnell o leiaf drwy'r rhaglen erbyn 2036. |
| Arloesi mewn gweithgynhyrchu gwerth uchel | • Swyddi – Creu rhwng 145 - 180 o swyddi newydd yng Ngogledd Cymru drwy'r rhaglen erbyn 2036.<br>• GVA - Creu GVA ychwanegol net o £94m - £114m yng Ngogledd Cymru drwy'r rhaglen erbyn 2036.<br>• Buddsoddiad - Cyflawni cyfanswm buddsoddiad o £35.5 - 43.3m drwy'r rhaglen erbyn 2036.<br>• Cydweithio - Cydweithio gyda 55 o bartneriaid y diwydiant neu fusnesau bach a chanolig eu maint i gynorthwyo i ddatblygu technolegau carbon isel neu leihau gwastraff (TRL1 1-5)<br>• Ymchwil a Datblygu - Cefnogi a hwyluso tri phrosiect ymchwil a datblygu cydweithredol y flwyddyn i'w datblygu a thechnolegau newydd (TRL 1-5).<br>• Sgiliau a throsglwyddo gwybodaeth - Darparu hyfforddiant ac uwchsgilio i 100 o bobl/busnesau yn y technolegau a dargedir (biotechnoleg, opteg, cyfansoddion, celloedd tanwydd hydrogen) dros y pum mlynedd cyntaf.<br>• Masnacheiddio - Cefnogi nifer o fentrau i gymryd cynnyrch newydd gan ddefnyddio technolegau a dargedir o'r labordy i'r farchnad/cwmni (TRL 6-9). Targedau i'w cytuno yn ystod datblygu Achosion Busnes y Prosiectau. |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | • Swyddi – Creu rhwng 310 - 380 o swyddi newydd yng Ngogledd Cymru drwy'r rhaglen erbyn 2036.<br>• GVA - Creu GVA ychwanegol net o £230m - £281m yng Ngogledd Cymru drwy'r rhaglen erbyn 2036.<br>• Buddsoddiad - Cyflawni cyfanswm buddsoddiad o £37 - £45m drwy'r rhaglen erbyn 2036.<br>• Arloesedd a Chynhyrchedd - Darparu hyd at 4,000 - 6,000 m2 o ofod llawr egino, ymchwil a datblygu a hyfforddiant newydd i gynorthwyo i annog arloesedd ac arallgyfeirio, hyrwyddo uwch-sgilio a chefnogi twf busnes yn y sector bwyd-amaeth a thwristiaeth.<br>• Datgarboneiddio a modelau busnes cynaliadwy - 3000-400 o fusnesau yn arallgyfeirio o'r gweithrediad craidd traddodiadol neu'n mabwysiadu technoleg/ymarferion newydd o fewn pum mlynedd gyntaf y rhaglen.<br>• Trosglwyddo Sgiliau a Gwybodaeth - Darparu hyfforddiant sgiliau ychwanegol, cyfleoedd cydweithio a throsglwyddo gwybodaeth i fusnesau, darparwyr addysg a sefydliadau ymchwil. Hyfforddiant ychwanegol wedi'i ddarparu i hyd at 2,500 o unigolion/busnesau sy'n gweithredu yn y sectorau bwyd-amaeth a thwristiaeth dros bum mlynedd. |

| | |
|---|---|
| | • Cyfleoedd Cadwyn Gyflenwi - Cynyddu % y contractau cyflenwi a gyflawnir drwy'r rhaglen gyda busnesau sydd wedi'u lleoli yn y Gogledd - gwaelodlin i'w gytuno. |
| Tir ac eiddo | • Swyddi - Creu rhwng 1,870 a 2,280 o swyddi newydd yng Ngogledd Cymru drwy'r rhaglen erbyn 2036.<br>• GVA - Creu GVA ychwanegol net o £1.06bn a £1.29bn yng Ngogledd Cymru drwy'r rhaglen erbyn 2036.<br>• Buddsoddiad - Cyflawni cyfanswm buddsoddiad o rhwng £320m a £390m drwy'r rhaglen erbyn 2036.<br>• Safleoedd ac Eiddo Cyflogaeth - Cyflawni 30 ha o dir cyflogaeth wedi'i wasanaethu ac 20,000 medr sgwâr o eiddo cyflogaeth rhwng 2021 a 2026<br>• Safleoedd Preswyl - Cyflawni dros 1,000 o leiniau datblygu preswyl rhwng 2021 a 2026<br>• Porth Caergybi - Adennill tir, gwaith diogelu ac ymestyn oes y morglawdd, gwelliannau mynediad a gwelliannau i gapasiti'r porthladd |
| Digidol | • Swyddi - Creu rhwng 15 - 145 o swyddi newydd yng Ngogledd Cymru drwy'r rhaglen erbyn 2036.<br>• GVA - Creu GVA ychwanegol net o £130m - £158m yng Ngogledd Cymru drwy'r rhaglen erbyn 2036.<br>• Buddsoddiad - Cyflawni cyfanswm buddsoddiad o rhwng £37m ac £46m drwy'r rhaglen erbyn 2036.<br>• Cysylltedd mewn safleoedd allweddol - Cyflwyno marchnad cysylltedd gadarn a chystadleuol mewn 28 safle strategol i gyd-fynd â tharged Llywodraeth y DU o ddarpariaeth galluedd gigabit erbyn 2025, neu cyn hynny.<br>• Darpariaeth symudol ar rwydweithiau trafnidiaeth - Cyflwyno darpariaeth symudol lled band uchel ar rwydweithiau trafnidiaeth gyda defnydd yn cyd-fynd â tharged Llywodraeth y DU o ddarpariaeth 5G erbyn 2027, neu cyn hynny. Darpariaeth ar draws yr A55, yr A483, yr A5.<br>• Band eang cyflym iawn ym mhobman - Sicrhau bod gan yr holl eiddo preswyl yn y rhanbarth gysylltedd band eang cyflym iawn yn y tymor byr (erbyn 2023) gyda galledd uwchraddio gigabit wedi'i gynnwys gyhyd ag sy'n bosib.<br>• Isadeiledd Arloesol Digidol - Sicrhau bod y rhanbarth wedi'i rymuso i gymryd rhan mewn arloesedd a masnacholi technoleg isadeiledd digidol newydd i gyflawni a chydgrynhoi rôl tymor hir mewn diwydiant sy'n bwysig yn strategol. |

# Atodiad E - Gwerthusiad Economaidd: Prif Egwyddorion a Thybiaethau a Buddion fesul Prosiect

Tabl E 1 Crynodeb o'r Prif Egwyddorion a Thybiaethau

| Rhaglen | Amcangyfrif a gwerth gros buddiannau | Amcangyfrif yr elfen ychwanegol | Sensitifrwydd wedi'i brofi |
|---|---|---|---|
| Economi carbon isel | • Amcangyfrifon swyddi gweithredol wedi'u tynnu o Ddatganiad Amgylcheddol Morlais (08/19) ac Asesiad Effaith Economaidd Trawsfynydd (Arup, 08/20)<br>• Swyddi Canolfan Ragoriaeth Carbon Isel wedi'u seilio ar amcangyfrif Prifysgol Bangor<br>• Swyddi Prosiect Ynni Lleol Blaengar a'r Prosiect Datgarboneiddio Trafnidiaeth yn seiliedig ar yr angen am 3.0 BCR (i'w ddatblygu ymhellach ar y cam Achos Busnes Llawn y rhaglen)<br>• GVA cyfartalog i bob swydd gyfwerth ag amser llawn ar gyfer y Gogledd (£53,000) | • **Difuddiant**<br>• Canolfan Ragoriaeth Carbon Isel: 10.3% (Meincnod Prosiect Cyfalaf Canllaw Elfen Ychwanegol is-ranbarthol)<br>• Dim difudd ar gyfer y prosiectau eraill. Tybir i fod yn annhebygol o fwrw ymlaen o gwbl heb gyllid cyhoeddus.<br>• **Dadleoliad**<br>• Trawsfynydd: 25% yn seiliedig ar EIA Arup<br>• Prosiectau eraill yn seiliedig ar feincnodau Canllaw Elfen Ychwanegol is-ranbarthol<br>• **Gollyngiad a lluosogwyr:** fel yr uchod. Mae'r lluosogwr ar gyfer Morlais wedi'i gynnwys yn yr amcangyfrif swyddi ES gwreiddiol. | • Llai o effeithiau o Forlais a Thrawsfynydd - tybio 40MW capasiti ym Morlais a senario effaith is ar gyfer Trawsfynydd<br>• Cyfradd creu swyddi wedi'i leihau 25%<br>• Difuddiant wedi'i gynyddu i 50%<br>• Cyfanswm y costau wedi'i gynyddu 20%, (gyda'r Tueddiad Optimistiaeth yn dal i fod wedi'i ymgorffori). |
| Digidol | • Tybiaethau ar ddarpariaeth a defnydd o fand eang symudol/sefydlog a thystiolaeth ar gynhyrchedd/arloesedd busnes, busnesau newydd a chynnydd mewn prisiau tai<br>• Campws Cysylltiedig a Choridor Cysylltiedig yn seiliedig ar ddosraniad y Gogledd o dystiolaeth lefel y DU ar fuddion 5G, yn cynnwys | • Difuddiant yn seiliedig ar ddefnydd masnachol tebygol o fand eang sefydlog/symudol<br>• Dadleoliad: dim - bydd band eang sefydlog/symudol ar gael i bawb yn y pendraw. Mae buddsoddiad y Cynllun Twf yn mynd i'r afael â bwlch cydraddoldeb digidol. | • Defnydd o isadeiledd sefydlog wedi'i ostwng 10%<br>• Defnydd o isadeiledd symudol wedi'i ostwng 20% (yn cynnwys Campws/Coridor Cysylltiedig)<br>• Difuddiant a briodolwyd i'r prosiect Ffeibr Llawn wedi'i gynyddu i 100%<br>• Swyddi anuniongyrchol DSP wedi'u gostwng 33%. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | cysylltu 5G i gysylltedd ffyrdd/rheilffyrdd<br>• Swyddi Prosesu Signal Digidol o amcangyfrif Prifysgol Bangor, ynghyd â GVA cyfartalog ar gyfer pob swydd gyfwerth ag amser llawn ar gyfer y Gogledd (£53,000) | • Gollyngiad: dim - tybir bod yr effeithiau'n digwydd ar safleoedd busnes.<br>• Lluosogwyr: yn seiliedig ar feincnodau Canllaw Elfen Ychwanegol is-ranbarthol | |
| Tir ac eiddo | Amcangyfrifon swyddi ar gyfer datblygiad Porthladd Caergybi yn seiliedig ar gynllunio busnes diweddaraf<br>Amcangyfrifon swyddi ar gyfer buddsoddiad ar y safleoedd sy'n weddill yn seiliedig ar feincnodau gofod llawr a amcangyfrifir o'r Canllaw Dwysedd Cyflogaeth HCA<br>GVA cyfartalog i bob swydd gyfwerth ag amser llawn ar gyfer y Gogledd (£53,000) | Wedi defnyddio cyfraddau cyfartalog cymedr ar gyfer y holl ffactorau elfen ychwanegol ar gyfer yr holl sylwadau ar lefel is-ranbarthol, wedi'u cymryd o Ganllaw Elfen Ychwanegol HCA (2014) | • Nifer y swyddi uniongyrchol a gynhyrchir drwy'r rhaglen wedi'i ostwng 25%.<br>• Swyddi anuniongyrchol a grëir wedi'i ddileu o'r gwerthusiad.<br>• Difuddiant wedi'i gynyddu i 50% ar draws yr holl brosiectau. |
| Bwyd-amaeth a thwristiaeth | • Swyddi uniongyrchol wedi'u cymryd o'r tybiaethau cynllunio busnes diweddaraf<br>• Swyddi anuniongyrchol o fewn cyfleusterau ac ymhlith y buddiolwyr<br>• Swyddi wedi cael gwerth o GVA cyfartalog i bob swydd gyfwerth ag amser llawn ar gyfer y Gogledd (£53,000)<br>• Niferoedd prentisiaid wedi'u darparu gan y prosiect ac wedi cael gwerth o £3,456 y flwyddyn ar gyfer pob un a gwblheir (ffynhonnell: cronfa ddata New Economy Unit Cost) | • Wedi defnyddio cyfraddau cyfartalog cymedr ar gyfer y holl ffactorau elfen ychwanegol ar gyfer cefnogaeth sector/clwstwr ar lefel is-ranbarthol, wedi'u cymryd o Ganllaw Elfen Ychwanegol HCA (2014) | • Creu swyddi ac effeithiau sgiliau 20% yn is na'r disgwyl<br>• Ffactorau elfen ychwanegol 20% yn uwch |
| Gweithgynhyrchu gwerth uchel | • Swyddi uniongyrchol wedi'u cymryd o'r tybiaethau cynllunio busnes diweddaraf | • Wedi defnyddio cyfraddau cyfartalog cymedr ar gyfer y holl ffactorau elfen ychwanegol ar gyfer cefnogaeth sector/clwstwr ar lefel is- | • Creu swyddi 20% yn is na'r disgwyl<br>• Ffactorau elfen ychwanegol 20% yn uwch |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Swyddi anuniongyrchol ymhlith busnesau buddiolwyr wedi'u hamcangyfrif drwy ddefnyddio costau uned meincnod fesul swydd gros a grëir ar gyfer prosiectau sy'n canolbwyntio ar ymchwil a datblygu o werthusiad ERDF cenedlaethol Lloegr (£52k, wedi'i uwchraddio i brisiau cyfredol)<br>• Swyddi wedi cael gwerth o GVA cyfartalog i bob swydd gyfwerth ag amser llawn ar gyfer y Gogledd (£53,000) | ranbarthol, wedi'u cymryd o Ganllaw Elfen Ychwanegol HCA (2014) | |

Ffynhonnell: Hatch

Tabl E.2 Buddion Economaidd Gros: Amcangyfrif Canolog (Mae GVA yn gronnus hyd 2036 ac wedi'i fynegi mewn prisiau 2020/21, heb ei ddisgowntio; mae swyddi yn flynyddol ar raddfa sefydlog)

| | GVA (£m) | Swyddi a grëir (cyfwerth ag amser llawn) |
|---|---|---|
| | **Digidol** | |
| Ffibr llawn | 50 | 520 |
| Cysylltu'r % derfynol | 65 | 540 |
| Campws Cysylltiedig | 80 | 0 |
| Coridor Cysylltiedig | 55 | 0 |
| DSP | 105 | 160 |
| **Cyfanswm Digidol** | **345** | **1,210** |
| | **Carbon Isel** | |
| Morlais | 70 | 140 |
| Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | 170 | 380 |
| Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | 30 | 30 |
| Ynni Lleol Blaengar | 145 | 210 |
| Datgarboneiddio Trafnidiaeth | 75 | 110 |
| **Cyfanswm Carbon Isel** | **485** | **870** |
| | | **Tir ac Eiddo** |
| Datblygiad o amgylch Porthladd Caergybi | 1,175 | 2,000 |
| Safle Ysbyty Dinbych | 35 | 70 |
| Bodelwyddan | 200 | 380 |
| Parc Technoleg Wrecsam | 350 | 550 |
| Safle Strategol Warren Hall | 360 | 670 |
| Bryn Cegin | 42 | 70 |
| **Cyfanswm Tir ac Eiddo** | **2,160** | **3,740** |
| | **Bwyd-amaeth a Thwristiaeth** | |
| Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi | 435 | 630 |
| Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | 50 | 80 |
| Rhwydwaith Talent Twristiaeth Gogledd Cymru - Sgiliau a Chefnogaeth Busnes | 40 | 10 |
| **Cyfanswm Bwyd-amaeth a Thwristiaeth** | 525 | **710** |
| | **Arloesi a Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel** | |
| Canolfan BIOTECHnoleg Amgylcheddol | 10 | 190 |
| Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | 95 | 150 |
| **Cyfanswm Arloesi a Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel** | 105 | **330** |
| | **Cyfanswm Portffolio'r Cynllun Twf** | |
| **Cyfanswm Portffolio'r Cynllun Twf** | **3,625** | **6,860** |


Ffynhonnell: Hatch. GVA wedi'i dalgrynnu i'r £5miliwn agosaf. Swyddi wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf.

Tabl E. 3 Buddion Economaidd Ychwanegol Net: Amcangyfrif Canolog (Mae GVA yn gronnus hyd 2036 ac wedi'i fynegi mewn prisiau 2020/21, heb ei ddisgowntio; mae swyddi yn flynyddol ar raddfa sefydlog)

| | GVA (£m) | Swyddi a grëir (cyfwerth ag amser llawn) |
|---|---|---|
| | **Digidol** | |
| Ffibr llawn | 20 | 120 |
| Cysylltu'r % derfynol | 35 | 150 |
| Campws Cysylltiedig | 35 | 0 |
| Coridor Cysylltiedig | 25 | 0 |
| DSP | 50 | 80 |
| **Cyfanswm Digidol** | **170** | **350** |
| | | **Carbon Isel** |
| Morlais | 50 | 100 |
| Gorsaf Bŵer Trawsfynydd | 230 | 510 |
| Canolfan Ragoriaeth Ynni Carbon Isel | 20 | 20 |
| Ynni Lleol Blaengar | 120 | 180 |
| Datgarboneiddio Trafnidiaeth | 60 | 90 |
| **Cyfanswm Carbon Isel** | **480** | **890** |
| | | **Tir ac Eiddo** |
| Datblygiad o amgylch Porthladd Caergybi | 545 | 930 |
| Safle Ysbyty Dinbych | 20 | 50 |
| Bodelwyddan | 125 | 250 |
| Parc Technoleg Wrecsam | 220 | 360 |
| Safle Strategol Warren Hall | 235 | 440 |
| Bryn Cegin | 30 | 50 |
| **Cyfanswm Tir ac Eiddo** | **1,175** | **2,080** |
| | | **Bwyd-amaeth a Thwristiaeth** |
| Canolfan Carbon Niwtral Llysfasi | 215 | 310 |
| Canolbwynt Economi Gwledig Glynllifon | 25 | 40 |
| Rhwydwaith Talent Twristiaeth Gogledd Cymru - Sgiliau a Chefnogaeth Busnes | 20 | 0 |
| **Cyfanswm Bwyd-amaeth a Thwristiaeth** | **260** | **350** |
| | **Arloesi a Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel** | |
| Canolfan BIOTECHnoleg Amgylcheddol | 60 | 90 |
| Canolfan Opteg a Pheirianneg Menter | 45 | 70 |
| **Cyfanswm Arloesi a Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel** | **105** | **160** |
| | **Cyfanswm Portffolio'r Cynllun Twf** | |
| **Cyfanswm Portffolio'r Cynllun Twf** | **2,185** | **3,830** |

Ffynhonnell: Hatch. Swyddi wedi'u talgrynnu i'r 10 agosaf.

# Atodiad F - Amserlen Cyflawni'r Cynllun Twf




Nodyn Eglurhaol ar Gyflawni Preifat yn y Rhaglen Tir ac Eiddo

Yn sgil graddfa'r datblygiad arfaethedig, bydd gan y prosiectau a ganlyn amserlenni cyflawni a fydd yn ymestyn y tu hwnt i 2026 - Porth y Gorllewin, Warren Hall, Bodelwyddan, Cyn Ysbyty Gogledd Cymru. Mae'r amserlen uchod yn cyfeirio at elfennau'r prosiectau hyn a ariannir gan y Cynllun Twf. Dangosir amserlen cyflawni mynegol llawn y prosiectau hyn yn Nhabl 5.4 yn Achos Ariannol Achos Busnes y Rhaglen Tir ac Eiddo

north wales economic ambition board
bwrdd uchelgais economaidd gogledd cymru

# Atodiad G - Dadansoddiad Sensitifrwydd Lefel Rhaglen Manwl

Tabl A.1.1 Dadansoddiad Sensitifrwydd: Rhaglen Economi Carbon Isel

| Prawf Sensitifrwydd | GVA wedi'i ostwng net hyd 2036 | BCR Craidd |
|---|---|---|
| **Y Dewis a Ffafrir** | **£329m** | **3.3: 1** |
| Prawf Sensitifrwydd 1: Llai o effeithiau o Forlais a Thrawsfynydd | £288m | 2.8 : 1 |
| Prawf Sensitifrwydd 2: Gostyngiad 25% yn y swyddi cyfwerth ag amser llawn a grëir | £262m | 2.6 : 1 |
| Prawf Sensitifrwydd 3: Difuddiant wedi'i gynyddu i 50% | £166m | 1.6 : 1 |
| Prawf Sensitifrwydd 4: Cynnydd cost 20% | £329m | 2.7 : 1 |
| Newid Gwerthoedd (dychwelyd BCR 1:1) | Tua 70% o ddirywiad yn ein tybiaethau modelu effaith craidd | |

Ffynhonnell: Hatch

Table A.1.2 Dadansoddiad Sensitifrwydd: Rhaglen Arloesi mewn Gweithgynhyrchu Gwerth Uchel

| Prawf Sensitifrwydd | GVA wedi'i ostwng net hyd 2036 | BCR Craidd |
|---|---|---|
| **Y Dewis a Ffafrir** | **£57m** | **4.4: 1** |
| Creu swyddi 20% yn is na'r disgwyl | £46m | 3.5 : 1 |
| Ffactorau elfen ychwanegol 20% yn uwch | £53m | 4.2 : 1 |
| Yr Achos Gwaethaf (wedi'i gyfuno) | £43m | 3.3 : 1 |
| Newid Gwerthoedd (dychwelyd BCR 1:1) | 77% o ostyngiad mewn creu swyddi | |

Ffynhonnell: Hatch

Tabl A.1.3 Dadansoddiad Sensitifrwydd: Rhaglen Bwyd-Amaeth a Thwristiaeth

| Prawf Sensitifrwydd | GVA wedi'i ostwng net hyd 2036 | BCR Craidd |
|---|---|---|
| **Y Dewis a Ffafrir** | **£184m** | **6.4 : 1** |
| Creu swyddi ac effeithiau sgiliau 20% yn is na'r disgwyl | £146m | 5.1: 1 |
| Ffactorau elfen ychwanegol 20% yn uwch | £172m | 6.0: 1 |

| | | |
|---|---|---|
| Yr Achos Gwaethaf (wedi'i gyfuno) | £138m | 4.8: 1 |
| Newid Gwerthoedd (dychwelyd BCR 1:1) | 84% o ostyngiad mewn creu swyddi a'r gwerth economaidd sy'n gysylltiedig â sgiliau twristiaeth | |

Ffynhonnell: Hatch

Tabl A.1.4 Dadansoddiad Sensitifrwydd: Rhaglen Tir ac Eiddo

| Prawf Sensitifrwydd | GVA Ychwanegol Net wedi'i ddisgowntio | BCR Craidd |
|---|---|---|
| **Y Dewis a Ffafrir** | **£804 miliwn** | **8.9:1** |
| Prawf Sensitifrwydd 1: Gostyngiad 25% yn y swyddi uniongyrchol | £605 miliwn | 6.7:1 |
| Prawf Sensitifrwydd 2: Dileu'r swyddi anuniongyrchol a grëir | £665 miliwn | 7.3:1 |
| Prawf Sensitifrwydd 3: Difuddiant 50% | £535 miliwn | 5.9:1 |
| Prawf Sensitifrwydd 4: Cynnydd cost 20% | £804 miliwn | 7.4:1 |
| Newid Gwerthoedd (dychwelyd BCR 1:1) | 89% o ostyngiad mewn creu swyddi | |

Ffynhonnell: Hatch

Tabl A.1.5 Dadansoddiad Sensitifrwydd: Rhaglen Ddigidol

| Prawf Sensitifrwydd Amrywiol | Cyfanswm yr Effaith GVA (NPV) | BCR Craidd |
|---|---|---|
| Effaith yr Opsiwn a Ffefrir a VfM | £144.0m | 3.6:1 |
| Prawf 1: Addasiad i'r Defnydd Ffibr Sefydlog | £139.5m | 3.4:1 |
| Prawf 2: Addasiad i'r Defnydd Symudol 4G/5G | £134.0m | 3.3:1 |
| Prawf 3: Addasiad i'r Difuddiant | £140.1m | 3.5:1 |
| Prawf 4: Addasiad Cost Tueddiad Optimistiaeth | £144.0m | 3.6:1 |
| Prawf 5: Cyflogaeth DSP Anuniongyrchol wedi'i Addasu | £133.1m | 3.3:1 |
| **Yr Holl Brofion wedi'u Cyfuno (Senario Achos Gwaethaf)** | **£116.3m** | **2.9:1** |
| **Newid Gwerthoedd** (dychwelyd BCR 1:1) | | |
| Tua 75% o ddirywiad yn: • y defnydd o fand eang sefydlog a symudol • buddion o fand eang sefydlog yn nhermau busnesau newydd • buddion a gynhyrchir drwy'r DSP. | | |

Ffynhonnell: Hatch